# Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru

# Adroddiad Ymgynghori Cyhoeddus 2024

Rhif yr adroddiad: 926
Enw'r awdur: Cyfoeth Naturiol Cymru a Resources for Change

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ... 3
2. Cyflwyniad ... 4
3. Sut yr ymgynghorodd CNC â rhanddeiliaid a’r cyhoedd? ... 5
4. Canfyddiadau’r ymgynghoriad cyhoeddus – Resources for Change ... 6
4.1 Ymatebion i’r holiadur ... 7
4.2 Ymatebion ar ffurf negeseuon e-bost a dderbyniodd CNC yn uniongyrchol ... 81
5. Casgliad ... 86
6. Y camau nesaf ... 87
7. Atodiadau ... 88
7.1 Atodiad A: Map o’r Ardal Ymgeisiol ... 88
7.2 Atodiad B: Holidaur ... 90


# Rhestr o ffigurau


Ffigur 1: Sut y gwnaeth yr ymatebwyr adnabod eu hunain wrth ateb yr holiadur ... 7
Ffigur 2: Sut disgrifiodd ymatebwyr eu hunain ... 8
Ffigur 3: Map o’r ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl cod post ... 10
Ffigur 4: Y tair thema bwysicaf yn ôl ymatebwyr yng nghyfnod ymgysylltu 2023 ... 12
Ffigur 5: Y graddau y mae ymatebwyr yn cytuno â’r casgliad bod gan yr ardal hon harddwch naturiol ... 30
Ffigur 6: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â’r casgliadau bod gan yr ardal hon gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored ... 41
Ffigur 7: I ba raddau y mae ymatebwyr yn meddwl y dylai’r ardal a gynigir fod yn Barc Cenedlaethol (1) ... 49
Ffigur 8: I ba raddau y mae ymatebwyr yn meddwl y dylai’r ardal a gynigir fod yn Barc Cenedlaethol (2) ... 50
Ffigur 9: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi’i thynnu (1) ... 51
Ffigur 10: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi’i thynnu (2) ... 52
Ffigur 11: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys yr ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf yn yr ardal ymgeisiol (1) ... 56
Ffigur 12: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys yr ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf yn yr ardal ymgeisiol (2) ... 57
Ffigur 13: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o’r ardal ymgeisiol (1) ... 59
Ffigur 14: I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o’r ardal ymgeisiol (2) ... 60
Ffigur 15: Archwilio opsiynau enwau posibl ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig ... 66
Ffigur 16: Gallu Cymraeg yr ymatebwyr ... 72


# Rhestr o dalfyriadau

1. CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda dadansoddiad diduedd gan Resources for Change. Mae'n manylu ar ddadansoddiad a chanfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus deg wythnos a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 ar y cynnig sy'n datblygu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yn yr ardal sy'n cynnwys Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Nod ymgynghoriad cyhoeddus 2024 oedd ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y ffin ddrafft arfaethedig, y cyfeirir ati fel y Map Ardal Ymgeisiol, **nid** ffin derfynol.

Roedd ymgysylltu da drwy gydol yr ymgynghoriad cyhoeddus. Denodd yr 19 digwyddiad ymgynghori cyhoeddus (galw heibio ac ar-lein) a gynhaliwyd gan CNC bron i 700 o bobl, a chafwyd dros 1,960 o ymatebion (1,911 o holiaduron, a 58 e-bost). Roedd cynrychiolaeth dda o leisiau lleol, sef mwyafrif y mynychwyr a'r ymatebion.

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Cydnabyddiaeth gyhoeddus gref o feini prawf cymhwyso Parc Cenedlaethol:
    - Er nad yw o reidrwydd yn trosi'n gefnogaeth i ddynodi Parc Cenedlaethol, roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr ardal yn meddu ar harddwch naturiol ac roedd 67% yn cytuno bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Dyma'r meini prawf cymhwyso craidd ar gyfer statws Parc Cenedlaethol.
- Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr o blaid dynodi Parc Cenedlaethol newydd.
    - Dywedodd 52% o'r ymatebwyr y dylai'r ardal fod yn Barc Cenedlaethol (42% yn dweud y dylai, 10% yn dweud y dylai ond gydag addasiadau i'r ffin, 44% yn dweud na ddylai, a 4% ddim yn gwybod).
- Prif bryderon y cyhoedd:
    - Mae'r materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr yn adlewyrchu sbectrwm eang o deimladau ymhlith y cyhoedd, o gefnogaeth frwd, i wyliadwriaeth a gwrthwynebiad cryf. Roedd cynnwys yr ymatebion yn weddol debyg i'r rhai a fynegwyd yn y cyfnod ymgysylltu cynnar yn 2023, er bod newid bach yn nhrefn pwysigrwydd a'r rhai a grybwyllwyd amlaf, neu a grybwyllwyd leiaf. Y tair thema a grybwyllwyd amlaf yn 2024 oedd:
        1. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth, rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
        2. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal a llonyddwch
        3. Cwestiynu'r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid a biwrocratiaeth

      Yn 2023, y rhain oedd:
        1. Cadwraeth tirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, a llonyddwch
        2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
        3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith

Mae CNC wrthi'n cynnal dadansoddiad i archwilio'r holl themâu a godwyd, ac mae'r adborth o'r ymgynghoriad hwn wedi llywio pob un o'r canlynol:

- Adroddiad buddion i natur
- Asesiad economaidd
- Adolygiad o gynllunio
- Asesiad o’r effaith ar iechyd
- Asesiad o’r effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb

Mae CNC hefyd yn adolygu adborth o’r ymgynghoriad ynghyd ag adborth parhaus o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn adolygu tystiolaeth yn ymwneud â’r ffin a’r dadansoddiad o opsiynau rheoli.

Bydd CNC yn cyflwyno’r canfyddiadau i’w fwrdd yn haf 2025. Bydd y bwrdd yn penderfynu a yw Parc Cenedlaethol, dynodiad arall neu ddim dynodiad o gwbl yn ddymunol. Os cymeradwyir dynodiad yna cynhelir ymgynghoriad statudol. Rhennir map manwl a’r holl dystiolaeth ategol â’r cyhoedd yn hydref/gaeaf 2025.

# 2. Cyflwyniad

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i Gymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol a’r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw Barciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CNC i werthuso’r achos dros Barc Cenedlaethol newydd ar sail ardal bresennol Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Mae CNC yn sefydliad annibynnol a bydd yn gwneud argymhelliad annibynnol ar sail y dystiolaeth a gasglwyd a’r goblygiadau i ddinasyddion Cymru. Bydd y broses statudol a’r profion yn cael eu cymhwyso.

Ar hyn o bryd, mae gan CNC dîm sy’n arwain yr asesiad sy’n gwerthuso’r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Mae’r gwaith yn cynnwys casglu data a thystiolaeth, ac ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rhwng dydd Llun 9 Hydref a dydd Llun 27 Tachwedd 2023, cynhaliodd CNC gyfnod ymgysylltu cynnar o saith wythnos a oedd yn cynnwys digwyddiadau ar-lein a galw heibio a gynigiwyd i’r cyhoedd a rhanddeiliaid targedig. Bwriad hyn oedd meithrin dealltwriaeth o’r materion ac ystyriaethau lleol.

Yn dilyn cyfnod ymgysylltu 2023, a chyfnod dilynol o gasglu tystiolaeth, canolbwyntiodd ymgynghoriad cyhoeddus 2024 ar ymgynghori â’r cyhoedd ar y cynnig oedd yn dod i’r amlwg.

Cynhaliodd CNC ymgynghoriad cyhoeddus deg wythnos o ddydd Llun 7 Hydref tan ddydd Llun 16 Rhagfyr 2024 ar y map ffiniau drafft, y cyfeirir ato fel y map ardal ymgeisiol.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliodd CNC 19 o ddigwyddiadau ar-lein a galw heibio a ddenodd bron i 700 o bobl.

Cafwyd cyfanswm o 1,968 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar draws yr holl ddulliau cyflwyno (ar-lein, dros yr e-bost a thrwy'r post). Cyflwynwyd 1,911 o holiaduron a chafodd 58 o ymatebion eu hanfon dros yr e-bost.

Contractiodd CNC gorff allanol, sef ymgynghoriaeth Resources for Change, i ddadansoddi'r holl adborth yn ofalus a'i godio'n thematig, a gellir gweld hyn yn *Adran 4* yr adroddiad.

# 3. Sut yr ymgynghorodd CNC â rhanddeiliaid a'r cyhoedd?

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus deg wythnos, cynhaliodd CNC 19 o ddigwyddiadau i gyd. Roedd deg digwyddiad galw heibio cyhoeddus, dau ddigwyddiad cyhoeddus ar-lein, a saith digwyddiad wedi'u targedu at randdeiliaid. O'r saith digwyddiad i randdeiliaid, roedd chwech yn ddigwyddiadau ar-lein ac un yn ddigwyddiad galw heibio. Targedwyd y chwe digwyddiad ar-lein tuag at: aelodau etholedig, grwpiau hamdden a mynediad, grwpiau amgylchedd a threftadaeth, y sector ynni adnewyddadwy, cyfleustodau, busnesau a thwristiaeth. Roedd y digwyddiad galw heibio wedi'i dargedu at y rheini o fewn y sector amaethyddol a thirfeddianwyr.

Hysbysebwyd yr holl ddigwyddiadau ar wefan y prosiect ac roeddent yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedwyd wrth bobl mai dim ond un digwyddiad oedd angen iddyn nhw ei fynychu, boed hynny ar-lein neu wrth alw heibio, gan fod yr wybodaeth a rannwyd yr un peth ym mhob un. Roedd yr holl ddigwyddiadau yn gyfle i ddysgu mwy am y cynnig a'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, gofyn cwestiynau i'r tîm, a rhannu adborth ar y map ffiniau drafft – y cyfeirir ato fel y map ardal ymgeisiol.

## Digwyddiadau galw heibio

Cynhaliwyd y deg digwyddiad galw heibio yn y lleoliadau canlynol:

- Canolfan Gymunedol Parkfields
- Canolfan Ceiriog, Neuadd Bentref Llanrhaeadr
- Parc Gwledig Loggerheads,
- Neuadd Goffa Wrecsam, y Pwyllgor Sefydliad Cyhoeddus (Llanfyllin),
- Canolfan Gymunedol Neuadd y Brenin,
- Canolfan Cowshacc (1st Clives Own Welshpool Scout Headquarters & Community Centre) Canolfan Ni Corwen
- Neuadd y Dref Llangollen

Cynhaliwyd yr un digwyddiad galw heibio a dargedwyd at randdeiliaid y sector amaethyddol a thirfeddianwyr yng Ngholeg Llysfasi. Cynhaliwyd digwyddiadau ar ddyddiau'r wythnos (rhwng 1pm a 7pm a 3pm a 7pm) a dyddiau Sadwrn (rhwng 10am a 4pm) ac anogwyd pobl i alw heibio yn y digwyddiadau galw heibio fel y dymunent. Nid oedd angen archebu.

Cafodd mynychwyr y digwyddiadau eu cyfrif wrth gyrraedd, gofynnwyd iddynt arwyddo'u presenoldeb, a rhoddwyd copïau printiedig dwyieithog o'r daflen ymgynghoriad cyhoeddus iddyn nhw, ynghyd â ffurflen gwerthuso'r digwyddiad a holiadur. Fe'u hanogwyd i edrych ar y byrddau gwybodaeth, yr adroddiadau, y ffotograffau, y baneri dros dro, a'r mapiau mawr yn dangos y Map Ardal Ymgeisiol. Roedd amryfal staff wrth law, ac yn eu plith siaradwyr Cymraeg bob amser, ac roeddent yn hawdd eu hadnabod mewn dillad â brand CNC. Bu'r staff yn trafod y cynigion, yn esbonio'r Map Ardal Ymgeisiol, ac yn trafod yn gyffredinol gyda'r mynychwyr i ddeall eu

safbwyntiau, ateb eu cwestiynau lle bo'n bosibl, a'u hannog i lenwi holiaduron fel dull o gasglu adborth.

Roedd 575 yn bresennol yn y deg digwyddiad galw heibio ac un digwyddiad galw heibio wedi'i dargedu at randdeiliaid y sector amaethyddol a thirfeddianwyr.

### Digwyddiadau ar-lein

Anogwyd y rhai oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn un o'r digwyddiadau ar-lein i anfon e-bost at dîm y prosiect i ddweud pa ddigwyddiad yr oeddent â diddordeb ynddo. Anfonodd tîm y prosiect ddolenni i'r cyfarfodydd cyn y digwyddiadau. Roedd pob digwyddiad wedi'i gynllunio i bara awr a hanner ac yn dilyn strwythur o gyflwyniadau hanner awr, wedi'u dilyn ag awr o gwestiynau a thrafodaeth. Roedd yr holl ddigwyddiadau ar-lein yn ddwyieithog gyda chyfieithu ar y pryd ac, ar ddiwedd y digwyddiadau, anogwyd pobl i roi eu hadborth drwy lenwi'r holiadur.

Ymunodd 113 o fynychwyr â'r naw digwyddiad ar-lein.

### Cyfarfodydd cyhoeddus

Derbyniodd CNC wahoddiadau i ddau gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan gynghorau cymuned yn rhan ddeheuol yr Ardal Ymgeisiol. Cymerodd y rhain le yn Llanrhaeadr ym Mochnant a Llanarmon Ceiriog. Dylid pwysleisio nad oedd y rhain yn gyfarfodydd a drefnwyd gan CNC. Roeddent yn fynegiant pwysig o gryfder y teimlad a lefel y pryder a deimlir gan lawer yn y gymuned.

# 4. Canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus – Resources for Change

Mae pob un o'r 1,968 o ymatebion wedi'u dadansoddi'n ofalus a'u codio'n thematig gan gorff allanol, sef ymgynghoriaeth Resources for Change, sydd wedi cyflwyno ei chanfyddiadau yn adran ganlynol yr adroddiad.

Mae Resources for Change yn ymgynghoriaeth gymdeithasol gyfrifol sy'n eiddo i'r cyflogeion, gydag enw da am arloesi wrth gynnwys pobl yn y materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Fel cwmni, dechreuodd Resources for Change ym 1997 ym maes rheolaeth amgylcheddol a heddiw maent yn dal i gysylltu eu harbenigedd yn y maes hwn â gwaith sy'n integreiddio pobl i'w hamgylchedd. Mae Resources for Change yn cynnal ymchwil feintiol ac ansoddol sy'n cynnwys gwaith maes – gan gasglu data 'byw' y gellir ei ddefnyddio i lywio cynlluniau a strategaethau.
I gael rhagor o wybodaeth amdanynt, dilynwch y ddolen https://r4c.org.uk/


# 4.1 Ymatebion i'r holiadur

RHAN 1 YR HOLIADUR – YNGLŶN Â'CH ADBORTH

**CWESTIWN 1:**

A YDYCH YN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD HWN:

- FEL UNIGOLYN?
- AR RAN SEFYDLIAD?
- AR RAN GRŴP NEU GYMUNED?




***Ffigur 1:*** *Sut y gwnaeth yr ymatebwyr adnabod eu hunain wrth ateb yr holiadur*


O 1,911 o ymatebion i'r holiadur, ymatebodd 94.4% (1,803 o ymatebwyr) fel unigolyn, 3.5% (67 o ymatebwyr) ar ran sefydliad, ac 1.3% (25 o ymatebwyr) ar ran grŵp neu gymuned.

Nododd 99 o ymatebwyr pa sefydliad, grŵp neu gymuned yr oeddent yn ymateb ar eu rhan. Roedd 69 o'r ymatebwyr o'r sectorau amgylcheddol ac amaethyddol a 30 o grwpiau a chymunedau.

**CWESTIWN 2:**

PA UN O'R CANLYNOL SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?

- PRESWYLYDD LLEOL
- YMWELYDD / TWRIST
- FFERMWR / TIRFEDDIANNWR
- PERCHENNOG BUSNES
- CYNRYCHIOLYDD SEFYDLIAD / GRŴP
- ARALL




***Ffigur 2:** Sut disgrifiodd ymatebwyr eu hunain*

Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gallu ticio blychau cymaint o atebion ag a oedd yn berthnasol iddynt. Disgrifiodd 1,273 eu hunain fel trigolion lleol, 364 fel ymwelwyr / twristiaid, 353 fel ffermwyr / tirfeddianwyr a 162 fel perchnogion busnes. Rhoddodd 92 dic yn y blwch 'arall' ac roedd 73 yn gynrychiolwyr sefydliad / grŵp.

Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn perthyn i ddau (neu fwy) o gategorïau yn gorgyffwrdd ar y canlynol: dywedodd 211 o ymatebwyr eu bod yn 'breswylydd lleol' ac yn 'ffermwr / tirfeddiannwr', dywedodd pump eu bod yn 'breswylydd lleol' ac yn 'ymwelydd / twrist', a dywedodd 127 eu bod yn 'breswylydd lleol' ac yn 'berchennog busnes'.

Roedd y 92 o ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' yn cynnwys rhai a nododd eu bod yn preswylio yng Nghymru, cyn-breswylwyr yng Nghymru a'r ardal ymgeisiol, pobl a oedd yn gweithio yn y sector amgylcheddol neu a oedd â diddordeb yn yr amgylchedd, ffermwyr a thirfeddianwyr, aelodau o awdurdodau lleol, ac unigolion sy'n dod o'r tu allan i Gymru.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa rôl oedd ganddynt o fewn y sefydliad yr oeddent yn ei gynrychioli. Ymhlith yr atebion oedd cadeiryddion, cyfarwyddwyr, ysgrifenyddion, rheolwyr, swyddogion polisi, ymddiriedolwyr, cynghorwyr a chlercod cynghorau i enwi ond ychydig.


Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ychwanegu 'Unrhyw sylwadau pellach' yn ymwneud â'r categori yr oeddent wedi'i ddewis. Gwnaeth 259 o ymatebwyr roi sylwadau yn y rhan honno o'r cwestiwn.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys esboniadau o'u perthynas â'r ardal, eu barn am y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a gwaith eu sefydliad, i enwi ond ychydig.

O fewn y safbwyntiau a fynegwyd am y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn yr ymateb hwn, roedd llawer yn dangos pryder am y Parc Cenedlaethol neu'r broses, ac esboniodd eraill pam eu bod yn cefnogi'r cynnig.

**CWESTIWN 3:**

BETH YW EICH COD POST?




***Ffigur 3:*** *Map o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl cod post*

Er y cafwyd ymatebion o bob rhan o Brydain – o ogledd-orllewin yr Alban a Gogledd Iwerddon i Gaint, Portsmouth a Plymouth – daeth y mwyafrif o Gymru, ac yn fwy penodol o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol newydd, ac o'i hamgylch.

Daeth y nifer fwyaf o ymatebion o ardaloedd cod post Llandudno (LL), sy'n cwmpasu canol a gogledd-orllewin y ffin ddrafft arfaethedig, ac roedd y rhain yn cynrychioli 698 neu 37.3% o'r ymatebion a ddaeth i law a oedd yn nodi cod post. Yn ail i hynny roedd yr Amwythig (SY), sy'n cwmpasu de'r ffin ddrafft arfaethedig, ac roedd y rhain yn cynrychioli 638 neu 34.1% o'r ymatebion a ddaeth i law a oedd yn nodi cod post. Daeth 205 ymateb o Gaer (CH), sy'n cwmpasu gogledd-ddwyrain y ffin ddrafft arfaethedig. Roedd y rhain yn gyfrifol am 11.0% o'r ymatebion a ddaeth i law a oedd yn nodi cod post.

Daeth 1,541 (82.4%) o'r ymatebion o ardaloedd cod post o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol.

Mae'r map uchod yn dangos nifer yr ymatebion o'r ardaloedd cod post. Er enghraifft, cafwyd 350 o ymatebion o ardal cod post SY10 a 20 ymateb o ardal cod post LL18. (Mae ardaloedd o fewn y map heb unrhyw liw na data ynddynt yn dynodi na chafwyd unrhyw ymatebion o'r ardal cod post hon.)

Mae'r canrannau a ddangosir ar y map yn cael eu cyfrifo o nifer yr ymatebion a gafwyd yn yr ardal cod post honno o gymharu â chyfanswm y boblogaeth (o gyfrifiad 2021) o fewn yr ardal cod post. Er enghraifft, o fewn ardal cod post SY10, cafwyd 350 o ymatebion o boblogaeth o 15,672, sef canran o 2.23%.

Sylwch, mewn rhai ardaloedd efallai y bydd mwy o ymatebion nag eraill oherwydd bod mwy o bobl yn byw yno. Er enghraifft, mae gan SY10 boblogaeth o 15,672 o gymharu â phoblogaeth o 1,018 sy'n byw o fewn ardal cod post SY19. Hefyd, nid oedd y cwestiwn hwn yn orfodol, felly ni roddodd 43 o ymatebwyr eu cod post o gwbl. Rhoddodd pedwar y tri digid cyntaf a 1,864 eu cod post yn llawn.


## RHAN 2 YR HOLIADUR – CYFNOD YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD 2023

**CWESTIWN 3A:**

YN YSTOD EIN CYFNOD YMGYSYLLTU YN 2023, NODWYD NIFER O THEMÂU ALLWEDDOL.

YN EICH BARN CHI, PA RAI YW'R TAIR THEMA BWYSICAF?

- GWARCHOD Y DIRWEDD, CYDNABYDDIAETH I'R ARDAL, LLONYDDWCH
- BYWYD GWYLLT, AMAETHYDDIAETH A RHEOLI TIR, YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD
- RHEOLI TWRISTIAETH, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A SEILWAITH
- CWESTIYNU'R ANGEN AM NEWID, RHEOLAETH A RHEOLAETHAU, COSTAU, ARIANNU, BIWROCRATIAETH
- POBL A CHYMUNEDAU LLEOL, YR ECONOMI LEOL
- MATERION MYNEDIAD A HAMDDEN AWYR AGORED
- GOBLYGIADAU TAI
- DIWYLLIANT A THREFTADAETH
- GOBLYGIADAU CYNLLUNIO
- LLEOLIAD Y FFIN




***Ffigur 4:*** *Y tair thema bwysicaf yn ôl ymatebwyr yng nghyfnod ymgysylltu 2023*

Yn dilyn ymlaen o'r cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd yn 2023, ystyriwyd yr ymatebion yn ofalus, nodwyd y canfyddiadau a themâu allweddol, a chawsant eu cyflwyno mewn adroddiad ymgysylltu. Fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 2024, gofynnodd Cwestiwn 3a i ymatebwyr nodi pa dair o themâu cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd 2023 oedd, yn eu barn nhw, y rhai pwysicaf.

O’r 1,911 o ymatebwyr i’r holiadur, y tair thema bwysicaf o gyfnod ymgysylltu 2023 a restrwyd oedd:

1. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd (1,145 o bleidleisiau)
2. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal, a llonyddwch (984 o bleidleisiau)
3. Cwestiynu’r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid, a biwrocratiaeth (790 o bleidleisiau)

Dilynwyd hyn yn agos gan bobl a chymunedau lleol, yr economi leol (773 o bleidleisiau), rheoli twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith (649 o bleidleisiau), goblygiadau cynllunio (386 o bleidleisiau), goblygiadau tai (337 o bleidleisiau), diwylliant a threftadaeth (315 o bleidleisiau), materion mynediad a hamdden awyr agored (313 o bleidleisiau), a lleoliad y ffin (167 o bleidleisiau).

Mae’r tair thema bwysicaf a grybwyllwyd uchod ychydig yn wahanol i’r tair thema a grybwyllwyd amlaf yn adroddiad ymgysylltu â’r cyhoedd 2023, a gafodd eu rhestru fel a ganlyn:

1. Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal, a llonyddwch
2. Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
3. Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith

Er bod ‘Gwarchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i’r ardal a llonyddwch’ a ‘Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd’ yn parhau’n uchel, yn ymgynghoriad cyhoeddus 2024 roedd y thema ‘Cwestiynu’r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid a biwrocratiaeth’ yn gryfach na ‘Twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith’.

**<u>CWESTIWN 3B:</u>**

HOFFECH CHI AWGRYMU UNRHYW THEMÂU ERAILL NEU YCHWANEGU UNRHYW WYBODAETH YCHWANEGOL?

Rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr awgrymu unrhyw themâu allweddol eraill yr oeddent yn teimlo y dylid eu hychwanegu at y rhai a nodwyd yng nghyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd 2023. Nid oedd unrhyw themâu newydd yn dod i’r amlwg, dim ond sylwadau ac adborth a oedd yn adeiladu ar y themâu a oedd eisoes wedi’u sefydlu. Gofynnwyd i’r ymatebwyr hefyd ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol y teimlent y dylid ei hychwanegu at y themâu gwreiddiol.

Cafwyd 553 o ymatebion i Gwestiwn 3b ac roedd y rhain yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, yn ymwneud yn bennaf â’r themâu a nodwyd yn flaenorol. Mae’r atebion wedi’u dadansoddi’n ofalus ac mae’r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i’r rhai a grybwyllwyd leiaf.

### BYWYD GWYLLT, AMAETHYDDIAETH A RHEOLI TIR, YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD

Soniodd 152 o 553 o ymatebwyr (bron i 27.5%) am y thema ‘Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd’. Soniodd ymatebwyr am y bywyd gwyllt a bioamrywiaeth unigryw a sut y gallai dynodiad effeithio arnynt, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Soniodd llawer o ymatebwyr am yr effaith y mae amaethyddiaeth wedi’i chael yn y gorffennol ac y gallai ei chael yn y dyfodol, a sut mae’r rheolwyr tir wedi llunio’r dirwedd. Soniodd eraill am yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar yr amgylchedd. Gwnaed sylwadau hefyd am sut y gellir rheoli’r amgylchedd, bioamrywiaeth, seilwaith a thwristiaeth yn gynaliadwy pe bai’r ardal yn dod yn Barc Cenedlaethol.

- **BYWYD GWYLLT**

Soniodd ymatebwyr am fywyd gwyllt, gan amrywio o fynegi pryderon am gyflwr presennol bywyd gwyllt yn yr ardal, holi sut i ddiogelu bywyd gwyllt sefydledig a chyflwyno neu annog rhywogaethau newydd i wella'r ardal, a sut i gynyddu amrywiaeth bywyd gwyllt. Roedd nifer yn cwestiynu sut i gynnal neu wella cydbwysedd rhwng bywyd gwyllt ac amaethyddiaeth, a pha effaith y gallai cynnydd mewn twristiaeth ei chael ar fywyd gwyllt yr ardal. Soniodd nifer o ymatebwyr am yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar fywyd gwyllt, megis: "*Pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn gallu canolbwyntio'n bennaf ar fioamrywiaeth ac adfer natur, dyma fyddai fy mhrif reswm dros ei gefnogi."* Pwysleisiodd eraill hyn ymhellach, gan ddweud mai'r "*unig reswm dilys dros sefydlu Parc Cenedlaethol"* mewn gwirionedd fyddai "*os yw'n mynd ati'n weithredol ac yn ystyrlon i warchod a gwella bywyd gwyllt ac yn mynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol".* Teimlai llawer y dylid rhoi tâl anogaeth i'r rheolwyr tir presennol, neu eu gadael i warchod a gwella bywyd gwyllt, gan ddweud: "*Dylid mynd i'r afael â gwarchod y dirwedd a bywyd gwyllt trwy gynllun ffermio cynaliadwy hael i ffermwyr sy'n ystyriol o natur."* Pwysleisiwyd y ffaith ei bod yn *"hanfodol cynnwys ffermwyr mewn gwaith tuag at wella cynaliadwyedd a bioamrywiaeth gan mai nhw yw ceidwaid y tir"*. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y byddai Parc Cenedlaethol yn amddiffyn yr ardal, gyda rhai yn dweud bod "*astudiaethau'n dangos nad yw ardaloedd gwarchodedig bob amser yn amddiffyn bywyd gwyllt a ffawna – yn wir, y gwrthwyneb sy'n wir"*. Teimlai eraill, fodd bynnag, fod y "*Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cynnig gobaith ar gyfer gwella ac adfer natur, ac atafaelu carbon ar raddfa fawr – yn enwedig os gellir gwneud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy weithio*".

- **AMAETHYDDIAETH**

Pwysleisiodd y mwyafrif fod "*gweithgarwch economaidd yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn bennaf*" o fewn yr ardal ymgeisiol ac, felly, codwyd pryderon am effaith twristiaeth ar y sector amaethyddol, gan gyffwrdd â materion fel "*parcio mewn mannau pasio / o flaen giât y ffermwr / ar ddreifiau preifat pobl; gadael gatiau ar agor; cadw cŵn oddi ar dennyn; poeni da byw; taflu sbwriel yn yr ardal (gan bobl ac o anifeiliaid); ymddygiad digywilydd a difrïol yn aml*". Roedd eraill yn teimlo mai ffermwyr a thirfeddianwyr eisoes yw ceidwaid y tir a'r rhai sydd wedi ei lywio i'r pwynt lle credir bod ganddo harddwch naturiol eithriadol, ac felly byddai'n well gadael "*i'r ffermwyr geisio bwrw ymlaen â'r gwaith o'n bwydo ni*". Dywedodd yr ymatebwyr: "*Nid oes angen hyn arnom", "Mae'r ardal yn berffaith fel y mae",* ac ni fydd bod yn Barc Cenedlaethol "*yn gwella pethau i'r bobl sy'n byw yma*". Codwyd mân bryderon hefyd am y gwrthdaro rhwng amaethyddiaeth a'r amgylchedd, gyda sylwadau fel "*ni fydd hyrwyddo arferion amaethyddol presennol yn helpu bywyd gwyllt a chynaliadwyedd amgylcheddol* ".

Roedd safbwyntiau'r gymuned ffermio dan sylw ar ddwy ochr y ddadl dros Barc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Roedd rhai yn gadarnhaol: "*Fel preswylydd ers pedair blynedd ac yn ffermwr newydd yn yr ardal, rwy'n llawn cyffro am y posibilrwydd o Barc Cenedlaethol*." Roedd eraill yn negyddol: "*Gadewch lonydd i'n cefn gwlad!*".

- **RHEOLI TIR**

Y prif agwedd yr ymatebwyd iddi oedd pwy yn y gorffennol fu'n gofalu am y tir, a phwy sy'n gwneud hynny nawr. Roedd llawer yn teimlo bod rheolwyr tir (yn enwedig ffermwyr) yr ardal hyd yma wedi creu tirwedd hardd ac felly "*dylid gadael i'r ffermwyr barhau â'r hyn y maent yn ei wneud ac wedi bod yn ei wneud ers blynyddoedd lawer"*. Roedd rhai yn cwestiynu: "*Beth yw pwrpas cefn gwlad?"* a *"Beth yw ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer ffermio a'r amgylchedd?".* Aeth llawer o rai eraill

ymlaen i ddweud: *"Yr hyn sydd ei angen arnom yw dull cenedlaethol o reoli cefn gwlad orau."* Roedd hon yn farn a oedd yn cael ei hailadrodd yn aml, ynghyd â rhoi cymorth a chefnogaeth i'r gymuned rheoli tir i gydbwyso byd natur ag amaethyddiaeth. Er enghraifft: "*Mae'n bosib ffermio'r dirwedd yn dda, a sicrhau ei bod o fudd i natur ar yr un pryd, gyda'r gefnogaeth briodol."* Mynegwyd gwrthdaro blaenoriaethau rhwng byd natur a ffermio dro ar ôl tro, gyda sylwadau fel "*Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng natur a hinsawdd. Mae'r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cynnig gobaith ar gyfer gwella ac adfer natur ac atafaelu carbon ar raddfa fawr – yn enwedig os gellir gwneud i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy weithio."*

- **YR AMGYLCHEDD**

Y prif sylw a wnaed oedd mai gwarchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r Parc Cenedlaethol newydd. Codwyd cwestiynau am yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar yr amgylchedd gyda chynnydd mewn twristiaeth. Mynegwyd pryderon am effeithiau seilwaith a mynediad i'r tir ar gynefinoedd a rhywogaethau. Soniwyd fel hyn am Ddyffryn Ceiriog: *"Mae'r amgylchedd a bywyd gwyllt yn ffynnu yma ond byddai cynnydd mewn ymwelwyr yn bygwth hynny."* Teimlai ymatebwyr eto fod y bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a'r amgylchedd eisoes yn cael eu "*rheoli'n gymharol dda gydag ychydig eithriadau*", a mynegwyd pryderon y gallai creu Parc Cenedlaethol "*greu anghydbwysedd*" ac y byddai "*yn debygol o achosi mwy o ddifrod*". Roedd mwyafrif yr ymatebion yn ymwneud â'r amgylchedd yn gadarnhaol, gan fynegi gobaith y byddai dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn gwella ac yn adfer byd natur.

- **CYNALIADWYEDD**

Roedd ymatebion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn gyffredinol wedi'u hanelu at reoli tir yn gynaliadwy. Soniwyd bod hyn yn flaenoriaeth, yn allweddol i'r dyfodol, ac y dylai fod yn un o'r pethau y dylai Parc Cenedlaethol newydd ei gefnogi. Roedd llawer yn credu mai "*nawr yw'r amser i weithredu i roi i natur – yr union beth sy'n ein cynnal – yr holl gymorth y gallwn ei roi iddi*". Roedd eraill yn pryderu am gynnydd posibl mewn twristiaeth, na fyddai'n gynaliadwy i'r ardal yn eu barn nhw, oni bai ei bod yn cael ei rheoli'n dda. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at gynaliadwyedd cymunedau lleol a'r economi leol, gan deimlo y gallai Parc Cenedlaethol effeithio (rhai'n dweud yn gadarnhaol a rhai'n dweud yn negyddol) ar gymunedau o fewn yr ardal ac yn agos iddi. Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith hon: "*Rhaid mynd ati bob amser mewn modd sy'n sicrhau cynaliadwyedd cymunedau lleol a'r economi leol."* Ymhelaethodd rhai ar hyn: "*Gall dynodiad Parc Cenedlaethol gefnogi economïau gwledig cynaliadwy trwy hyrwyddo cynhyrchion a busnesau lleol."* Dywedwyd hefyd fod rhaid cael trafnidiaeth gynaliadwy, a hynny, er enghraifft, *"oherwydd pwysigrwydd creu Parc Cenedlaethol sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl"*.

## RHEOLI TWRISTIAETH, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A SEILWAITH

Gwnaeth 145 (bron i 26.2%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar y thema 'Rheoli twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith'. Cododd y rhan fwyaf o ymatebwyr bryderon am seilwaith fel ffyrdd lleol a thraffig, parcio, biniau a sbwriel, ac erydiad llwybrau. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau hefyd ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau brys, gwybodaeth i ymwelwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a chynllunio. Roedd y sylwadau'n ymwneud â thwristiaeth yn cynnwys nifer yr ymwelwyr, ymddygiadau a'r effaith ar yr economi leol.

- **FFYRDD LLEOL A THRAFNIDIAETH**

Roedd bron pob un o'r sylwadau am ffyrdd lleol a maint y traffig yn negyddol. Roedd pryderon a godwyd yn ymwneud â chyflwr presennol y ffyrdd lleol a'r effaith y gallai cynnydd posibl mewn traffig ei chael arnynt; maint y ffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd; gallu ymwelwyr i ymdopi â ffyrdd bach,

yn aml ag un lôn yn unig; a'r effaith bosibl ar bobl leol wrth iddynt geisio bwrw ymlaen â'u bywyd bob dydd os gwelir cynnydd mewn traffig. Roedd llawer yn teimlo bod "*y ffyrdd yn yr ardal hon yn gul ac yn llawn tagfeydd yn yr haf eisoes heb ychwanegu mwy o draffig atyn nhw!"* ac roeddent yn bryderus ynghylch "*sut y gellir rheoli traffig yn Llanrhaeadr / Llyn Efyrnwy gan ein bod yn gweld eisoes ei bod hi'n anhrefn lwyr yn yr ardal ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau, sy'n gallu achosi tagfeydd, ac mae hynny heb ei bod mewn Parc Cenedlaethol"*.

- **PARCIO**

Codwyd pryderon ynghylch y diffyg parcio o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, a pha effaith y mae parcio anghyfreithlon yn ei chael ar y gymuned leol, yn ogystal â thwristiaid eraill. Holodd ymatebwyr sut y gellid rheoli a darparu ar gyfer cynnydd mewn anghenion parcio. Codwyd y mater hwn am barcio yn yr ardaloedd gwledig – lle nad oes bron dim parcio dynodedig ar hyn o bryd, sy'n arwain at barcio gwrthgymdeithasol neu anghyfreithlon – ac yn yr ardaloedd trefol, gan fod pentrefi a threfi o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr "*nad oes lle yn y pentref am fwy o barcio"*. Cododd eraill faterion diogelwch mewn perthynas â pharcio, er enghraifft: "*Mae mannau parcio yn Llanrhaeadr yn brin iawn, sy'n fater diogelwch, ac mae'r ffordd i Bistyll Rhaeadr eisoes yn fater diogelwch gan ei bod yn ffordd unffrwd, gydag ambiwlansys eisoes yn ei chael hi'n anodd cyrraedd cleifion"*.

- **SBWRIEL**

Soniodd ymatebwyr am sbwriel o bob math, o wastraff cyffredinol, i wastraff cŵn, i ddiffyg toiledau cyhoeddus yn arwain at wastraff dynol yn cael ei adael yn yr ardal. Holodd ymatebwyr pwy fyddai'n ei glirio a pha niwed y gallai wneud i'r amgylchedd a bywyd gwyllt. Dywedodd rhai fod "*yr ardal gyfagos yn naturiol hardd, ond nid yw ymwelwyr i'w gweld bob amser yn ei gwerthfawrogi gan eu bod yn taflu sbwriel bwyd brys, clytiau wedi'u defnyddio, cynhyrchion tybaco ac ati allan o ffenestri eu ceir"*. Roedd pryderon y gallai hyd yn oed mwy o dwristiaeth olygu "*hyd yn oed mwy o sbwriel ac aflonyddu ar gynefinoedd naturiol"*. Teimlai rhai, pe bai'r ffin ddrafft arfaethedig yn dynodi Parc Cenedlaethol, byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn rheolaeth ymwelwyr, gan ddweud "*nad yw'r Parciau Cenedlaethol presennol yn cael eu hariannu'n ddigonol ar hyn o bryd ac maen nhw'n cael trafferth gyda gor-dwristiaeth, gydag effeithiau negyddol ar sbwriel ac erydiad tir".*

- **LLWYBRAU TROED A LLWYBRAU CEFFYLAU**

Soniodd ymatebwyr a gyfeiriodd at lwybrau troed a llwybrau ceffylau o fewn yr ardal am gyflwr presennol y llwybrau troed, eu hygyrchedd, eu cynnal a'u cadw, y giatiau a chamfeydd, yn ogystal â pha effaith y gallai cynnydd posibl mewn twristiaeth ei chael arnynt. Teimlai sawl un fod "*rhai o'r llwybrau troed yn y Gogledd mewn cyflwr ofnadwy, gyda rhai wedi'u rhwystro'n llwyr, a bydd angen ymrwymiad a chyllid ychwanegol yn y dyfodol"*. Dywedodd eraill fod llwybrau troed yn croesi caeau gyda da byw ynddynt, ac y gallai hyn gael effaith bosibl arnynt. Roedd rhai ymatebwyr yn obeithiol y gallai Parc Cenedlaethol fod yn beth da i'r llwybrau yn yr ardal, gan deimlo y byddent yn cael eu gwella a'u defnyddio'n amlach. Roedd rhai o'r farn y byddai creu Parc Cenedlaethol newydd yn "*annog mwy o bobl i ddefnyddio a gwerthfawrogi ein hawyr agored gwych"*, a fyddai'n *"gwella eu hiechyd ac yn gwella cyflwr llwybrau troed a llwybrau ceffylau"*. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen am hygyrchedd o fewn y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, a'r angen i "*ehangu'r llwybrau ceffylau a'r llwybrau eraill ledled Dyffryn Dyfrdwy, gan wneud llwybrau cwbl hygyrch i bawb"*.

- **Y GWASANAETHAU BRYS**

Cyfeiriodd ymatebwyr at waith achub mynydd, gan bwysleisio bod yr heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans eisoes wedi eu "*hymestyn i'r eithaf"*, a cwestiynwyd sut y gallent ymdopi â chynnydd

mewn twristiaeth. Roedd llawer yn pryderu ynghylch sut y gallai'r gwasanaethau brys deithio i ddigwyddiadau pe bai'r rhwydwaith ffyrdd yn mynd yn brysurach, gan fynegi bod rhai ardaloedd eisoes yn profi tagfeydd yn ystod cyfnodau gwyliau. Er enghraifft: "*ffyrdd un lôn yn unig yn llawn ceir, yn rhwystro mynediad i gerbydau brys"*. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai angen mwy o gyllid i helpu'r gwasanaethau brys. Roedd eraill yn pryderu am y diffyg ysbytai lleol yn yr ardal ddynodi bosibl a sut y byddai ysbytai lleol, gwasanaethau damweiniau ac achosion brys, timau achub mynydd a'r ambiwlans awyr yn ymdopi ag unrhyw gynnydd posibl yn y galw. Er enghraifft: "*Mae'r cynnydd mewn twristiaid yn debygol o arwain at gynnydd mewn anafiadau. Fodd bynnag, nid oes gennym gymorth timau achub mynydd, ac o ganlyniad bydd mwy o straen ar ein gwasanaethau brys, sydd eisoes dan bwysau."*

- **GWASANAETHAU YMWELWYR A CHYFLEUSTERAU CYHOEDDUS**

O ystyried bod rhai canolfannau mewn mannau eraill yng Nghymru yn colli gwasanaethau manwerthu ac arlwyo, codwyd pryderon ynghylch sut y byddai canolfannau ymwelwyr ar draws ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn cael eu hariannu, a beth arall y gellid ei wneud i ddiwallu'r angen am gynnydd mewn twristiaeth. Pwysleisiwyd mai "*cyllid sydd bwysicaf gan nad oes digon o arian i gadw canolfannau ymwelwyr ar agor fel ag y mae"*. Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu am y diffyg toiledau cyhoeddus yn ardal bosibl y Parc Cenedlaethol, gan ddweud bod "*y cynghorau priodol i bob pwrpas yn fethdalwyr, ac yn cau cyfleusterau fel toiledau cyhoeddus"*. Roedd eraill yn pryderu am ymwelwyr gan fod "*y cyfleusterau toiled presennol eisoes yn annigonol a byddai twristiaeth ychwanegol yn gwneud hyn yn llawer gwaeth"*.

- **TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS**

Soniodd ymatebwyr am y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ac am y potensial am fwy o drafnidiaeth gyhoeddus pe bai'r galw'n cynyddu yn sgil twf mewn twristiaeth. Pwysleisiwyd yr angen i ddatblygu "*cludiant llesol"* ar draws yr ardal, gan arwain gobeithio at ostyngiad mewn ceir a gwell iechyd corfforol. Gwelwyd bod gwelliannau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a chludiant llesol yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymwelwyr a'r gymuned leol. Cyfeiriodd y rhan fwyaf at drafnidiaeth gynaliadwy wrth sôn am drafnidiaeth gyhoeddus, gan ddweud bod "*argaeledd trafnidiaeth gynaliadwy yn elfen allweddol sy'n effeithio ar sut mae pobl yn dod i'r ardal, ac ar bobl ifanc yn enwedig, sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar fysiau a threnau"*. Teimlai rhai hefyd y gallai trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy helpu i leihau unrhyw broblemau traffig posibl yn yr ardal.

- **CYNLLUNIO**

Nodwyd cynllunio fel thema allweddol sy'n "*rhedeg drwy hyn oll – beth sy'n bosibl, lle mae'n bosibl, a sut i sicrhau seilwaith priodol yn y lle cyntaf"*. Mynegwyd pryderon ynghylch sut y gallai'r broses gynllunio ddod yn fwy anodd yn sgil cyflwyno haen arall o fiwrocratiaeth. Teimlai rhai y gallai newid yn y broses gynllunio a chraffu ychwanegol rwystro busnesau fel ffermio rhag "*datblygu"* a "*symud gyda'r oes"*. Teimlai eraill y gallai newid yn yr awdurdod cynllunio fod yn "*beth da"* i'r ardal ac "*y byddai'n rhaid hefyd cryfhau cyfyngiadau cynllunio er mwyn atal dinistr ychwanegol i'r amgylchedd".* Ategwyd hyn gan sylwadau eraill, gan gynnwys "*mae angen proses cynllunio lymach i warchod yr ardal"*.

- **RHEOLI TWRISTIAETH**

Roedd rhai ymatebwyr yn gweld "*budd"* i'r ardal, y gymuned a'r economi leol, tra oedd eraill yn teimlo y gallai cynnydd mewn twristiaeth fod yn *"drychineb"*. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â chwestiynu a oes "digon o lety ar gael" o fewn yr ardal, i ba raddau y mae twristiaid yn cyfrannu at yr economi leol. I'r gwrthwyneb, roedd rhai'n pryderu am ormod o dwristiaid, "llethu busnesau

lleol", rheoli traffig a "goryrru", yn ogystal â chost rhoi gwasanaethau twristiaeth a mesurau rheoli yn eu lle. Roedd rhai manteision a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys cynnydd posibl yn yr economi leol o wariant twristiaid a chreu swyddi, i ymateb i unrhyw gynnydd yn y galw.

## CWESTIYNU'R ANGEN AM NEWID, RHEOLAETH A RHEOLAETHAU, COSTAU, CYLLID, BIWROCRATIAETH

Gwnaeth 145 (bron i 26.2%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar y thema 'Cwestiynu'r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, ariannu, biwrocratiaeth'. Cymharol ychydig o ymatebion a gafwyd yn ymwneud â'r angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, a biwrocratiaeth, o gymharu â nifer yr ymatebion yn ymwneud â chostau a chyllid.

- **YR ANGEN AM NEWID**

Edrychodd yr ymatebwyr ar wahanol fathau o newid, gan gynnwys ystyried sut y byddai Parc Cenedlaethol yn newid y rheolaethau a'r polisïau sydd eisoes yn eu lle gyda'r awdurdodau lleol, pa newidiadau mewn rheolaethau cynllunio y gellir eu cyflwyno, ac unrhyw effaith gan newidiadau i ddatblygu a ganiateir. Roedd ymatebwyr hefyd yn cwestiynu'r angen i newid system o reoli tir sydd wedi bod ar waith ers cenedlaethau, yn ogystal â'i bod yn rhan o'r natur ddynol i fod yn amheus o newid. Dywedodd rhai: "*Weithiau mae'n wir bod yn well gennym ni gadw pethau'n ddigyfnewid oherwydd ofn yr anhysbys. Gallai rhoi sicrwydd fod yn allweddol i hyn."* Gofynnodd llawer o ymatebwyr: "*Beth yw manteision cael hwn fel Parc Cenedlaethol?"*. Mae eraill yn derbyn bod newid yn digwydd a bod yn rhaid i'r boblogaeth weithio gydag ef, gan nodi bod "*newid yn rhan anochel o fywyd"* ac yn mynd ymlaen i ddweud "*yr unig ffordd i ennill ychydig o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd yw cymryd yr awenau a bod yn flaengar ac yn egnïol yn ei gylch"*. Roedd rhai yn mynegi pryder fel hyn: *"Nid yw'n wir bod y trigolion lleol ddim eisiau newid; nid ydynt yn cael cynnig y newid cywir!"*.

- **RHEOLAETH**

Soniodd ymatebwyr am reoli twristiaeth, rheoli tir, awdurdodau lleol, cynlluniau rheoli a rheoli cynaliadwyedd. Roedd rhai yn cwestiynu sut y byddid yn gweithredu rheolaeth, beth fyddai cost unrhyw reolaeth newydd, a pha gymorth y gellid ei ddisgwyl gan arddulliau a haenau rheoli newydd. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn negyddol, gyda rhai yn mynegi amheuaeth am haenau newydd o reolaeth ac eraill yn teimlo y gallai rheolaeth newydd ddod â chyfleoedd newydd. Er enghraifft, "*Pan gaiff ei ariannu a'i ddarparu'n dda, mae Parc Cenedlaethol yn gyfle i ddod â manteision lluosog a bywiogrwydd i bob sector o gymdeithas."* Roedd eraill yn pryderu am y diffyg eglurder ynghylch rheolaeth yn y dyfodol, gan ddweud: "*Rwy'n ofni am oblygiadau'r parc hwn a'r disgwyliadau am y newidiadau i sut mae'r teulu'n ffermio EU TIR EU HUNAIN*."

**RHEOLAETHAU**

Holodd ymatebwyr sut y gallai Parc Cenedlaethol effeithio ar reoli biwrocratiaeth, rheoli cynllunio a rheoli datblygiad, yn ogystal â pha fewnbwn y gallai'r boblogaeth leol ei gael dros reoli unrhyw ddynodiad newydd. Teimlai rhai mai "*Parc Cenedlaethol, gyda strategaeth gynllunio ac amgylcheddol ddatblygedig a mewnbwn rhanddeiliaid lleol wedi'i strwythuro'n briodol, yw'r ffordd ymlaen i warchod ein hardal unigryw a gwerthfawr"*. Teimlai eraill fod gan yr ardal reolaethau digonol eisoes, gan nodi fod *"yr ardal yn brydferth eisoes gyda digon o reolaethau gwarchod yn eu lle"*.

- **BIWROCRATIAETH**

Holodd ymatebwyr sut y gellid gweithredu biwrocratiaeth o fewn awdurdod newydd, pa ryngweithio fyddai rhwng awdurdod newydd a'r awdurdodau gwreiddiol, sut y byddai'r haen newydd hon o fiwrocratiaeth yn cael ei hariannu, a pha bwerau a allai fod ganddi. Roedd eraill yn cwestiynu a oedd angen haen arall o fiwrocratiaeth, er enghraifft: *"Mae ariannu haen arall o fiwrocratiaeth yn ddiangen."* Pwysleisiwyd y pryder am *"lefel ychwanegol o fiwrocratiaeth – mae angen llai nid mwy".* Mynegodd ymatebwyr bryder hefyd fod "*y fiwrocratiaeth a amlinellwyd yn y dogfennau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn aruthrol"*.

- **COSTAU A CHYLLID**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cwestiynu sut y gellid fforddio'r Parc Cenedlaethol newydd pan fo Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eisoes yn wynebu argyfwng ariannu. Cyfeiriodd eraill at y toriadau cyllid niferus eisoes gan y llywodraeth ac CNC. Gofynnodd rhai o ble y daw'r arian i dalu'r costau a pha effaith y gallai'r costau hynny ei chael ar wasanaethau eraill, neu Barciau Cenedlaethol eraill. Codwyd pryderon bod y wlad eisoes mewn "*argyfwng costau byw"*, a chwestiynwyd a fyddai hyn yn arwain at "*godi trethi i dalu'r costau"*. Gofynnwyd hefyd pa ganlyniad y gallai gwario arian ar y prosiect hwn ei gael ar wariant ar brosiectau neu wasanaethau eraill – er enghraifft: *"Bydd yn costio ffortiwn y gellid ei wario'n well yn rhywle arall, a does ganddo ddim byd cadarnhaol i unrhyw un ohonom, y gallaf i ei weld."* Er y byddai angen cyllid sylweddol i sefydlu a chynnal Parc Cenedlaethol newydd yn ôl eraill, roeddent yn cwestiynu a fyddai unrhyw incwm parhaus i'r parc: *"Bydd yn costio miliynau i'w drefnu a miliynau i'w reoli ac ni fydd yn cynhyrchu unrhyw fath o incwm."* Er hynny, mynegwyd y farn i'r gwrthwyneb gan y rhai a deimlai y gallai Parc Cenedlaethol roi hwb i'r economi leol. Teimlai rhai y byddai *"hwb i'r economi leol a phwyslais ar lesiant ein holl bobl ni, waeth beth fo'u hil, eu dosbarth na'u cefndir"*.

## POBL A CHYMUNEDAU LLEOL, YR ECONOMI LEOL

Gwnaeth 107 (bron i 19.4%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar bobl leol, cymunedau a'r economi leol. Roedd y sylwadau'n cynnwys syniadau am sut y gallai Parc Cenedlaethol effeithio ar bobl ifanc, tai a swyddi, busnesau lleol yn ymwneud â ffermio a thwristiaeth. Hefyd sut y gallai newid yr economi twristiaeth a sut y gall yr economi leol ddatblygu, gyda a heb yr 'economi werdd' a datblygiadau 'gwyrdd' mawr, ac a fyddai hyn efallai'n arwain at unrhyw gyfleoedd swyddi â chyflogau uchel / sgiliau uchel.

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR GYMUNEDAU LLEOL**

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon dybryd ynghylch beth fyddai'n gyfystyr â *"dinistrio cymunedau lleol gweithredol, llonyddwch yr amgylchedd ac amrywiaeth bywyd gwyllt gan or-dwristiaeth"*. Mynegwyd pryderon hefyd y *"bydd bywyd yn fwy heriol o ystyried ymwelwyr ychwanegol a traffig ar y ffyrdd"*. Roedd rhai'n teimlo'n gadarnhaol am effaith Parc Cenedlaethol newydd ar gymunedau lleol, gan mai *"dyma'r ffordd orau o ddiogelu cymeriad yr ardal a'i warchod er lles pobl leol a'r gymuned ehangach"*. Mynegodd ymatebwyr ddymuniad i'r gymuned leol gael llais *"gweithredol"* a *"chryf"* yn y ffordd y caiff Parc Cenedlaethol ei redeg. Mynegwyd pryder y gallai fod *"diffyg penderfyniadau gan y gymuned leol unwaith y dyfernir statws Parc Cenedlaethol"*. Roedd eraill yn teimlo bod *"Parciau Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ac yn meithrin ymgysylltiad cymunedol*. *Gall hyn arwain at fwy o gyfranogiad cymunedol mewn ymdrechion cadwraeth a phrosiectau datblygu lleol."*

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR YR ECONOMI LEOL**

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar yr effaith ar yr economi leol. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio o sut y gallai twristiaeth effeithio ar yr economi leol; a allai prisiau tai newid yn dilyn dynodiad Parc Cenedlaethol a pha effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar yr economi; ac a allai Parc Cenedlaethol wthio'r cydbwysedd economaidd yn fwy tuag at dwristiaeth. Roedd rhai yn pryderu y gallai Parc Cenedlaethol gael effaith negyddol ar yr economi leol, tra bod eraill yn teimlo y byddai'n cael effaith gadarnhaol. Teimlai rhai ei fod yn *"syniad gwych"* a fyddai'n *"hybu economïau a busnesau lleol a chyfleoedd gwaith i'r cymunedau lleol, y mae llawer ohonynt yn ddibynnol ar dwristiaeth"*. Dywedodd eraill o brofiad personol: *"Byddaf yn archebu gwyliau yn Eryri neu Sir Benfro dair gwaith y flwyddyn, sy'n helpu gyda chyflogaeth leol a'r economi wledig yn gyffredinol."*

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR BOBL IFANC**

Y brif effaith ar bobl ifanc yn ôl ymatebwyr fyddai'r effaith ar brisiau tai: sut y gallai Parc Cenedlaethol achosi i brisiau tai godi a thrwy hynny ei gwneud hi'n amhosib i bobl ifanc ymuno â'r farchnad dai yn eu cymuned leol. Teimlai ymatebwyr fod *"llawer o bobl ifanc leol eisoes wedi'u prisio allan o allu fforddio prynu yn yr ardal y cawson nhw eu magu ynddi"*, gyda llawer yn dweud eu bod *"yn dymuno aros a chyfrannu at yr economi leol"*. Roedd pryderon y *"gallai'r sefyllfa hon waethygu pe bai'n dod yn Barc Cenedlaethol"*. Y rhesymeg oedd bod *"prisiau tai yn dueddol o godi mewn Parciau Cenedlaethol"* ac y *"bydd tai hyd yn oed yn llai fforddiadwy i bobl ifanc".* Pe bai'r bobl ifanc yn symud i ffwrdd, mynegwyd pryder y gallai fod *"colled i 'dreftadaeth', heb sôn am golled gwerin a fagwyd i ddeall y tir a ffermio"*.

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR DAI**

Teimlai ymatebwyr na fyddai cynnydd mewn prisiau tai yn effeithio ar yr ifanc yn unig, ond yn hytrach ar bawb sy'n byw yn y dynodiad newydd posibl, yn ogystal â'r cylch o dir yn union o amgylch y Parc Cenedlaethol newydd posibl. O blith yr ymatebion a oedd yn cyfeirio at dai, ond nid at bobl ifanc, roedd y farn yn ymddangos yn gadarnhaol ac yn negyddol, gyda rhai ymatebwyr yn nodi y gallai cynnydd mewn prisiau tai gael effeithiau cadarnhaol ar gymunedau ac economïau lleol. Teimlai rhai y gellid lliniaru hyn gyda thai fforddiadwy, gan ddweud, er enghraifft: *"Mae angen tai lleol fforddiadwy ar bobl leol, felly dylid blaenoriaethu hyn."* Ychwanegwyd bod *"y rhan hon o'r cwm yn gadarnle i'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, a byddai ei thrigolion yn elwa'n aruthrol ar gyllido seilwaith twristiaeth ar lefel Parc Cenedlaethol, cefnogaeth i sgiliau gwledig a mwy o dai fforddiadwy"*.

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR FUSNESAU FFERMIO**

Roedd busnesau ffermio yn bryderus ynghylch newidiadau posibl i gyfyngiadau yn y fframwaith cynllunio o fewn unrhyw Barc Cenedlaethol newydd, gan nodi bod y *"profiad mewn Parciau Cenedlaethol eraill (fel Ardal y Copaon) yn dangos nad yw ffermwyr yn gallu buddsoddi mewn seilwaith ffermio modern"*. Galwodd eraill am ddiogelu busnesau ffermio o fewn unrhyw ddynodiad newydd: *"Dylid amddiffyn ffermwyr a busnesau fel ei gilydd."* Roedd ymatebwyr hefyd yn bryderus y gallai llawer o bobl sy'n brofiadol o ran ffermio a bywyd cefn gwlad symud i ffwrdd o'r ardal. Teimlai eraill y gallai Parc Cenedlaethol arwain at newidiadau i arferion ffermio – i rai adfywiol neu rai sy'n ystyriol o fywyd gwyllt fel y canlynol: *"Prosiectau ar raddfa fawr fel rheoli ucheldiroedd i leihau effaith llifogydd ar gymunedau i lawr yr afon, a gweithio gyda rheolwyr tir i annog ffermio sy'n ystyriol o fywyd gwyllt."*

- **EFFAITH PARC CENEDLAETHOL AR FUSNESAU TWRISTIAETH**

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau cadarnhaol a negyddol ar effaith bosibl Parc Cenedlaethol ar fusnesau twristiaeth. Teimlai ymatebwyr y gallai Parc Cenedlaethol roi hwb i fusnesau twristiaeth,

ynghyd â chynnydd posibl dilynol yn yr economi twristiaeth a swyddi twristiaeth / lletygarwch yn yr ardal. Teimlai rhai ei fod yn *"syniad gwych"* ac y gallai Parc Cenedlaethol newydd *"roi hwb i economïau a busnesau lleol a chyfleoedd gwaith i'r cymunedau lleol, y mae llawer ohonynt yn dibynnu ar dwristiaeth"*. Teimlai eraill na fyddai unrhyw hwb i'r economi twristiaeth, gan y byddai'r rhan fwyaf o dwristiaid yn *"deithwyr am y dydd"* a fyddai *"wedi paratoi"* ac wedi *"dod â'u bwyd eu hunain gyda nhw"*, ac *"na fydden nhw'n gwario llawer, os o gwbl, o fewn yr economi leol"*.

- **DATBLYGIADAU 'GWYRDD' / YR ECONOMI WERDD**

Roedd yr ymatebion am ddatblygiadau 'gwyrdd' yn gymysg. Roedd rhai o blaid datblygiadau gwyrdd, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr ardal yn *"addas iawn"* i "*ddatblygu cynhyrchu a storio ynni gwyrdd"*, a mynegwyd bod *"angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar wella swyddi yn yr economïau gwyrdd a thechnoleg newydd"*. Teimlai eraill y byddai datblygiad o'r math hwn yn *"difetha'r"* amgylchedd ac, felly, roeddent yn gwrthwynebu'r mathau hyn o ddatblygiadau, gan ddweud y byddai Parc Cenedlaethol yn *"cyfyngu ar ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy"*. O'r rhain, roedd sawl un *"yn fras o blaid gwarchod y tir (ond nid ar unrhyw gost)"*.

- **CYNALIADWYEDD CYMDEITHASOL A GWYDNWCH**

Soniodd yr ymatebwyr am gynaliadwyedd a gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn ogystal â gwydnwch cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf a soniodd am hyn yn sôn am gynaliadwyedd, gyda chyfran fechan yn sôn am wydnwch. Teimlai llawer yr hoffent weld Parc Cenedlaethol posibl yn cael ei ddatblygu i wella cynaliadwyedd, gan ddweud: *"Rhaid ymdrin ag ef bob amser mewn ffordd sy'n sicrhau cynaliadwyedd cymunedau lleol a'r economi leol."* Teimlai'r ymatebwyr y gallai Parc Cenedlaethol helpu cymunedau i ddod yn wydn ac i barhau'n wydn, yn economaidd ac yn gymdeithasol, gan eu gwneud yn fwy abl i wrthsefyll y newidiadau y gallai dynodiad o'r fath arwain atynt dros amser. Teimlai rhai hefyd na ddylai'r economi leol ddod yn ddibynnol ar un prif sector ac y dylid *"adeiladu gwerth uwch i'r economi leol, h.y. ddim yn dibynnu ar fusnesau a swyddi twristiaeth tymhorol, â sgiliau isel a chyflogau is"*. Teimlai eraill y gall Parc Cenedlaethol *"gefnogi economïau gwledig cynaliadwy trwy hyrwyddo cynhyrchion a busnesau lleol"*. Nododd ymatebwyr hefyd effaith ar fusnesau amaethyddol: *"Gall ffermwyr elwa ar gyfleoedd ariannu ac arallgyfeirio megis trosglwyddo i arferion organig neu groesawu ymwelwyr i aros ar eu fferm."*

## GWARCHOD Y DIRWEDD, CYDNABYDDIAETH I'R ARDAL, A LLONYDDWCH

Soniodd 80 (bron i 14.5%) o'r 553 o ymatebwyr am 'warchod y dirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, a llonyddwch'. Roedd is-themâu yn ymwneud â'r pwnc hwn yn cynnwys effaith cynllunio a datblygu ar gadwraeth tirwedd, effaith twristiaeth, harddwch y dirwedd, parhad y dirwedd, ac ymdeimlad o le. Hefyd, cwestiynu ac adnabod pwy sydd wedi bod yn gofalu am y dirwedd i ddod ag ef i'w gyflwr presennol a phwy fydd yn gofalu amdani yn y dyfodol. Cyfeiriad hefyd at dirwedd heb ei difetha, iechyd a lles, amddiffyn yr ardaloedd tawel a phryderon am awyr dywyll.

- **TIRWEDD A CHADWRAETH**

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion am y thema hon yn cynnwys sylwadau penodol am warchod y dirwedd. Edrychodd yr ymatebwyr nid yn unig ar gysyniad gwarchod y dirwedd ond hefyd ei fanteision a'i anfanteision, a pha effaith y gallai gwarchod y dirwedd ei chael ai peidio. Roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol ac yn tynnu sylw at y ffaith bod *"yr ardal yn brydferth"* a bod *"ganddi dirweddau rhyfeddol fel mynyddoedd y Berwyn sydd angen mwy o warchodaeth yn ogystal â gwell*

*opsiynau i bobl eu mwynhau"*. Nid oedd rhai sylwadau o blaid nac yn erbyn y cysyniad o warchod y dirwedd, ond cododd rhai bryderon megis: *"Mae dynodi'r rhan fwyaf o Gymru i atal datblygiad a thwf economïau yn groes i ddiben craidd CNC o gefnogi pobl a thirweddau ac ecoleg."* Nid oedd unrhyw sylwadau a oedd yn benodol yn erbyn gwarchod y dirwedd.

- **EFFAITH TWRISTIAETH AR WARCHOD Y DIRWEDD**

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar effaith twristiaeth ar warchod y dirwedd, gan godi pryderon am yr effaith y gallai twristiaeth ei chael ar yr ardal. Er enghraifft, roedd pryderon am *"ddatblygu'r hyn y gellid ei alw'n barc thema ar gyfer twristiaeth"* a allai *"ddinistrio'r union amgylchedd sydd i'w warchod yn ôl pob tebyg"*. Teimlai eraill y gallai effaith twristiaeth fod yn gadarnhaol ar warchod y dirwedd gan fod y dirwedd yn *"rheswm mawr pam fod twristiaid yn ymweld â'r ardal"* ac y *"gellir ei gwerthfawrogi trwy ddilyn nifer o lwybrau megis Llwybr Melangell a Llwybr Ann Griffiths"*. Teimlai ymatebwyr hefyd y gallai'r *"galw am dwristiaeth yn bendant ddod ag angen a galw am fwy o oleuadau yn ei sgil"*, a allai gael *"effaith enfawr ar fioamrywiaeth yr ardal"*.

- **EFFAITH CYNLLUNIO AR WARCHOD Y DIRWEDD**

Mae cynllunio yn is-thema gyffredin yn llawer o'r atebion a roddir i'r cwestiwn hwn. Holodd ymatebwyr beth sy'n bosibl, lle mae'n bosibl, a sut y bydd llywodraethu unrhyw Barc Cenedlaethol newydd yn ymdrin â'r materion cynllunio. Codwyd pryderon am *"ddiffyg tryloywder"* ac *"eglurder"* am *"fwriadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â llywodraethu, gan gynnwys cynllunio"*. Codwyd pryderon hefyd am *"gynnydd mewn biwrocratiaeth"* posib a fyddai'n digwydd oherwydd *"haen arall o lywodraethu"*. I'r gwrthwyneb, teimlai eraill y dylid cael *"mwy o orfodi rheolaeth gynllunio yn yr ardal brydferth hon"*.

- **EFFAITH DATBLYGIADAU AR WARCHOD Y DIRWEDD**

Soniodd ymatebwyr am 'effaith datblygiadau ar y dirwedd a sut y'i gwarchodir'. Cyfeiriodd rhai at gynllunio a'r hawliau datblygu a ganiateir, ac eraill at eu pryderon am ddatblygiadau parhaus megis y *"datblygiad gweledol ymwthiol sy'n digwydd ar ochr y bryn sydd i'w weld o'r fynedfa i Lanfyllin o'r dwyrain"*. Mynegodd eraill bryder cryf am ddatblygiadau ar raddfa fawr, gan nodi: *"Dylai'r ardal hon gael ei diogelu rhag datblygiadau masnachol ar raddfa fawr" ac* "*Mae angen gwarchod natur unigryw'r Parc Cenedlaethol arfaethedig a dylai datblygiad cyfyngedig annog cynaliadwyedd y rhanbarth wrth leihau difrod amgylcheddol."*

- **EFFEITHIAU IECHYD A LLESIANT GWARCHOD Y DIRWEDD**

Gwnaed sylwadau ar 'effeithiau iechyd a llesiant' bod yn y dirwedd a helpu i'w gwarchod, neu hyd yn oed gweld hynny'n unig. Pwysleisiodd llawer fod *"llesiant meddwl"* yn *"bryder mawr i'r rhan fwyaf o bobl"*. Roedd rhai'n sôn am brofiadau personol a sut bod *"cymaint o rinweddau iachaol i gerdded y tirweddau hardd o amgylch Cymru".*

- **GWARCHOD Y DIRWEDD I GENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Soniodd yr ymatebwyr am 'warchod y dirwedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Soniodd llawer am *"lonyddwch"* ardal sydd *"heb ei difetha"*, gan bwysleisio pwysigrwydd ei *"chadw felly ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol"*. Teimlai rhai y byddai Parc Cenedlaethol newydd yn helpu i warchod yr ardal ar gyfer y dyfodol, gan sôn am anfanteision lleiniau glas, yr angen am *"ddull gwahanol o warchod y tir"* a theimlad cadarnhaol a gobaith y bydd *"creu Parciau Cenedlaethol newydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i warchod tirweddau gwylltach i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau"*. Fodd bynnag, cododd eraill bryderon ynghylch yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol newydd ei chael ar gymunedau lleol drwy *"roi straen ychwanegol ar berchnogion tir a thai lleol"*, *"yn emosiynol"* ac *"yn feddyliol"*, a'u harwain i *"dreulio llawer iawn o amser yn poeni am eu dyfodol*

*tra'u bod eisoes yn gwneud eu gorau glas i warchod y dirwedd werthfawr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol"*.

- **GWARCHOD A RHEOLI TIR YN Y DYFODOL**

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar 'warchod a rheoli tir yn y dyfodol'. Mynegodd rhai yr hyn y teimlent oedd yn *"rhan annatod o'r cynllun rheoli"*, a oedd yn cynnwys *"adfer natur", "storio carbon"* a *"lliniaru llifogydd"*. Mae rhai ffermwyr yn credu'n gadarnhaol y *"bydd statws y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r symudiad tuag at reoli tir yn fwy cynaliadwy"* i ffermwyr yn yr ardal. Mynegodd eraill bryderon ynghylch y gwrthdaro posibl rhwng rheoli tir a chadwraeth, gan ddweud: *"Mae rheoli tir ei hun yn golygu gosod amcanion, a gallai rhai ohonynt wrthdaro."*

- **CYDNABOD YR ARDAL**

Er bod 'cydnabyddiaeth o'r ardal' wedi'i nodi fel thema fawr yn yr ymgysylltu diwethaf â'r cyhoedd, y tro hwn dim ond ychydig o ymatebwyr a roddodd sylwadau arni. Mynegodd rhai ddryswch ynghylch y term, wrth iddynt ofyn: *"Cydnabyddiaeth ardal? Beth yw honno?"*. Unwaith eto, fel y pwysleisiwyd yn flaenorol yn ymgysylltiad cyhoeddus 2023, roedd pwyslais ar *"gydnabod pwysigrwydd tirweddau heb eu difetha a mannau tawel i iechyd meddwl a llesiant trawstoriad eang o gymdeithas"* ac roedd y rhai a oedd yn byw yn Nyffryn Tanat yn benodol yn teimlo'n gryf yr hoffent *"weld harddwch naturiol yr ardal yn cael ei gydnabod a'i gynnal"*.

- **AMDDIFFYN YR ARDALOEDD TAWEL A HEDDYCHLON**

Roedd ymatebwyr yn cydnabod heddwch a llonyddwch yr ardal, gan bwysleisio sut *"mae cadw'r ardal fel lle o harddwch naturiol a llonyddwch yn hanfodol"*, gan fynd ymlaen i amlinellu eu barn ar y bygythiadau i'r heddwch a'r llonyddwch: *"Mae dan fygythiad gan ddatblygiad eang ffermydd gwynt a'r seilwaith cysylltiedig."* Roedd eraill yn pryderu am yr effaith y gallai cynnydd mewn twristiaeth ei chael ar yr ardaloedd heddychlon hyn, gan bwysleisio *"y bydd yr holl ymwelwyr ychwanegol yn effeithio ar ein preifatrwydd a'n llonyddwch"* a bod *"angen seilwaith ar dwristiaeth ychwanegol, sy'n effeithio ar dawelwch"*.

## MATERION YN YMWNEUD Â MYNEDIAD A HAMDDEN AWYR AGORED

Gwnaeth 66 (bron i 12%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar 'faterion mynediad a hamdden awyr agored'. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â mynediad yn cwmpasu ystod eang o gategorïau, o fynediad i ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol mewn ceir, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy deithio'n llesol; ffyrdd o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig; parcio ar ôl cyrraedd yno; a llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Rhoddwyd ychydig o sylw i hamdden awyr agored mewn ateb i'r cwestiwn hwn, ond nid yn fanwl.

- **MYNEDIAD I FFIN DDRAFFT ARFAETHEDIG Y PARC CENEDLAETHOL**

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar y cysylltiadau trafnidiaeth sy'n arwain at ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud â phriffyrdd, gan gynnwys yr A55, yr A5 a'r A483. Mynegwyd pryderon ynghylch lefelau arferol y traffig y mae'r ffyrdd hyn yn ei gludo a sut mae tagfeydd arnynt yn aml. Pwysleisiodd rhai eu hanesmwythder am y ffaith na allai'r priffyrdd hyn o bosib ymdopi pe bai mwy o draffig arnynt. Roedd y sylwadau'n cynnwys: *"Mae bellach gorddefnydd difrifol gan draffig trwm o'r ffordd ddienw sy'n ffurfio llawer o'r ffin ger fy eiddo."*

- **FFYRDD O FEWN FFIN DDRAFFT ARFAETHEDIG Y PARC CENEDLAETHOL**

Teimlai ymatebwyr fod y ffyrdd lleol o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol *“yn aml yn gul”* ac nad oeddent yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda, ac felly *“byddai angen eu huwchraddio os oedd hwn yn Barc Cenedlaethol”*. Roedd rhai hyd yn oed yn awgrymu adeiladu ffyrdd newydd yn benodol ar gyfer mynediad i’r Parc Cenedlaethol newydd. Er enghraifft, roedd rhai yn cynnig adeiladu *“ffordd newydd o Lanrhaeadr-ym-Mochnant sy’n osgoi’r holl ffyrdd bach / tai fel bod ffordd ddigon llydan i fynd â’r holl ymwelwyr i faes parcio Pistyll Rhaeadr”*. Dywedodd llawer y *“gall hi gymryd dwy awr weithiau (gyda phobl yn gadael eu ceir) felly mae angen mynd i’r afael â hyn er mwyn y bobl leol”*.

- **MEYSYDD PARCIO O FEWN FFIN DDRAFFT ARFAETHEDIG Y PARC CENEDLAETHOL**

Gofynnodd ymatebwyr faint o leoedd fyddai i barcio ceir o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Roedd rhai’n tynnu sylw at y ffaith fod *“parcio ceir yn broblem yn Llandegla oherwydd ar hyn o bryd mae cerddwyr yn parcio ar y ffordd ac yn rhwystro mynediad i’r bws droi rownd ac mae hyn yn dod yn dipyn o broblem”*. Roedd pryderon y byddai’r problemau hyn yn debygol o waethygu pe bai mwy o dwristiaid yn cael eu denu i’r ardal, os yw hyn yn digwydd eisoes.

- **LLWYBRAU TROED A LLWYBRAU CEFFYLAU O FEWN FFIN DDRAFFT ARFAETHEDIG Y PARC CENEDLAETHOL**

Roedd ymatebwyr yn pryderu am gyflwr a nifer y llwybrau troed a’r llwybrau ceffylau o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Roedd pryderon am y ffaith nad yw pobl yn aml yn cadw at y llwybrau troed, ond yn hytrach yn cerdded dros dir fferm, sy’n achosi *“difrod”* a *“tharfu”*. Mynegwyd pryderon am arwyddion, camfeydd a gatiau llwybrau troed a llwybrau ceffylau, ac mae’n debygol y byddai angen gwella hyn pe bai’r ardal yn cael ei dynodi’n Barc Cenedlaethol. Pwysleisiodd eraill effeithiau iechyd a llesiant bod yn yr awyr agored a theimlent y gallai Parc Cenedlaethol wella hyn drwy annog *“mwy o bobl i ddefnyddio a gwerthfawrogi ein hawyr agored gwych”*, a fyddai’n *“gwella eu hiechyd”* ac yn *“gwella cyflwr llwybrau troed a llwybrau ceffylau”*. Teimlai eraill y byddai’r rhwydwaith llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn cael ei wella i’w wneud yn fwy hygyrch i bawb, gan nodi bod *“daearyddiaeth ac amgylchedd adeiledig Dyffryn Dyfrdwy yn gyfle i ddatblygu ardal ryng-gysylltiedig o gyfleusterau hamdden â mynediad i’r anabl”*.

## DIWYLLIANT A THREFTADAETH

Soniodd 62 (11.2%) o’r 553 o ymatebwyr am ‘ddiwylliant a threftadaeth’. Roedd llawer yn ofni y byddai diwylliant a threftadaeth yn cael eu colli, tra oedd eraill yn teimlo y gallai Parc Cenedlaethol posibl fod yn gyfle i arddangos diwylliant a threftadaeth yr ardal. Nodwyd bod y Gymraeg a’r dreftadaeth ddiwydiannol ac adeiledig yn rhan annatod o ddiwylliant a threftadaeth yr ardal.

- **DIWYLLIANT**

Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd *“gwarchod tirwedd a diwylliant/treftadaeth”* ac roeddent yn teimlo y byddai Parc Cenedlaethol posibl yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar ddiwylliant lleol. Roedd pryderon am erydu posib o safbwynt yr iaith a diwylliant Cymraeg, gan y byddai *“annog ymwelwyr nad ydynt yn lleol yn cyflymu erydiad cymunedau Cymraeg eu hiaith”*. Teimlai eraill y gallai Parc Cenedlaethol helpu i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’i diwylliant drwy eu dwyn i sylw cynulleidfa ehangach. Byddai’n gwneud hyn trwy *“ariannu hawliau tramwy cyhoeddus a chofrestru ac uwchraddio ffyrdd hanesyddol i ganiatáu mynediad cynhwysol a rennir”*. Gallai arwyddion da a byrddau gwybodaeth priodol *“gynnwys gwybodaeth am ddiwylliant hanesyddol yr ardal a gwybodaeth am ddulliau cludiant traddodiadol o ffermydd a phentrefi i*

*aneddiadau mwy, gan gyfuno gwybodaeth am y Gymraeg".* Y farn gyffredinol oedd bod *"yr ardal ymgeisiol yn lle arbennig oherwydd ei thirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol a chymunedau lleol*".

- **TREFTADAETH**

Teimlai ymatebwyr y byddai Parc Cenedlaethol yn effeithio ar y dreftadaeth leol. Roedd y nodweddion treftadaeth y gwnaed sylwadau arnynt yn cynnwys treftadaeth adeiledig, a rhestrwyd llawer o adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol. Soniodd eraill am y chwareli a'r mwyngloddiau yn yr ardal. Roedd y dirwedd amaethyddol hefyd yn cael ei hystyried yn nodwedd dreftadaeth o'r ardal, yn tynnu sylw at y cenedlaethau o ffermwyr a thirfeddianwyr sydd wedi dod â'r dirwedd i'r cyflwr y mae nawr. Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o dreftadaeth yr ardal, yn ogystal â bod yn arwyddocaol yn ddiwylliannol. Cyfeiriodd rhai at yr archaeoleg, a'r angen am arweinydd mewn Parc Cenedlaethol posibl, gan ddweud: *"Archaeoleg – mae hyn yn amlwg yn rhan o dreftadaeth*. *Mae pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yn cadw archaeolegydd.*" Tynnwyd sylw at y ffaith y gall archaeolegydd ddarparu *"canolbwynt ar gyfer ardal dreftadaeth benodol, tra gall yr amgylchedd adeiledig hefyd elwa ar swyddog cadwraeth adeiledig penodol*".

## GOBLYGIADAU TAI

Gwnaeth 51 (9.2%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar 'oblygiadau tai' o fewn ardal Parc Cenedlaethol newydd posibl. Ymhlith y prif bynciau y gwnaed sylw arnynt oedd unrhyw gynnydd posibl mewn prisiau oherwydd dynodiad; fforddiadwyedd tai nawr ac yn y dyfodol; gallu pobl ifanc i gael eu troed ar yr ysgol dai pe bai unrhyw gynnydd yng ngwerth eiddo; ail gartrefi a chartrefi gwyliau; a'r effaith y gallai hyn ei chael ar gymunedau lleol. Doedd dim sylwadau ar unrhyw fanteision pe bai gwerth eiddo'n cynyddu.

- **GWERTH EIDDO CYN AC AR ÔL Y PARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG**

Roedd ymatebwyr yn poeni am yr effaith y gallai unrhyw ddynodiad posibl ei chael ar werthoedd eiddo, o fewn ac yn agos at ffiniau unrhyw Barc Cenedlaethol newydd. Gofynnodd rhai ymatebwyr am gynnal gwaith ymchwil i egluro hyn, gan awgrymu *"cynnal asesiad effaith o'r cynnydd tebygol mewn prisiau tai pe bai'r ardal yn dod yn Barc Cenedlaethol"*. Dyfynnodd eraill ymchwil flaenorol, gan nodi: *"Mae astudiaethau'n dangos bod prisiau eiddo o fewn Parciau Cenedlaethol yn cynyddu tua 22%."*Roedd eraill yn pryderu am eu gallu i brynu eiddo yn yr ardal, gyda rhai'n erfyn: *"Peidiwch â chreu'r Parc Cenedlaethol. Bydd yn cynyddu prisiau tai yn yr ardal, gan leihau'r tebygolrwydd y bydda i'n gallu prynu tŷ ger fy nghartref i."*

- **POBL IFANC A'R FARCHNAD DAI**

Mynegwyd pryderon am bobl ifanc yn ymuno â'r ysgol eiddo. Y prif bryder oedd cynnydd posibl yng ngwerth eiddo a allai rwystro pobl ifanc rhag bod yn rhan o'r farchnad eiddo. Mynegodd nifer fod *"pobl ifanc leol yn ei chael hi'n anodd prynu tai nawr gan fod prisiau tai eisoes yn uchel"* ac felly *"gyda Pharc Cenedlaethol byddai prisiau tai yn codi'n sylweddol"*. Roedd ffermwyr ifanc hefyd yn bryderus, gydag un yn dweud: *"Fel ffermwr ifanc, bydd yn rhaid i mi adael yr ardal i chwilio am dŷ gan y bydd prisiau tai'n codi i'r entrychion."*

- **AIL GARTREFI A CHARTREFI GWYLIAU**

Roedd pryderon y gallai rhan helaeth o'r stoc dai leol gael ei phrynu gan bobl o'r tu allan i'r ardal leol, ac y byddai'r tai yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi neu gartrefi gwyliau. Mynegwyd pryderon am yr effaith y gallai hyn ei chael ar y gymuned leol ac ar brisiau tai. Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am reoliadau llymach, gan ddweud yr hoffent *"weld cap ar dai sy'n cael eu defnyddio fel*

*Airbnb, gwely a brecwast, llety hunanddarpar ac ail gartrefi"*. Dywedodd rhai hyd yn oed *"fod angen ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun pobl sy'n symud yma i ymddeol, sy'n golygu rhagor o bwysau ar y stoc dai sydd gennyn ni*".

- **EFFAITH AR GYMUNEDAU LLEOL**

Teimlai ymatebwyr y byddai effaith ar gymunedau lleol o ran gwerth eiddo posibl pe bai'r ardal yn dod yn Barc Cenedlaethol. Roedd y sylwadau'n crybwyll problemau posibl yn ymwneud â chysylltiadau ffyrdd a thrafnidiaeth, tagfeydd a chyflwr y ffyrdd, parcio a phroblemau cysylltiedig, a diogelwch ar y ffordd a diogelwch cerddwyr. Roedd eraill yn poeni am gynnydd posibl ym mhrisiau tai, gan yrru pobl leol, hen ac ifanc, o'r ardal a allai fod yn ardal ddynodedig. Roeddent hefyd yn poeni am beidio â gallu camu ar yr ysgol eiddo yn y lle cyntaf, gan arwain pobl i adael yr ardal, er bod ymatebwyr yn cydnabod bod hyn eisoes yn wir mewn rhai sefyllfaoedd. Er enghraifft: *"Oherwydd y sefyllfa bresennol, nid oes gan ein plant a gafodd eu geni a'u magu yn yr ardal unrhyw obaith o brynu eiddo er mwyn aros yn yr ardal, a bydd hyn yn ei gwneud yn llawer, llawer gwaeth.*" Mynegwyd pryderon am yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar y Gymraeg yn y cymunedau lleol. Pe na bai aelodau o'r gymuned yn gallu fforddio prynu tai, neu fyw yn yr ardal, gallai siaradwyr Cymraeg gael eu colli o'r gymuned. Dywedodd ymatebwyr: *"Gan ei bod yn ardal mor agos at y ffin, a chyda phrisiau tai yn debygol o gynyddu oherwydd pa mor boblogaidd yw'r ardal, byddai hyn yn drychinebus i'r iaith.*"

## GOBLYGIADAU CYNLLUNIO

Gwnaeth 40 (7.2%) o'r 553 o ymatebwyr sylwadau ar 'oblygiadau cynllunio' Parc Cenedlaethol newydd. Teimlai llawer y gallai cynllunio gael effaith gadarnhaol ar yr ardal, gan reoli a llywio datblygiad. Mynegodd rhai *"yr angen i orfodi amodau cynllunio a chyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir yn well*" wrth gynorthwyo i warchod y dirwedd, a gwarchod y dreftadaeth naturiol ac adeiledig: *"Byddai'n rhaid cynyddu cyfyngiadau cynllunio hefyd i atal dinistr ychwanegol i'r amgylchedd.*" Teimlai llawer y gallai'r broses gynllunio ddod yn haws pe bai un awdurdod yn dod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau dros yr ardal newydd, gan nodi: *"Byddai croeso i awdurdod â phwerau priodol a chylch gorchwyl i warchod y dirwedd hon.*" Teimlai eraill y gallai cynllunio gael effaith negyddol ar yr ardal, gan gyflwyno rheolaethau cynllunio ychwanegol, *"cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir*", ychwanegu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth, costau ceisiadau cynyddol, a chynyddu amserlenni ar gyfer penderfyniadau. Roedd rhai'n cwestiynu *"O ble mae'r cyllid ar gyfer hyn yn dod?*", ac yn mynegi pryder y gallai o bosibl gynyddu eu baich treth – *"Yn sicr, ni alla i fforddio cynnydd yn y dreth gyngor i ariannu hyn*" – neu y gallai leihau coffrau'r cyngor drwy ddargyfeirio rhywfaint o'i incwm i dalu costau unrhyw awdurdod newydd. Roedd ymatebwyr yn cwestiynu'r effaith y gallai prosesau cynllunio newydd ei chael ar eu busnesau, gan fynegi pryderon y gallai effeithio'n andwyol ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Teimlai eraill y gallai awdurdod cynllunio newydd gael effaith gadarnhaol ar eu busnesau, gan gynorthwyo gyda datblygu ac arallgyfeirio. Mynegodd ymatebwyr mai un o oblygiadau cynllunio mawr Parc Cenedlaethol fyddai ei fod yn rhwystro, neu'n arafu, unrhyw ddatblygiad neu seilwaith mawr, a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac ecoleg. Cafwyd sylwadau cadarnhaol – *"Mae angen gwarchod ardal mor brydferth rhag datblygiad*" – a sylwadau negyddol hefyd: *"Bydd bod o fewn Parc Cenedlaethol yn fwy na thebyg yn gosod cyfyngiadau ar ddatblygu.*" Roedd rhai'n croesawu rheolaethau a phrosesau o'r fath, tra oedd eraill yn teimlo y byddai'n effeithio ar ddatblygiad yr ardal, ei heconomi leol a'i chymunedau.

## LLEOLIAD Y FFIN

Nodwyd ‘lleoliad y ffin’ fel un o’r prif themâu yn ystod y cyfnod ymgysylltu â’r cyhoedd yn 2023. Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, fe’i graddiwyd olaf, neu o bwysigrwydd llai na’r themâu eraill a nodwyd yn flaenorol. O’r 553 o ymatebion, dim ond 22 (ychydig llai na 4%) o’r ymatebwyr a gyfeiriodd at leoliad y ffin. Gallai hyn fod oherwydd bod yna cwestiynau ar wahân yn ymwneud â’r ffin yn ddiweddarach yn yr holiadur. O’r 22 a grybwyllodd y thema hon, gofynnodd rhai am ychwanegu rhagor o ardaloedd – er enghraifft, ar hyd dalgylchoedd afonydd ar ymylon y ffin ddrafft arfaethedig, gan gynnwys Clawdd Offa a rhannau uchaf Dyffryn Dyfrdwy, i enwi ond rhai. Gofynnodd eraill am lai, gyda rhai yn gofyn am gael gwared â’r ardal ym Mhowys, gan nodi *“na ddylai’r ffin fynd yn uwch na’r Wyddgrug / Rhuthun*”.

## YMATEBION ERAILL

Roedd 120 (27.7%) o 553 o ymatebion yn cynnwys gwybodaeth, neu deimladau, nad oeddent yn ymwneud â’r cwestiwn. Roedd rhai yn cynnwys awgrymiadau heb unrhyw esboniad – er enghraifft, *“diogelwch ar y ffyrdd*” oedd y cyfan a nododd un ymatebwr. Mynegodd eraill eu barn, heb wneud sylw ar unrhyw thema benodol: *“gadewch hi fel y mae ar hyn o bryd*”, *“peidiwch â gwastraffu rhagor o arian, arian y bobl*”. Roedd eraill yn gwrthwynebu datblygiadau yn gyfan gwbl – er enghraifft, dywedodd rhai: *“Rydw i yn erbyn Parc Ynni Mynydd Mawr.*” Dywedodd llawer o’r ymatebwyr ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng y themâu, gan nodi ei bod yn *“anodd dewis tri o’r rhestr uchod; mae llawer o faterion rhyng-gysylltiedig*”, ond nid oeddent wedi mynd ati i egluro eu rhesymu na’r rhyng-gysylltiadau. Fodd bynnag, er eu bod yn ddiffuant, nid oedd y mwyafrif o’r ymatebion yn mynd i’r afael â’r pwnc – er enghraifft, *“Os gwelwch yn dda, a fyddech cystal â diogelu’r ardal hardd hon, cyn iddi hefyd gael ei gorchuddio â choncrit a thyrbinau gwynt.*”

## Y BROSES

Gwnaeth 60 (21.7%) o 553 o ymatebwyr sylwadau ar y ‘broses’ sy’n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio o ofyn am adroddiadau eraill, i amlinellu pryderon y gallai fod gan yr ymatebydd ynglŷn â’r modd y gosodwyd y ffurflen ymateb neu’r cwestiynau yn yr holiadur. Roedd eraill yn cwestiynu a oedd angen y broses, neu a oedd y broses yn ddiduedd ai peidio. Mynegodd rhai farn bod y penderfyniad eisoes wedi’i wneud, ac mai dim ond ffurfioldeb oedd hwn a oedd yn ceisio cyfiawnhau’r penderfyniad.

- **ADRODDIADAU ERAILL**

Gwnaeth ymatebwyr geisiadau i adroddiadau neu asesiadau eraill fod ar gael, a rhestrir y rhain isod:

- Adroddiad buddion i natur
- Arfarniadau economaidd ac arfarniad o gynaliadwyedd
- Asesiad o’r effaith economaidd
- Adroddiad dymunoldeb
- Achos busnes yn cefnogi’r angen am Barc Cenedlaethol newydd
- Yr achos dros newid

Gofynnodd eraill am fwy o eglurder ynghylch y strwythur, y llywodraethu a’r pwerau arfaethedig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd.

- **CWESTIYNAU’R HOLIADUR**

Teimlai'r ymatebwyr nad oedd rhai o'r cwestiynau yn rhoi cyfle iddynt ymateb fel y mynnent neu y teimlent y dylent allu. Er enghraifft, mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, teimlai ymatebwyr ei bod yn anymarferol cyfyngu atebion iddo i dri dewis yn unig: *"Pam tri yn unig? Byddwn i'n dweud bod pob un yn bwysig*" ac *"Mae'n amhosib blaenoriaethu tair thema. Mae gan bod un ohonyn nhw yr un gwerth."* Teimlai rhai nad oedd y cwestiwn wedi'i lunio'n dda, gan ddweud, er enghraifft: *"Beth yw pwrpas nodi 'themâu allweddol'? Bydd yr ateb i'r cwestiwn hwnnw yn effeithio ar y dewis o themâu."* Lleisiodd eraill anfodlonrwydd ynghylch cael eu cyfyngu i dri dewis yn unig: *"Mae Cwestiwn 4 yn gyfyngol iawn. Mae'r holl themâu a restrir yn bwysig, ac maent i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd, felly mae'n anodd iawn dewis dim ond tair. Ni ellir ystyried y themâu hyn yn unigol."* Roedd rhai yn anghytuno â'r ffordd y cafodd y themâu o ymgynghoriad 2023 eu grwpio: *"Bydd y ffordd y mae pynciau amrywiol yn cael eu cynnwys o fewn rhai o'r 'themâu' hyn yn rhoi setiau data camarweiniol am ymatebion y cyhoedd i faterion penodol.*"

- **DIDUEDDRWYDD / TUEDD**

Teimlai ymatebwyr nad oedd y broses a oedd yn cael ei chynnal yn ymgynghoriad cyhoeddus 2024 yn ddiduedd. Gofynnodd rhai am thema allweddol arall, sef *"angenrheidrwydd, gwerth am arian, diffyg didueddrwydd yn y broses*". Roedd eraill yn fwy uniongyrchol: *"Thema gref bod CNC o blaid y parc, er y dylai fod yn ddiduedd.*" Yn yr un modd: *"Pam defnyddio CNC o ystyried ei fod yn gorff â thuedd?*". Teimlai rhai fod y broses yn cael ei *"rhedeg yn dda*", *"yn addysgiadol*" ac *"yn gynhyrchiol"*. Dywedodd yr ymatebwyr yn gefnogol: *"Rydym yn erfyn ar CNC i fwrw ymlaen â'r cynllun.*" Yn wahanol i'r dymuniad a fynegwyd yn flaenorol i ychwanegu themâu eraill, dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn dymuno ychwanegu unrhyw themâu eraill: *"Na, gan fy mod i'n credu eich bod wedi gwneud gwaith gwych. Byddai'n wych pe gallwn fod wedi ticio mwy na thair."*

## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Roedd 29 (5.2%) o'r 553 o ymatebwyr yn gwrthwynebu Parc Cenedlaethol newydd. Roedd rhai yn syml yn gwrthwynebu'r syniad o sefydlu Parc Cenedlaethol newydd – er enghraifft, *"DWI DDIM EISIAU PARC CENEDLAETHOL*" neu *"Na. Dylid dileu'r syniad cyfan."* Roedd eraill yn gwrthwynebu'r syniad, ac yn rhoi rhesymau dros hyn – er enghraifft, *"Peidiwch â chreu'r Parc Cenedlaethol, bydd yn cynyddu prisiau tai yn yr ardal*" ac *"Nid oes croeso i Barc Cenedlaethol, ni allwn ei fforddio, mae ein ffyrdd eisoes mewn cyflwr ofnadwy.*"


## RHAN 3 YR HOLIADUR – ARDAL YMGEISIOL Y PARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG

**CWESTIWN 4A:**

A YDYCH YN CYTUNO Â'N CASGLIADAU BOD GAN YR ARDAL HON HARDDWCH NATURIOL?

- CYTUNO'N GRYF
- CYTUNO
- ANSICR
- ANGHYTUNO
- ANGHYTUNO'N GRYF

### CWESTIWN 4A, RHAN 1



***Ffigur 5:*** *Y graddau y mae ymatebwyr yn cytuno â'r casgliad bod gan yr ardal hon harddwch naturiol*

Roedd rhan gyntaf y cwestiwn yn gyfres o flychau ticio a oedd yn caniatáu i'r ymatebwr fynegi i ba raddau y mae'n cytuno â chasgliad CNC fod gan yr ardal o fewn y ffin ddrafft arfaethedig harddwch naturiol. O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, gwnaeth 1,871 ddetholiad o'r opsiynau uchod.

Allan o 1,871 o ymatebion i'r holiadur, roedd 63.6% (1,189) yn 'cytuno'n gryf', 25.3% (474) yn 'cytuno', 5.4% (100) yn teimlo'n 'ansicr', 5.7% (107) yn 'anghytuno', a 0.05% (1) yn 'anghytuno'n gryf'. Pan gyfunir 'cytuno'n gryf' a 'chytuno', ac 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno', er mwyn rhoi darlun cliriach i ni o'r graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno â'r casgliad bod gan yr ardal hon harddwch naturiol, dengys y canfyddiadau fod 88.9% (1,663) 'yn cytuno' a 5.8% (108) 'yn anghytuno' bod gan yr ardal harddwch naturiol.

## CWESTIWN 4A, TROSOLWG O RANNAU 2 A 3

Roedd ail ran y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr pam eu bod wedi gwneud y dewis y gwnaethant, ac yn rhoi lle iddynt ysgrifennu eu hateb. Cafodd y cwestiwn ei eirio fel a ganlyn: *"Rhowch reswm dros eich ateb."* O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, dywedodd 1,107 o ymatebwyr pam eu bod wedi dewis eu hateb.

Roedd trydedd ran y cwestiwn yn gwahodd ymatebwyr i ychwanegu unrhyw wybodaeth bwysig bellach y teimlent y dylid ei chynnwys yn asesiad CNC o harddwch naturiol yr ardal. Cafodd y cwestiwn ei eirio fel a ganlyn: *"A oes unrhyw wybodaeth bwysig arall y dylem ei chynnwys yn ein hasesiad o'r harddwch naturiol?"* Aeth y cwestiwn ymlaen i ofyn: *"Os oes, rhowch fanylion pellach."* O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, rhoddodd 483 o ymatebwyr fanylion pellach.

Roedd 1,590 o bobl wedi ymateb i Gwestiwn 4a (1,107 i'r cwestiwn ysgrifenedig cyntaf (a elwir yma yn Rhan 2), a 483 i'r ail gwestiwn ysgrifenedig (a elwir yma yn Rhan 3)). Mae'r atebion i Ran 2 a 3 wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## TIRWEDD

Gwnaeth 358 o ymatebwyr (22.5% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar y 'dirwedd'. Roedd 279 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 56 yn 'cytuno' a deg yn 'ansicr', ac roedd 13 yn dweud eu bod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif is-themâu oedd: rheolwyr tir a thirwedd amaethyddol, mynyddoedd, dyffrynnoedd ac afonydd, treftadaeth ddiwydiannol, a diffyg datblygiad.

- **RHEOLWYR TIR A THIRWEDDAU AMAETHYDDOL**

Yn yr un modd â'r thema ddiwethaf, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo bod y dirwedd yn ei chyflwr presennol – wedi'i fynegi'n gyffredinol fel *"hardd*", *"unigryw*" ac *"amrywiol*" – oherwydd gwaith ffermwyr a rheolwyr tir sydd wedi gofalu amdani a'i llunio ers cenedlaethau. Dywedodd rhai: *"Rydym yn ymweld yn rheolaidd a byth yn blino gwylio anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt ar draws y bryniau a'r dyffrynnoedd*", gan ysgrifennu: *"Golygfeydd naturiol hardd wedi'u llunio a'u rheoli gan genedlaethau o ffermwyr.*" Roedd eraill, er eu bod yn cytuno bod gan yr ardal harddwch naturiol, yn bryderus am yr effaith y gallai ffermio ei chael ar y dirwedd, gan nodi: *"Mae ffermio dwys yn*

*gwneud llawer i effeithio'n andwyol ar hyn yn yr ardal*" ac *"Mae llawer o'r ardal yn cael ei ffermio'n ddwys, ac mae hyn yn amharu ar yr harddwch.*"

- **MYNYDDOEDD, DYFFRYNNOEDD AC AFONYDD**

Nodweddid y dirwedd gan ei bryniau, mynyddoedd, dyffrynnoedd ac afonydd. Pwysleisiodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod *"y cymysgedd o ddyffrynnoedd a mynyddoedd a bryniau yn gwneud tirwedd syfrdanol*". Wrth wneud sylwadau ar Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, dywedodd rhai *"fod yr ardal i'r de o hyn yn cynnwys ucheldiroedd, dyffrynnoedd a llynnoedd yr un mor brydferth*". Soniodd eraill am hanes yr ardal yn ymuno â'r dirwedd, gan sôn am *"fynyddoedd ac afonydd ochr yn ochr, ac ymhlith, adeiladau hynafol a hanesyddol*". Soniodd rhai am *"ein golygfeydd calchfaen Carbonifferaidd o'n cwmpas a'n treftadaeth ddiwydiannol gysylltiedig, rhosydd grug a bryngaerau Bryniau Clwyd*", gan barhau i ddweud: *"Dyffryn hollt Dyffryn Clwyd, dyffrynnoedd afon Alun ac afon Dyfrdwy, ein heglwysi a'n capeli, ein cestyll a'n trefi marchnad hanesyddol yw'r hyn a wyddom orau."*

- **TREFTADAETH DDIWYDIANNOL**

Roedd treftadaeth ddiwydiannol y gorffennol yn cydblethu â'r dirwedd yn rhan o'r ymatebion. Mae hyn yn cynnwys mwyngloddio, chwarela a diwydiannau gwledig. Ymhlith y sylwadau roedd: *"Cefnen o fryniau a llawer o chwareli presennol a hen greiriau o gloddio calchfaen a llechi a chwarela tywod yn y gorffennol, gyda thomenni sbwriel sy'n dangos hanes yr ardal yn y gorffennol a'r diwydiant chwarela bywiog."* Soniodd ymatebwyr eraill am y dirwedd yn newid, neu'n wella, yn dilyn gorffennol diwydiannol, gan ysgrifennu: *"Fel tirwedd â gorffennol cloddio diwydiannol, sy'n dal i wella, mae Dyffryn Tanat yn asio effeithiau dynol cadarnhaol a negyddol ar y tir, gan dystio i wytnwch natur.*" Dywedodd eraill, *"Fel hen dirwedd ddiwydiannol, mae Dyffryn Ceiriog, yn arbennig, wedi gweld newid dynamig o ran ei dirwedd yn hanesyddol.*"

- **DIFFYG DATBLYGU**

Roedd ymatebwyr yn pryderu am ddiffyg datblygiad, neu'r ffaith nad oes datblygiad, o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Er enghraifft, *"Mae'r dirwedd yn amrywiol iawn. Mae'r ardaloedd eang o rosydd grug yn arbennig o werthfawr, ond mae'r amrywiaeth, a'r ffaith nad oes datblygiad, yn ei gwneud yn fwy gwerthfawr byth."* Teimlai eraill na ddylid atal datblygiad yn gyfan gwbl, ond y dylid ffafrio datblygiadau ar raddfa fach yn hytrach na rhai ar raddfa fawr. Dywedodd rhai, *"Ni ddylai adran gynllunio newydd sy'n ystyriol ac yn wybodus fygu pob datblygiad newydd, yn enwedig prosiectau cymunedol ar raddfa lai, ond rhaid iddi warchod ein tirwedd anhygoel.*" Gofynnodd ymatebwyr i unrhyw ddynodiad newydd ddarparu *"amddiffyniad rhag datblygiad nad yw'n ystyriol … yn enwedig ffermydd gwynt"*.

## RHEOLI AMAETHYDDOL A RHEOLI TIR

Gwnaeth 240 o ymatebwyr sylwadau ar 'reoli amaethyddol a rheoli tir'. Roedd 97 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 80 yn 'cytuno', 17 yn 'ansicr' a 45 yn 'anghytuno', a dywedodd un ymatebydd ei fod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif is-themâu oedd: harddwch naturiol a grëwyd gan y ffermwyr / rheolwyr tir, ffermio sy'n ystyriol o fyd natur, a bioamrywiaeth a thraffig.

- **HARDDWCH NATURIOL A GRËWYD GAN FFERMWYR / RHEOLWYR TIR**

Fel y codwyd mewn cwestiynau blaenorol, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad yw harddwch naturiol yr ardal "yn naturiol", ond yn hytrach ei fod wedi'i greu gan ffermwyr a rheolwyr tir dros genedlaethau lawer. Dywedodd rhai *"fod ganddi harddwch, a hynny oherwydd bod cenedlaethau o*

*ffermwyr wedi ffermio a rheoli'r tir hwnnw, sy'n aml yn anodd"*. Ategodd y pwynt hwn gan ymatebwyr eraill: *"Mae pob agwedd hardd ar y dirwedd wedi'i rheoli gan dirfeddianwyr a thwristiaeth sydd wedi'i rheoli'n ofalus."* Ond nid oedd pob ymateb yn teimlo bod y gymuned amaethyddol yn gwella'r harddwch naturiol: *"Mae'n brydferth o gymharu ag ardaloedd llawer mwy poblog, ond mae ei harddwch naturiol eisoes wedi'i beryglu gan ymyrraeth ddynol (anialwch defaid)."* Dywedodd eraill, *"Mae rhai o'r harddwch wedi'i reoli yn hytrach na bod yn naturiol."* Cafwyd sylwadau ychwanegol tebyg, yn dweud: *"Dim ond olion o'r tir ffermio a oedd unwaith yn ddeniadol a chyfoethog o ran natur sydd gan lawer o'r ardaloedd mwy amaethyddol, gyda'r gweddill yn cael eu dinistrio'n gynyddol gan arferion ffermio cynyddol ddiwydiannol perchnogion tir heb fawr ddim o barch tuag at iechyd yr amgylchedd naturiol."*

Cafwyd atebion tebyg iawn o blith yr ymatebion oedd yn 'cytuno' ac yn 'anghytuno'. Mae hyn oherwydd dehongliad yr ymatebwyr o'r cwestiwn, gan arwain at farn debyg yn yr ymateb ysgrifenedig, ond safbwyntiau gwrthgyferbyniol, i bob golwg, yn eu dewisiadau cychwynnol.

- **FFERMIO ER LLES NATUR**

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod y dull cyffredinol o ffermio, yn enwedig ar yr ucheldiroedd o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, i bob pwrpas yn ddull ffermio *"er lles mawr i natur"*. Dywedodd rhai, *"Mae natur y ffermio, nad yw'n ddwys i raddau helaeth, wedi meithrin tirweddau deniadol iawn, gyda llawer o wrychoedd dilychwyn a choetiroedd bach ar y lefelau is. Mae lefelau uchel o fioamrywiaeth."* Yn yr un modd, dywedodd ymatebwyr, *"Er y gellir dweud bod byd natur a'r dirwedd yn brydferth, mae'n amlwg hefyd iddynt gael eu rheoli – hynny yw, mae effaith amaethyddiaeth i'w gweld yn eang."* Er bod ffermio ucheldir yn cael ei ystyried yn sensitif, teimlwyd y gwrthwyneb ynghylch ffermio tir isel a ffermio dwys posibl yn yr ardaloedd iseldir. Dywedodd rhai, *"Mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer llonyddwch a chysylltiad â byd natur, sy'n hygyrch i boblogaethau trefol gogledd-ddwyrain Cymru, mewn amgylchedd sydd, er ei fod yn cael ei effeithio gan ddyn, yn wahanol i dirweddau iseldir/dyffryn sy'n cael eu ffermio'n ddwys."*

- **BIOAMRYWIAETH**

Teimlai llawer o ymatebwyr fod yr ardal wedi cydbwyso bywyd gwyllt gyda ffermio, a bod y cynefinoedd a'r bywyd gwyllt yn fioamrywiol, gan ddweud, *"Mae'n gyfuniad o dirwedd naturiol a thirwedd amaethyddol sy'n edrych yn braf ac yn fuddiol i fywyd gwyllt."* Teimlai rhai fod *"gan yr ardaloedd hyn y potensial i fod yn ardaloedd bioamrywiol gwell fyth trwy reoli'r tir yn well, gan gyfrannu nid yn unig i'r ardal, ond hefyd i'r byd ehangach"*. Yn yr un modd, dywedodd rhai, *"Mae'n ardal o harddwch rhyfeddol, llonyddwch a bioamrywiaeth naturiol."* Roedd eraill yn pryderu am ddiffyg bioamrywiaeth mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft: *"Yn wahanol i goetiroedd naturiol, sy'n fioamrywiol iawn, a chydag amrywiaeth o olygfeydd, mae tir ffermio da byw yn aml yn cael ei ddominyddu gan dyfu ungnwd, a'i greithio gan effeithiau gorbori. Nid oes gan yr ardaloedd hyn y cydbwysedd cymhleth o blanhigion ac anifeiliaid brodorol sy'n diffinio ecosystem iach, sydd wedi eu disodli gan laswelltiroedd neu gnydau uncnwd ar gyfer bwyd anifeiliaid."*

- **TRAFFIG / TWRISTIAETH**

Teimlai'r ymatebwyr fod yr ardal yn gymysgedd o amgylchedd gwyllt ac amgylchedd a reolir, a ddylai fod yn agored i bawb ei mwynhau. Er enghraifft, rhoddwyd sylwadau ar *"y cyferbyniad a'r cytgord rhwng anifeiliaid gwyllt a domestig. Man hyfryd i'w fwynhau gan bobl leol, a'i rannu gyda thwristiaid."* Teimlai llawer fod yr ardal eisoes yn gyrchfan i dwristiaid, gan nodi, *"Mae poblogrwydd yr ardal hon o ran twristiaeth a hamdden yn tystio i'w harddwch naturiol."* I'r gwrthwyneb, teimlai eraill, *"Mae gan yr ardal harddwch naturiol, ac mae hyn yn bennaf oherwydd ei bod yn dal i fod yn economi wledig iawn, heb ei difetha gan dwristiaeth dorfol."* Mynegodd rhai bryderon yn ymwneud â thwristiaeth yn yr ardal, gan ddweud, *"Bydd y twristiaid, er eu bwriadau da, yn ddi-os yn gollwng*

*ysbwriel, yn erydu'r dirwedd, ac yn ei newid, yn gynt nag y byddai unrhyw ffermwr byth."* Tra oedd eraill wedi ysgrifennu: *"Y ffermwyr, a'r trigolion lleol, yw'r rhai sy'n cadw'r ardal mor naturiol o hardd ag yw hi ar hyn o bryd. Nid oes angen mwy o dwristiaid, mwy o draffig, mwy o sbwriel, mwy o gyfyngiadau ar ffermwyr."*

## TWRISTIAETH

Gwnaeth 177 o ymatebwyr (11.1% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar 'dwristiaeth'. Roedd 98 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 56 yn 'cytuno' a 10 yn 'ansicr', ac roedd 13 yn dweud eu bod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif is-themâu oedd: effaith twristiaeth ar yr amgylchedd, yr economi leol, ymddygiad twristiaid, a'r effeithiau ar y cymunedau lleol.

- **YR EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD**

Roedd ymatebwyr yn pryderu am y difrod posibl i'r amgylchedd a allai ddigwydd oherwydd cynnydd yn nifer y twristiaid. Mynegodd rhai ymatebwyr eu barn yn seiliedig ar effeithiau canfyddedig ym Mharciau Cenedlaethol eraill, er enghraifft, gan roi sylwadau o'u profiad personol eu hunain. Dywedodd ymatebwr, *"Rydw i hefyd wedi byw ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ac wedi gweld, yn uniongyrchol, y difrod i'r amgylchedd a bywyd gwyllt gan dwristiaeth."* Teimlai eraill fod yr amgylchedd, a chefn gwlad, yn cael llawer o effeithiau cadarnhaol ar yr ymwelwyr â'r ardal, ac yn *"bwysig i dwristiaeth a lles meddyliol pobl"*. Mynegodd y mwyafrif bryder am effaith negyddol twristiaeth ar yr amgylchedd, gan bwysleisio y *"bydd amgylchedd hyfryd yn cael ei droi'n amgylchedd erchyll os bydd gormod o bobl yn heidio i'r lleoliad hwnnw"*.

- **YR EFFAITH AR YR ECONOMI LEOL**

Rhannwyd barn yr ymatebwyr ar effaith bosibl twristiaeth ar yr economi leol. Teimlai rhai y byddai'n cael effaith gadarnhaol, gan ddod ag incwm mawr ei angen i'r busnesau lleol, a fyddai o bosibl yn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn cyfleoedd gwaith ac yn tyfu'r sector gwasanaethau / darparwyr lletygarwch a thwristiaeth. Ysgrifennodd eraill am gael twristiaeth reoledig er mwyn *"caniatáu mewnlif o arian o dwristiaid er mwyn helpu'r economi, heb ddinistrio'r amgylchedd"*. Roedd y mwyafrif yn pryderu am yr effaith y gallai twristiaid ei chael ar y ffordd leol o fyw, gan effeithio ar ffermydd gweithredol, a rheolwyr tir, gan beidio â chreu mwy o elw, mewn gwirionedd, i fusnesau lleol – fel mae rhai yn ei honni. Teimlai llawer *"na fyddai troi'r ardal hon yn Barc Cenedlaethol yn dod ag unrhyw fuddion i'r economi leol"*.

- **YMDDYGIAD TWRISTIAID**

Roedd yr ymatebwyr yn pryderu am ymddygiadau posibl rhai ymwelwyr. Er y derbynnir bod y mwyafrif o'r bobl yn ymweld â'r ardal ac yn achosi dim niwed, mae rhai yn effeithio ar yr ardal, gan ollwng sbwriel, gadael giatiau ar agor, peidio â dilyn y cod cefn gwlad, a pheidio â pharchu'r ardal. Teimlai rhai y gallai Parc Cenedlaethol posibl ddifrodi'r ardal *"oherwydd y dwristiaeth, y traffig, y llygredd, y sbwriel, y sŵn a'r llygredd golau na fyddai modd eu rheoli"*.

- **EFFAITH TWRISTIAETH AR GYMUNEDAU LLEOL**

Roedd barn yr ymatebwyr ar yr effaith y gallai twristiaeth ei chael ar gymunedau lleol, yn yr un modd â'r effaith ar yr economi leol, wedi'i rhannu rhwng y rhai a deimlai y *"byddai annog twristiaeth yn yr ardal, yn sicr, o fudd i gymunedau a swyddi lleol"* a'r eraill a oedd yn teimlo na fyddai unrhyw effaith, effaith waeth, neu effaith andwyol ar gymunedau lleol, gan ddweud: *"Bydd yr ardal hon o harddwch naturiol, ynghyd â'i chymunedau, yn dioddef yn sgil cynnydd yn nifer y ceir a llety Airbnb."*

## ECOLEG A CHYNEFIN

Gwnaeth 169 o ymatebwyr (10.6% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar 'ecoleg a chynefin'. Roedd 128 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 37 yn 'cytuno' a thri yn 'ansicr', a dywedodd un ymatebydd ei fod yn 'anghytuno'. Y prif is-themâu oedd: ffawna a fflora, effaith datblygiadau mawr, ac effaith twristiaeth.

- **FFAWNA A FFLORA**

Soniodd ymatebwyr yn aml am ffawna a fflora. Mae llawer yn teimlo bod amrywiaeth eang o ffawna a fflora o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Yn ôl pob tebyg, mae hyn oherwydd amrywiaeth yr amgylcheddau, o gorsydd mawn, dalgylchoedd afonydd ucheldirol, a bryniau a dyffrynnoedd, i goetiroedd a thiroedd ffermio. Dywedodd yr ymatebwyr: *"Os yw harddwch naturiol yn cael ei ddiffinio fel rhywbeth sy'n cynnwys 'fflora a ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffigol', yna mae gennym ni ranbarth eithriadol sy'n llawn harddwch naturiol amlwg."* Nododd ymatebwyr fod y *"cynefinoedd yn amrywio o rostiroedd, i weundiroedd, i ddyffrynnoedd a bryniau tonnog, mynyddoedd, coetiroedd, tiroedd fferm, ac ymhellach i ffwrdd, twyni tywod, traethau, morfeydd heli a chefnforoedd. Mae'r amrywiaeth ecolegol yn y rhanbarth hwn yn syfrdanol."* Nodwyd hefyd y cyfraniad y mae ffawna a fflora yn ei wneud at heddwch a llonyddwch. Er enghraifft, *"Mae bryniau a dyffrynnoedd, mannau agored, llonyddwch, cynefinoedd bywyd gwyllt, dŵr, a fflora a ffawna i gyd yn cyfuno i greu teimlad o lonyddwch a harddwch a brofir gan ein holl synhwyrau – nid dim ond gwledd i'n llygaid."* Y farn gyffredinol oedd bod angen gwarchod ffawna a fflora yr ardal.

- **EFFAITH DATBLYGIADAU MAWR**

Roedd yr effaith y gallai unrhyw ddatblygiadau mawr ei chael ar harddwch naturiol o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn nodwedd gref o'r ymatebion. Er enghraifft, *"Ni allwn ddinistrio'r cynefin hwn. Mae wedi cymryd miloedd o flynyddoedd i'w ddatblygu, ac ni fyddai byth yn adfer pe bai'n cael ei gloddio ar gyfer fferm ynni, er enghraifft."* Teimlai ymatebwyr eraill nad yw'r ardal, o'i chymharu ag ardaloedd eraill, wedi cael ei datblygu llawer ar hyn o bryd, fel y nodir gan y sylw: *"Ardal annatblygedig, â phoblogaeth gymharol isel, ag amrywiadau sylweddol o fflora a ffawna, heb ei tharfu gan bwysau poblogaeth."* Teimlai'r rhai a wnaeth sylw ar hyn fod yn rhaid gwarchod yr ardal rhag gorddatblygiad, a dylai fod *"datblygiad cywir yn yr ardal gywir"*, gan ddweud, *"Gwarchod y cynefin, datblygiad cywir yn y ardal gywir am y rhesymau cywir."*

- **EFFAITH TWRISTIAETH**

Mynegodd ymatebwyr farn ar wahanol ochrau'r ddadl ynghylch twristiaeth. Teimlai rhai ei bod yn bwysig denu twristiaeth i'r ardal, er mwyn arddangos ei chynefinoedd amrywiol a'i hecoleg, tra oedd eraill yn teimlo bod digon o bobl eisoes yn ymweld, a bod unrhyw gynnydd yn peri risg o niweidio'r cynefinoedd amrywiol hyn. Dangosir dwy ochr y ddadl yn yr enghreifftiau hyn. Un farn yw *"gwarchod y dirwedd naturiol, gwarchod y fflora a ffawna, wrth annog twristiaeth yn yr ardal hefyd, a fyddai'n sicr o fod o fudd i gymunedau a swyddi lleol – o'i rheoli'n gywir"*, tra oedd eraill yn teimlo: *"Mae harddwch naturiol yn cael ei erydu mewn Parciau Cenedlaethol eraill oherwydd bod gormod o bobl yn ymweld, gan arwain at ddifrod i fyd natur ac i fioamrywiaeth."* Yn yr un modd, esboniodd ymatebwyr eu barn y gall unrhyw dwristiaeth, ynghyd â ffactorau eraill, effeithio ar yr ardal, gan ddweud, *"Gall cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, cynnydd yn y boblogaeth, a rhagor o ddatblygiadau gael effaith andwyol ar y bywyd gwyllt a'r fflora a ffawna sy'n byw yn yr ardaloedd hyn."*

## BYWYD GWYLLT

Gwnaeth 138 o ymatebwyr (8.7% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar 'fywyd gwyllt'. Roedd 105 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 29 yn 'cytuno' ac un yn 'ansicr', ac roedd tri ymatebydd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif is-themâu oedd: bywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau prin, cadwraeth cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, digonedd o fywyd gwyllt, amrywiaeth y bywyd gwyllt.

- **RHYWOGAETHAU PRIN**

Soniodd ymatebwyr am y rhywogaethau prin sy'n byw yn yr ardal hon, gan gynnwys y rugiar ddu, y môr-wennol fach, y boda tinwyn, y gylfinir, llyffant y twyni, a'r ceiliog rhedyn pinc. Roedd yr ymatebion yn nodi bod rhyngweithio â'r rhywogaethau hyn yn y gwyllt, neu allu arsylwi arnynt, yn gwella iechyd a llesiant personol. Teimlai rhai fod *"pobl sy'n ymweld â'r Gogledd, a'r rhai sy'n byw yn yr ardal leol, yn cael budd o ran eu hiechyd a'u llesiant"*. Roedd eraill yn cydnabod y budd y mae'r rhywogaethau prin hyn yn ei roi i'r ardal – er enghraifft, *"Mae'r ardal hon yn brydferth i ymweld â hi, er mwyn gweld nodweddion tirwedd unigryw, a rhywogaethau prin. Yn dod â budd economaidd i'r ardal y tu hwnt i ardal y parc."* Roedd eraill yn pryderu am gynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar fywyd gwyllt yr ardal – er enghraifft, *"Bydd yr aflonyddwch a grëir gan y mewnlifiad o ymwelwyr ychwanegol yn tarfu ar ein bywyd gwyllt brodorol."* Nododd rhai hefyd fod llawer o'r ardaloedd y mae bywyd gwyllt yn byw ynddynt wedi'u gwneud gan ddyn – er enghraifft, *"Mae llawer o glogwyni y mae adar fel hebogau tramor yn nythu ynddynt o waith dyn, ac sydd wedi'u gadael yn segur ar ôl i chwareli gloddio carreg neu lechi ohonynt."*

- **CADWRAETH CYNEFINOEDD I FYWYD GWYLLT**

Roedd un o'r barnau amlaf yn yr ymatebion yn ymwneud â chadwraeth a gwarchod cynefinoedd i wella bywyd gwyllt, a bod angen gwarchod y cynefinoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, *"Dylai cynefinoedd bywyd gwyllt, aer glân a mannau hamdden gael eu diogelu ar gyfer trigolion lleol a bywyd gwyllt, a'u mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol."* Sylwodd ymatebwyr y gallai gwarchod cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a hamdden awyr agored ddigwydd gyda'i gilydd: *"Mae'r ardal arfaethedig yn ardal weledol bwysig oherwydd ei harddwch naturiol, ac yn ardal y dylid ei hamddiffyn ar gyfer bywyd gwyllt a hamdden awyr agored."* Teimlai rhai fod *"rhaid i unrhyw ddatblygiad fod yn ystyriol o hyn – gan bwysleisio cerdded, edrych ar fywyd gwyllt ac ati – yn hytrach na dim byd arall"*. Roedd eraill yn pryderu am freuder y cynefinoedd a'r bywyd gwyllt, gan nodi *"unwaith y caiff ei golli, mae'n bosibl y caiff ei golli am byth"*, gan gyfeirio at yr effaith y gallai dynodiad posibl ei chael, a nodi sut *"gellid gwella harddwch naturiol yn sylweddol pe bai'r Parc Cenedlaethol yn golygu rhoi rhagor o fesurau diogelu ar waith ar gyfer bywyd gwyllt a chynefinoedd"*.

- **TOREITHRWYDD Y BYWYD GWYLLT**

Y cyfan a ddywedodd rhai ymatebwyr oedd *"toreithrwydd y bywyd gwyllt"* o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, tra oedd eraill wedi mynd ymhellach, gan rybuddio am *"doreithrwydd y fflora a ffawna. Mae bioamrywiaeth yn cael ei defnyddio'n rheolaidd fel term cyffredinol, ond mae toreithrwydd bywyd gwyllt ar y cyfan yn disgyn yn arw."* Honnodd y mwyafrif mai'r atyniad i'r ardal yw *"toreithrwydd y bywyd gwyllt"* a dywedodd rhai mai *"un o'r rhesymau pam symudon ni i'r ardal oedd oherwydd y golygfeydd hyfryd, a thoreithrwydd y bywyd gwyllt, gan gynnwys ffwlbartiaid, cudyllodod coch ac ati"*, ac esboniodd ymwelydd cyson â'r ardal fod *"yr ardal yn rhagorol, ac yn ardal rydw i, a'm gwraig i, yn ceisio ymweld mor aml â phosibl â hi am ei golygfeydd digyffwrdd a'i bywyd gwyllt helaeth"*.

- **AMRYWIAETH O FYWYD GWYLLT**

Yn ogystal â thoreithrwydd y bywyd gwyllt, nododd ymatebwyr hefyd yr amrywiaeth o fywyd gwyllt a geir o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Sylwodd ymatebwyr y gellid cynyddu'r amrywiaeth ymhellach trwy reolaeth ofalus. Er enghraifft, *"Mae gan yr ardaloedd hyn y potensial i fod yn ardaloedd o fioamrywiaeth well fyth trwy well rheolaeth."* Yn yr un modd, roedd eraill yn teimlo, *"Byddai bod yn rhan o'r Parc Cenedlaethol yn sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer parhau i warchod a gwella ardal fioamrywiol ac ystyriol o natur."* Cododd eraill rybudd ynghylch yr effeithiau y gallai Parc Cenedlaethol eu cael. Er enghraifft, *"Mae harddwch naturiol yn cael ei erydu mewn Parciau Cenedlaethol eraill oherwydd bod gormod o bobl yn ymweld â nhw, gan arwain at ddifrod i natur a bioamrywiaeth."* Teimlai rhai ymatebwyr y gallai graddfa, a maint, ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol fod yn fanteisiol i fywyd gwyllt. Er enghraifft, *"Mae'r ardal arfaethedig yn darparu cynefin cymharol ddiogel i fywyd gwyllt"*, gan ychwanegu bod yr ardal *"ar raddfa ddigonol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i ymwelwyr"*.

## DIWYLLIANT A THREFTADAETH

Gwnaeth 137 (8.6% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar 'ddiwylliant a threftadaeth'. Roedd 102 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 28 yn 'cytuno' a dau yn 'ansicr', ac roedd pump yn dweud eu bod yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif is-themâu oedd: iaith, hanes cymunedol, treftadaeth adeiledig a threftadaeth ddiwydiannol.

- **IAITH**

Teimlai llawer o ymatebwyr fod y Gymraeg yn rhan o harddwch naturiol yr ardal. Mae cwestiwn cyfan yn ddiweddarach yn yr holiadur yn ymwneud â'r Gymraeg – *a fyddech cystal â symud ymlaen i Adran 4 yr adroddiad i ddysgu mwy*.

- **HANES CYMUNEDOL**

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar ddiwylliant a thraddodiadau lleol y trefi a'r pentrefi o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Teimlai llawer y dylai ystyriaethau 'treftadaeth a lle' fod yn nodwedd gref wrth ddiffinio harddwch naturiol. Daeth sylwadau gan bobl sydd eisoes yn byw yn yr ardal, a'r rhai sy'n ymweld yn aml, gan gytuno bod y cymunedau a'u hanes yn rhan hanfodol o hunaniaeth yr ardal gyfan. Teimlai ymatebwyr fod angen gwarchod y math hwn o hanes, ac y gallai statws Parc Cenedlaethol ddarparu adnoddau er mwyn gwneud hynny. Er enghraifft, *"Mae harddwch naturiol a threftadaeth yr ardal ymgeisiol yn cyfiawnhau rheolaeth ag adnoddau priodol."* Gwnaeth eraill sylwadau ar y dirwedd naturiol, y bywyd gwyllt a'r threftadaeth sy'n cydberthyn, gyda rhai'n dweud bod *"y mynyddoedd, y dyffrynnoedd, yr afonydd, y camlesi a rheilffyrdd treftadaeth, y rhaeadrau, y coetiroedd, y cefn gwlad tawel a mawreddog, y tir fferm a'r cymunedau hanesyddol Cymraeg i gyd yn gwneud yr ardal hon yn syfrdanol, yn unigryw ac yn hardd"*.

- **TREFTADAETH ADEILEDIG**

Mae'r dreftadaeth adeiledig o fewn yr ardal ar sawl ffurf, o fwyngloddiau a chwareli, cestyll, eglwysi a threfi marchnad hanesyddol, i feini hirion a chylchoedd cerrig hynafol, Clawdd Offa, a systemau camlesi amrywiol. Soniodd rhai ymatebwyr am sut maent yn rhyngweithio. Er enghraifft, *"Gallech werthfawrogi harddwch naturiol a dylanwad dynol yr ardal mewn llonyddwch llwyr bron, gan ddod o hyd i gylchoedd cerrig, mwyngloddiau llechi, cynefinoedd digyffwrdd a byd natur ar unrhyw daith gerdded fer."* Mynegodd eraill fod y rhyngweithio rhwng yr amgylchedd a'r ffordd y mae'r tir yn cael

ei ddefnyddio, yn ei dro, yn arwain at gyfleoedd i wella ein hiechyd a'n llesiant. Er enghraifft, *"Sut mae'r amgylchedd wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r tir yn cael ei ddefnyddio, ac yna dros y canrifoedd wedi'i adfywio i ddarparu datblygiad lleol a chenedlaethol ar gyfer llesiant trwy hamdden a hygyrchedd."*

- **TREFTADAETH DDIWYDIANNOL**

Teimlai ymatebwyr, yn ogystal ag amaethyddiaeth, fod gan yr ardal orffennol diwydiannol cyfoethog a bywiog sydd bellach wedi dod i ben, gan olygu bod yr ardaloedd hynny'n cael eu *"hadfer gan natur"*. Er enghraifft, *"yr ardaloedd diwydiannol gynt sydd wedi cael eu hadfer bron yn gyfan gwbl gan natur ac sy'n rhoi ansawdd unigryw i'r ardal"*. Rhannodd ymatebwyr eraill y farn hon, gan ddweud, *"Fel tirwedd â gorffennol mwyngloddio diwydiannol, sy'n dal i gael ei hadfer, mae Dyffryn Tanat yn asio effeithiau dynol cadarnhaol a negyddol ar y tir, gan ddangos gwytnwch natur."* Gwnaeth rhai sylwadau ar sut mae'r dreftadaeth bellach wedi darparu defnyddiau hamdden. Er enghraifft, sylwodd ymatebwyr sut y gall yr ardal ddarparu *"ar gyfer llesiant trwy hamdden a hygyrchedd – er enghraifft, yr ardal rhwng Ffrith a Choed-talon (unwaith wedi'i defnyddio gan y Rhufeiniaid, ac at ddibenion diwydiannol, a bellach yn cynnig cyfleoedd i gerdded a beicio)"*. Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cysyniad o harddwch naturiol, yn hytrach yn teimlo, *"Nid yw'r harddwch yn naturiol: mae pob erw wedi'i haddasu gan amaethyddiaeth, coedwigaeth, mwyngloddio a gweithgareddau gwledig eraill."*

## DATBLYGU

Gwnaeth 86 o ymatebwyr (5.4% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) sylwadau ar 'ddatblygu'. Roedd 75 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, wyth yn 'cytuno', dau yn 'ansicr', ac un yn 'anghytuno'. Y prif is-themâu oedd: yr angen i gyfyngu ar ddatblygu, a sut y gellid cynnwys datblygu.

- **YR ANGEN I GYFYNGU AR DDATBLYGU**

Teimlai'r mwyafrif y dylai fod cyfyngiad ar ddatblygiadau o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Roedd hyn yn cyfeirio'n gyffredinol at ddatblygiadau mawr, megis ffermydd gwynt neu solar, ond hefyd at ddatblygiadau seilwaith mawr hefyd – er enghraifft, llinellau peilonau neu ardaloedd storio ynni. Er enghraifft, *"Dim peilonau, dim tyrbinau gwynt. Dim ond natur fel y dylai fod."* Dywedodd eraill *"nad ydynt am weld dinistr amgylcheddol yr ardal hon (gan dyrbinau gwynt nac unrhyw beth arall)"*. Nid oedd yr holl ymatebwyr yn gwrthwynebu'r datblygiadau hyn, gyda rhai'n dweud eu bod yn *"cefnogi tyrbinau gwynt – ond sawl sy'n ormod?"*. Edrychodd sawl ymatebwr ar fathau eraill o ddatblygiad. Er enghraifft, *"Mae'n ardal brydferth, ac mae angen ei hamddiffyn rhag lledaeniad tai, ac mae angen gwarchod bywyd gwyllt."* Mynegodd eraill eu bod yn hapus gyda'r tanddatblygu hwn, gan nodi, *"Mae'n ardal hanesyddol hardd sydd, diolch byth, heb ei gorddatblygu, heblaw am yr holl feysydd carafannau sy'n ei difetha."*

- **SUT Y GELLID DARPARU AR GYFER DATBLYGU**

Amlinellodd ymatebwyr nad oeddent yn gwrthwynebu datblygu, ond cwestiynwyd sut y dylid ei gynnwys o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Er bod y safbwyntiau hyn wedi'u gwneud, nid oedd unrhyw atebion nac awgrymiadau wedi'u cynnig ynghylch sut i gyflawni hyn. Er enghraifft, nodwyd *"gwarchod y cynefin, y datblygiad cywir yn y lle cywir, am y rhesymau cywir"*, ond nid aethpwyd ymlaen i ymhelaethu ar y rhesymau cywir, ble gallai'r lle cywir fod, na beth allai'r datblygiad cywir fod.

## LLONYDDWCH

Soniodd 85 o ymatebwyr (5.3% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) am 'lonyddwch'. Roedd 75 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, deg yn 'cytuno', a neb yn 'anghytuno'. Y prif is-themâu oedd: llonyddwch a thawelwch, yn ogystal ag awyr dywyll.

- **LLONYDDWCH A THAWELWCH**

Roedd yr ymatebwyr i gyd yn cytuno bod gan yr ardal o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol harddwch naturiol yn seiliedig ar ei llonyddwch – er enghraifft, *"ardal dawel sy'n parhau i fod yn naturiol a gwyllt – sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd"*. Dyma oedd safbwynt a adleisiwyd yn y sylw: *"Dŵr glân ac aer glân, ardaloedd gwyrdd a llonydd heb unrhyw lygredd sŵn a golau artiffisial."* Roedd eraill, er eu bod yn cytuno bod yr ardal yn dawel, yn codi pryderon ynghylch yr effaith y gallai dynodiad ei chael arni. Er enghraifft, *"Mae gan yr ardal harddwch, ond byddai dynodiad Parc Cenedlaethol yn lleihau'r llonyddwch."* Nododd ymatebwyr fod llonyddwch yn un o'r atyniadau i ymwelwyr â'r ardal ar hyn o bryd. Er enghraifft, *"Mae twristiaid yn ymweld am y llonyddwch a'r her o fod yn egnïol mewn amgylchoedd naturiol o'r fath."*

- **AWYR DYWYLL**

Pwysleisiodd ymatebwyr nodweddion arbennig megis awyr *"anarferol"* o dywyll yr ardal, rhywbeth sy'n brin yn y DU ac y dylid ei gadw. Ysgrifennodd yr ymatebwyr am eu hargraff o brydferthwch naturiol yr ardal hefyd. Nid oedd unrhyw sylwadau'n nodi nad oedd awyr dywyll na llonyddwch yn yr ardal.

## HAMDDEN

Soniodd 65 o ymatebwyr (4.1% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) am 'hamdden'. Roedd 61 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol a phedwar yn 'cytuno', ac nid oedd yr un ohonynt yn ansicr neu'n 'anghytuno'. Y prif is-themâu oedd: rhyng-gysylltedd gweithgareddau hamdden â'r amgylchedd, defnydd o'r dirwedd, a'r golygfeydd a brofwyd yn ystod gweithgareddau hamdden. Mae cwestiwn cyfan yn ddiweddarach yn yr holiadur ynghylch hamdden o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, felly gweler *Cwestiwn 4B* am ragor o wybodaeth.

## SEILWAITH

Soniodd 49 o ymatebwyr (3.1% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) am 'seilwaith'. Roedd 28 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' fod gan yr ardal harddwch naturiol, tra oedd 15 o ymatebwyr eraill yn 'cytuno'. Roedd un ymatebydd yn 'ansicr', tra oedd pump o ymatebwyr yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol. Y prif is-themâu oedd: cyflwr y seilwaith lleol a lefel y seilwaith sydd ar gael yn yr ardal.

- **CYFLWR Y SEILWAITH LLEOL**

Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn teimlo bod cyflwr y seilwaith lleol yn ddigonol er mwyn helpu i gynnal harddwch naturiol o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Roedd pob ymateb yn ymwneud â seilwaith yn amlinellu bod y seilwaith mewn cyflwr gwael ar y cyfan. Nodwyd bod angen cynnal a chadw neu uwchraddio ffyrdd lleol pe dymunir gweld unrhyw gynnydd mewn twristiaeth, gan egluro na all y ffyrdd ymdopi'n barod. Nodwyd hefyd y gallai unrhyw gynnydd mewn twristiaeth arwain at dagfeydd – er enghraifft, *"ni ellid ymdopi â mwy o draffig"*. Rhannodd sawl ymatebydd y farn hon, gan ddweud *"nad yw'r seilwaith yn gynaliadwy ar gyfer rhagor o*

*dwristiaid, nid yw ffyrdd yn ddigon mawr, nid yw'r meysydd parcio yn addas"*. Dywedodd eraill fod toiledau'r cyngor yn aml yn cael eu cau neu'n cael eu difrodi, nid oedd y biniau'n cael eu gwagio'n ddigon aml, ac felly'n gorlifo â sbwriel, a bod llwybrau troed mewn cyflwr gwael neu, mewn llawer o achosion, ar gau neu wedi'u rhwystro.

- **LEFEL Y SEILWAITH SYDD AR GAEL YN YR ARDAL**

Yn ogystal â seilwaith lleol, gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar seilwaith yr ardal gyfan, megis trafnidiaeth gyhoeddus ac argaeledd y gwasanaethau brys. Dywedodd ymatebwyr fod *"trafnidiaeth gyhoeddus wael yng ngogledd Powys"*. Honnodd eraill fod gan eu pentref, ar y gorau, *"un cynnig gwasanaeth cyhoeddus y dydd"*. Roedd rhai'n pryderu bod y gwasanaethau brys ac ysbytai lleol "*eisoes dan ormod o bwysau*" ac yn poeni am sut oedden nhw'n *"mynd i ymdopi"*.

## HYGYRCHEDD

Soniodd 11 o ymatebwyr (0.7% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) am 'hygyrchedd'. Roedd naw o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, dau yn 'cytuno', a neb yn 'anghytuno'. Nododd ymatebwyr pa mor anodd yw hi i gael mynediad i'r ardal, yn bennaf oherwydd maint a chyflwr y ffyrdd, ynghyd â phroblemau yn ymwneud â pharcio. Gwnaeth eraill sylwadau ar ba mor agos yw'r ardal i ddinasoedd mawr, gan fynegi y dylai ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol gwmpasu ardal sy'n hygyrch i lawer ei rhannu. Teimlai rhai fod angen ystyried pa mor hygyrch y byddai'r parc i aelodau llai abl o'r gymuned, er mwyn caniatáu cynhwysiant i bawb.

## YMATEBION ERAILL

Roedd 404 o ymatebwyr (25.4% o'r ymatebion a ddaeth i law yn ymwneud â Chwestiwn 4a) yn rhannu gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn ymwneud â'r cwestiwn. Roedd rhai yn ddatganiadau syml, megis *"rydym ni'n byw mewn ardal brydferth"* neu *"mae ganddi harddwch naturiol, bregus, y mae angen ei amddiffyn"*. Gwnaeth eraill sylwadau fel *"nid oes gan Brestatyn, ac ardal Glynceiriog, ddim byd yn gyffredin"* a *"gan fy mod i wedi byw yn yr ardal ers dros bedwar deg o flynyddoedd, rwy'n gweld yr harddwch naturiol (digyffwrdd) bob dydd"*.

## Y BROSES

Gwnaeth 162 o ymatebwyr (10.2% o'r 1,590 o ymatebion a ddaeth i law yn ymwneud â Chwestiwn 4a) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys yr un pryderon a godwyd yn yr adran flaenorol (Cwestiwn 3b). Roedd llawer yn teimlo y *"glynir wrth"* y broses a'i bod yn *"gweithio'n dda"*. Er enghraifft, nodwyd y *"driniaeth drylwyr iawn yn yr adroddiad gwerthuso"* a chredwyd *"eich bod wedi cwmpasu'r cyfan"*. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion cefnogol hyn yn y lleiafrif. Roedd mwy o ymatebwyr yn cwestiynu'r broses, gan ddweud eu bod yn *"anghytuno â fframwaith a sail y cwestiwn 'arweiniol' hwn"* ac yn dweud nad oeddent *"wedi eu hargyhoeddi ynghylch y sail resymegol dros ddewis y ffiniau"*.

## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Dywedodd 195 o ymatebwyr (12.3% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4a) unwaith eto *"na i Barc Cenedlaethol"*. Roedd 102 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal harddwch naturiol, 69 yn 'cytuno', naw yn 'ansicr', a 15 yn 'anghytuno'. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn gwrthwynebu'r syniad o gael Parc Cenedlaethol newydd mewn egwyddor: *"Nid oes angen parc*


*arall arnom ni."* Roedd eraill yn gwrthwynebu ac yn rhoi rhesymau pam eu bod yn gwrthwynebu: *"Mae'n ardal brydferth, ond nid oes angen newid y ffordd y caiff ei rheoli ar hyn o bryd."* Er eu bod yn teimlo na ddylai'r ardal ddod yn Barc Cenedlaethol newydd, roedd y mwyafrif (171 o'r 195 o ymatebwyr) yn dal i gytuno bod gan yr ardal harddwch naturiol.

**CWESTIWN 4B:**

A YDYCH YN CYTUNO Â'N CASGLIADAU BOD GAN YR ARDAL HON GYFLEOEDD AR GYFER HAMDDEN AWYR AGORED?

- CYTUNO'N GRYF
- CYTUNO
- ANSICR
- ANGHYTUNO
- ANGHYTUNO'N GRYF

### CWESTIWN 4B, RHAN 1




***Ffigur 6:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â'r casgliadau bod gan yr ardal hon gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored*

O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, atebodd 1,864 y cwestiwn hwn. Roedd 43% (803) yn 'cytuno'n gryf', 24% (446) yn 'cytuno', 12% (227) yn 'anghytuno'n gryf', 8% (154) yn 'anghytuno', ac 13% (234) yn 'ansicr'.

Pan gyfunir 'cytuno'n gryf' a 'chytuno', ac 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno', i roi darlun cliriach o'r graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno â'r casgliadau bod gan yr ardal hon gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, mae 67% (1,249) yn 'cytuno' a 20.4% (381) yn 'anghytuno'.

## CWESTIWN 4B, RHANNAU 2 A 3

Roedd ail ran y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr roi rheswm dros eu hateb. O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, dywedodd 1,045 o ymatebwyr pam eu bod wedi dewis eu hateb.

Roedd trydedd ran y cwestiwn yn gwahodd ymatebwyr i ychwanegu unrhyw wybodaeth bwysig bellach y teimlent y dylid ei chynnwys yn asesiad CNC o harddwch naturiol yr ardal. Cafodd y cwestiwn ei eirio fel a ganlyn: *"A oes unrhyw wybodaeth bwysig arall y dylem ei chynnwys yn ein hasesiad o'r harddwch naturiol?"*. Aeth y cwestiwn ymlaen i ofyn, *"Os oes, rhowch fanylion pellach."* O'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur a ddaeth i law, rhoddodd 415 o ymatebwyr fanylion pellach.

Cafwyd 1,560 o ymatebion i Gwestiwn 4b (1,045 i'r cwestiwn ysgrifenedig cyntaf (a elwir yma yn Rhan 2) a 415 i'r ail gwestiwn ysgrifenedig (a elwir yma yn Rhan 3)). Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## CERDDED A RHEDEG

Soniodd 294 o ymatebwyr (18.9%) am 'gerdded a rhedeg'. Roedd 204 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 60 yn 'cytuno' a naw yn 'ansicr', ac roedd 21 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Y prif weithgaredd hamdden awyr agored a nodwyd gan ymatebwyr oedd cerdded a rhedeg. Roedd bron i 20% o'r 1,560 o ymatebion i Gwestiwn 4b yn ymwneud â cherdded a rhedeg. Roedd y mwyafrif yn cytuno bod yr ardal eisoes yn darparu cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer cerdded a rhedeg, ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag ymwelwyr, gan nodi bod *"hygyrchedd rhesymol o ganolfannau trefol; rhwydweithiau hawliau tramwy cyhoeddus / llwybrau troed da sydd eisoes yn darparu mynediad i natur, mynyddoedd, golygfeydd eang"*, ond, ar hyn o bryd, ceir *"ardaloedd mawr o gefn gwlad gwyllt, nad yw'n cael eu defnyddio llawer ar hyn o bryd gan gerddwyr neu dwristiaid"*. Nododd ymatebwyr hefyd, yn unol ag atebion blaenorol, y budd i iechyd a llesiant sy'n deillio o gerdded a rhedeg yn yr awyr agored, ac o gyfuno'r gweithgareddau hyn â golygfeydd *"syfrdanol"*, mae'r budd yn cynyddu. Nid oedd pob ymatebydd yn awyddus i weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cerdded ac yn rhedeg, oherwydd y gallai *"ddifetha'r llonyddwch a'r tawelwch"*. Pwysleisiwyd bod rhai o'r llwybrau troed a'r llwybrau ceffyl eisoes wedi'u difrodi gan fynediad cerbydau 4x4, gan effeithio, o bosibl, ar y defnydd o'r llwybrau troed a'r llwybrau ceffyl ar gyfer cerdded a rhedeg: *"Ceir problemau ofnadwy gyda beiciau modur a cherbydau 4x4 sydd wedi gwneud rhai llwybrau cerdded yn amhosibl i fynd ar eu hyd."*

## HYGYRCHEDD

Soniodd 252 o ymatebwyr (16.2% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) am 'hygyrchedd'. Roedd 66 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 43 yn 'cytuno' ac 20 yn 'ansicr', ac roedd 123 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'.

- **TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS**

Codwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Awgrymodd ymatebwyr fod angen i'r seilwaith sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus gael ei osod. Er enghraifft, *"Mae angen seilwaith da ar gyfer mynediad, megis trafnidiaeth gyhoeddus a meysydd parcio, er mwyn osgoi'r peryglon a wynebir mewn Parciau Cenedlaethol eraill."* Ymhelaethodd eraill ar y syniad hwn, gan ddweud, *"Dylai bysiau fod ar gael i leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Gellid cynnwys canolfannau ar gyfer llogi e-feiciau mewn lleoliadau strategol."* Teimlai rhai fod diffyg opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol: *"Argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr diwrnod sy'n teithio mewn ceir. Yn syml, nid yw'r seilwaith hwn yn bodoli yn yr ardal hon."* Wrth siarad am seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, pwysleisiodd ymatebwyr *"fod annog mwy o bobl, heb seilwaith a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, i ymweld â mannau, a'u defnyddio, yn wrthgynhyrchiol ac yn niweidiol"*.

- **MYNEDIAD I BOBL LAI ABL**

Mae mynediad i bobl lai abl yn fater pwysig iawn a godwyd fel pryder gan lawer o'r ymatebwyr. Roedd y sylwadau'n cynnwys: *"Yn sicr, ychydig iawn o gyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd i deuluoedd, yr henoed neu bobl anabl gael mynediad i lawer o lwybrau troed yn yr ardal."* Roedd rhai'n teimlo bod Parc Cenedlaethol yn gyfle i'r ardal *"na ddylid ei ddiystyru i greu mannau agored hygyrch i bobl o wahanol alluoedd corfforol. Mae'r gwahaniaeth y gallai hyn ei wneud i ansawdd bywyd cynifer o bobl yn ddigyffelyb yn ein gwlad."* Gofynnodd eraill am ragor o wybodaeth ynghylch *"manylion y cyfleusterau parcio sydd wedi'u cynllunio (gan gynnwys sicrhau bod mwy o*

*lwybrau'n hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, a'r bobl hynny ag anabledd cerdded / ag amhariad ar y golwg"*.

- **Y RHWYDWAITH FFYRDD O FEWN Y PARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG**

Nid yw barn gyffredinol yr ymatebwyr am y rhwydwaith ffyrdd o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn ffafriol iawn. Codwyd pryderon am gyflwr a lled y ffyrdd, gyda nifer o'r ymatebwyr yn honni eu bod yn un lôn ac mewn cyflwr gwael. Cyfeiriodd llawer at ffyrdd a oedd yn *"dirywio"* a *"ffyrdd cul, un lôn yn unig gyda lleoedd pasio annigonol ar gyfer cerbydau"*, a phwysleisiwyd yr angen iddynt gael eu *"huwchraddio"*. Roedd ymatebwyr yn pryderu *"nad oes gennym ni'r ffyrdd i ddarparu ar gyfer hamdden awyr agored i dwristiaid"* ac yn poeni am barcio ar hyd ffyrdd cul, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y gwasanaethau brys, ffermwyr a'r boblogaeth leol. Er enghraifft, *"Nid oes gennym ni'r seilwaith ffyrdd i gynnal y gweithgareddau hamdden hyn a byddan nhw'n rhwystro ffermwyr rhag gwneud eu gweithgareddau dydd i ddydd"*.

- **MYNEDIAD O GANOLFANNAU TREFOL**

Dywedodd ymatebwyr fod ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn agos at ardaloedd trefol mawr, gan ganiatáu mynediad i nifer fawr o ymwelwyr newydd. Er enghraifft, *"Mae'r ardal yn hawdd ei chyrraedd ar y ffordd o gytrefi mawr fel Wrecsam, Amwythig, Telford, Lerpwl a Manceinion"*, gyda'r ymatebwyr yn nodi y gallai mynediad o ardaloedd trefol roi buddion i ymwelwyr, *"yn seicolegol ac yn gorfforol, o ddod i gysylltiad â'r amgylchedd gwledig hardd hwn"*. Fodd bynnag, roedd rhai yn cwestiynu a fyddai'r ffyrdd mynediad yn gallu ymdopi â'r traffig uwch, gan nodi fod *"mynediad i'r ardal o orllewin Lloegr yn bennaf ar hyd ffordd yr A483 neu ffordd yr A5 ac nid yw'r naill na'r llall o'r ffyrdd hyn yn ymdopi â'r traffig presennol"*.

## TWRISTIAETH

Soniodd 158 o ymatebion (10.1% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) am 'dwristiaeth', yn ymwneud â chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Roedd 47 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 38 yn 'cytuno' a 15 yn 'ansicr', ac roedd 58 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Mae'r ymatebion yn yr adran hon yn dilyn yr un themâu â'r adran flaenorol yn ymwneud â thwristiaeth. Mae rhai ymatebwyr yn ystyried hyn yn gam cadarnhaol i'r ardal, gan roi hwb posibl i'r economi leol, o bosibl yn caniatáu i swyddi newydd a/neu fusnesau newydd dyfu, ac i fusnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu ddatblygu ac arallgyfeirio: *"Fel rhywun sy'n gweithio fel rheolwr ar ddyletswydd gwesty ar gyrion y safle hwn, rwy'n ymwybodol iawn o ba mor werthfawr yw'r cynnig hamdden awyr agored, gan mai cerdded ar ein bryniau yw'r prif reswm y mae ein gwesteion yn ymweld â ni."* A hefyd: *"Byddai statws Parc Cenedlaethol nid yn unig yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, gan ganiatáu i fwy o ymwelwyr fwynhau harddwch naturiol yr ardal, ond gallai hefyd roi hwb i'r economi leol er budd y trigolion, os caiff ei reoli'n ofalus."* Roedd eraill yn teimlo bod yr ardal eisoes yn cael digon neu ormod o ymwelwyr, ac yn cwestiynu a allai'r ardal ymdopi â chynnydd: *"Rwy'n bryderus y bydd mwy o ymwelwyr a mwy o weithgareddau hamdden awyr agored yn effeithio ar amgylchedd a llonyddwch yr ardal"* ac *"Mae gormod o bobl eisoes yn erydu'r llwybrau troed, gan achosi llifogydd wrth i'r glaw lifo drostyn nhw."* Cododd eraill gwestiynau am reoli unrhyw gynnydd yn nifer y twristiaid – *"Mae angen rheoli cynnydd o'r fath yn gynaliadwy*" – a chost unrhyw gynnydd yn nifer y twristiaid, i'r cymunedau lleol a'r awdurdodau lleol. Er enghraifft, *"Mae ein cyfleusterau hamdden dan do eisoes dan fygythiad oherwydd diffyg arian."*

## BEICIO A MARCHOGAETH

Gwnaeth 149 o ymatebwyr (9.6%) sylwadau ar 'feicio a marchogaeth'. Roedd 97 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 32 yn 'cytuno' a chwech yn 'ansicr', ac roedd 14 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Roedd yr ymatebwyr yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y rhwydwaith o lonydd, llwybrau troed a llwybrau ceffylau o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Dywedodd rhai fod *"angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r rhwydweithiau o lonydd tawel, sy'n rhoi darlun cliriach o ymarferoldeb cyfleoedd mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys marchogaeth a beicio) i gefn gwlad, o fewn a thu allan i'r ardal gadwraeth arfaethedig"*. Teimlai llawer y dylid rhoi blaenoriaeth i rai gweithgareddau hamdden awyr agored yn hytrach nag eraill – er enghraifft, *"Ie – dylech annog cerdded, marchogaeth a beicio."* Mynegwyd pryderon y gallai fod *"beiciau cwad a beiciau yn corddi caeau"* yn ogystal â cherbydau 4x4. Mae ymatebwyr hefyd yn nodi bod yr ardal eisoes yn cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer hamdden awyr agored, ac yn cwestiynu a oes angen dynodiad er mwyn caniatáu i hyn barhau. Er enghraifft, *"Mae pobl eisoes yn ymgymryd â gweithgareddau hamdden, ac yn teithio o bob rhan o'r DU i gerdded, beicio, marchogaeth a chanŵio ac ati. Ni fydd creu Parc Cenedlaethol yn gwneud unrhyw wahaniaeth."*

## LLWYBRAU

Gwnaeth 129 o ymatebwyr (8.3%) sylwadau ar 'lwybrau'. Roedd 78 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 25 yn 'cytuno' ac wyth yn 'ansicr', ac roedd 18 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Siaradodd llawer o ymatebwyr am y rhwydwaith helaeth o hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed a llwybrau ceffyl sydd eisoes yn croesi'r ardal. Nododd y mwyafrif bod gan y llwybrau arwyddion da ar y cyfan, gan ddweud, *"Mae'n baradwys i gerddwyr a beicwyr, gyda llwybrau troed cyhoeddus ag arwyddion da."* Fodd bynnag, roedd eraill yn 'anghytuno', gan nodi *"nad yw llwybrau troed ag arwyddion clir"*. Mynegodd rhai bryder ynghylch cynnal a chadw llwybrau troed, gan nodi *"nad ydyn nhw'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar hyn o bryd"* ac felly *"mae'n debyg y byddai mwy o bobl yn arwain at fwy o dresmasu oddi ar y llwybrau, a mwy o broblemau gyda chŵn yn poeni defaid"*. Ond dywedodd eraill fod yna *"nifer o lwybrau cerdded da os ydyn nhw'n cael eu cynnal yn dda"*.

## BYWYD GWYLLT

Gwnaeth 96 o ymatebwyr (6.2%) sylwadau ar 'fywyd gwyllt'. Roedd 47 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 14 yn 'cytuno' ac 13 yn 'ansicr', ac roedd 22 yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau am y bywyd gwyllt a geir o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, a sut y gall gweithgareddau awyr agored ddarparu cyfleoedd i ymwelwyr a chymunedau lleol weld bywyd gwyllt. Mynegodd eraill bryderon ynghylch rhai mathau o hamdden awyr agored o bosibl yn tarfu ar fywyd gwyllt yn yr ardal, gan ddweud, *"Ni ddylid caniatáu beiciau modur, o ystyried y llygredd sŵn a'r aflonyddwch i fywyd gwyllt y maen nhw'n eu hachosi."* Fodd bynnag, teimlai llawer ei bod yn *"bwysig cael mynediad"* ond na ddylai hyn ddod *"ar draul bywyd gwyllt"*, ac yn enwedig dylid *"peidio ag aflonyddu ar ardaloedd sensitif i fywyd gwyllt, e.e. adar sy'n nythu ar y ddaear"*. Teimlai rhai fod *"cyfle ar gyfer hamdden awyr agored, ond pa effaith fydd hyn yn ei chael ar y bywyd gwyllt sydd heb ei amharu o'r blaen"*. Codwyd pryderon y byddai *"annog mwy o dwristiaeth yn cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt a ffermio"* a bod *"cam o'r fath yn peryglu'r cynefin naturiol, yr ecosystemau lleol a'r bywyd gwyllt yn gyffredinol"*.

## CHWARAEON DŴR

Cyfeiriodd 70 o ymatebwyr (4.5%) at ‘chwaraeon dŵr’. Roedd 52 o ymatebwyr yn ‘cytuno’n gryf’ bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 14 yn ‘cytuno’ ac un yn ‘ansicr’, ac roedd tri yn ‘anghytuno’ neu’n ‘anghytuno’n gryf’. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at chwaraeon dŵr amrywiol, o ganŵio i deithiau camlas, ymhlith llu o weithgareddau eraill. Dywedodd y mwyafrif eu bod yn credu bod gan ardal ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol ddigon o gyfleoedd i bobl ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon dŵr, y tu mewn i’r ffin ddrafft arfaethedig ac yn agos iawn ati. Ymatebodd eraill eu bod yn teimlo na fyddai Parc Cenedlaethol yn newid y ffaith y gellid defnyddio’r ardal ar gyfer chwaraeon dŵr, yn ogystal â gweithgareddau hamdden awyr agored eraill. Er enghraifft. *“Mae pobl eisoes yn ymgymryd â gweithgareddau hamdden, ac yn teithio o bob rhan o’r DU i gerdded, beicio, marchogaeth a chanŵio ac ati. Ni fydd creu Parc Cenedlaethol yn gwneud unrhyw wahaniaeth.”*

## TIRWEDD

Soniodd 69 o ymatebwyr (4.4% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) am ‘dirwedd’. Roedd 51 o ymatebwyr yn ‘cytuno’n gryf’ bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 13 yn ‘cytuno’ a neb yn ‘ansicr’, ac roedd pump yn ‘anghytuno’ neu’n ‘anghytuno’n gryf’. Pwysleisiodd ymatebwyr fod gan yr ardal *“olygfeydd gwych”* a’i bod *“yn ardal gerdded ardderchog, gyda golygfeydd sy’n eich caniatáu i weld am filltiroedd wrth edrych o gopa’r bryniau”*. Mynegodd eraill bryderon y dylid rheoli unrhyw fath o hamdden awyr agored mewn ffordd na fyddai’n effeithio ar y dirwedd. Er enghraifft, *“Dylid rheoli cyfleoedd er mwyn peidio ag achosi dirywiad yn y dirwedd, amrywiaeth y dulliau ffermio a’r rhwydwaith mawr o lonydd gwyrdd.”* Cynghorodd rhai i gymryd gofal – er enghraifft, *“Mae hamdden yn rhoi ei bwysau ei hun ar yr ardal o dirwedd hardd.”* Roedd y prif bryder a godwyd gan yr ymatebwyr hynny sy’n ‘anghytuno’ yn ymwneud â’r pwysau y gallai cynnydd mewn ymwelwyr eu rhoi ar yr ardal. Er enghraifft, *“Mae digon o bethau yn digwydd yn yr ardal heb gael miloedd o dwristiaid yma i ddifetha’r dirwedd.”* Roedd eraill yn teimlo *“ei bod yn dod â nifer enfawr o bobl, a bydd hyn yn creu pentrefi dibynnol, ac ni fydd gennym ni ardal o harddwch mwyach”*.

## CYFLOGAETH / YR ECONOMI

Soniodd 54 o’r ymatebion (3.5%) am ‘gyflogaeth / yr economi’. Roedd 28 o ymatebwyr yn ‘cytuno’n gryf’ bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 15 yn ‘cytuno’ a thri yn ‘ansicr’, ac roedd wyth yn ‘anghytuno’ neu’n ‘anghytuno’n gryf’. Credai llawer y byddai hamdden awyr agored o fudd i’r economi leol ac, felly, cyflogaeth. Teimlai’r mwyaf fod *“buddion economaidd hamdden awyr agored yn sylweddol”*, gan ddweud, *“Mae Prestatyn yn dref â statws Croeso i Gerddwyr, ac yn gweld y budd o fod yn rhan o rwydwaith o drefi Prydain Fawr sy’n hyrwyddo mynediad i gerddwyr, gan gynhyrchu incwm i fusnesau lleol.”* Teimlai eraill fod *“creu cyfleoedd gwaith i drigolion lleol yn hollbwysig”* ac mai’r *“meincnod yw Eryri a Seland Newydd, lle mae gweithgareddau awyr agored yn ysgogi’r economi a diwylliant”*. Gofynnodd rhai i’r dull gweithredu fod yn *“gynaliadwy”* a pheidio â chymryd *“mantais fasnachol”*. Roedd eraill yn cwestiynu a fyddai’r ymwelwyr sy’n cael eu denu gan y Parc Cenedlaethol posibl yn cyrraedd yn *“hunangynhaliol”* a thrwy hynny ddim yn helpu’r economi leol o gwbl. Roeddent hefyd yn cwestiynu’r diffyg seilwaith, gan bwysleisio, *“Sut allwch chi hyrwyddo ardal sy’n addas ar gyfer hamdden awyr agored heb fod y seilwaith yno?”*

## LLONYDDWCH

Soniodd 45 o ymatebwyr (2.9%) am 'lonyddwch'. Roedd 20 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, 17 yn 'cytuno' a chwech yn 'ansicr', ac roedd dau yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Adleisiodd yr ymatebwyr yr hyn a ddywedwyd am dawelwch yng Nghwestiwn 4a, gan fynegi teimladau bod ardal ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn lle o lonyddwch a thawelwch sy'n cynnig cyfle i ymlacio a dadflino mewn byd natur, gan fod o fudd i iechyd a llesiant. Dywedodd eraill, er bod yr ardal yn dawel ar hyn o bryd, efallai na fyddai hynny'n parhau i fod yn wir os na fydd y cynnydd posibl mewn twristiaeth yn cael ei reoli'n dda. Er enghraifft, roedd rhai yn *"pryderu y byddai mwy o ymwelwyr a mwy o weithgareddau hamdden awyr agored yn effeithio ar amgylchedd a llonyddwch yr ardal"*. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar awyr dywyll, gan ddweud bod *"yr awyr ddu yn fonws i wylwyr y sêr, a byddai cerddwyr wrth eu bodd â'r ardal"*.

## IECHYD MEDDWL

Gwnaeth 39 o ymatebwyr (2.5% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) sylwadau ar 'iechyd meddwl'. Roedd 32 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' fod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, tra oedd pedwar ymatebydd arall yn 'cytuno'. Roedd un ymatebydd yn 'ansicr', tra oedd dau ymatebydd yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' fod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mynegodd y mwyafrif o ymatebwyr farn sy'n cefnogi hamdden awyr agored fel peth cadarnhaol â buddion iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Er enghraifft, *"Mae hamdden awyr agored yn annog ffordd iach o fyw, yn cefnogi iechyd meddwl, ac yn arwain at ansawdd bywyd gwell."* Yn yr un modd, *"Mae cerdded ym myd natur yn fuddiol iawn i les meddyliol mewn byd sy'n creu mwyfwy o straen."* Roedd yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno' â'r casgliad bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored wedi codi pryderon, nid nad oedd unrhyw gyfleoedd, ond yn hytrach yr effaith y gallai mewnlifiad o ymwelwyr ei chael ar drigolion a chymunedau lleol. Er enghraifft, *"Yn ystod COVID-19, nid oedd yn ddiogel mynd â'r teulu allan am dro neu fynd beicio yn yr ardal gan fod y traffig yn ofnadwy."* Cododd eraill bryderon fel a ganlyn: *"Bydd y parc yn cael ei sefydlu i flaenoriaethu iechyd a llesiant yr ymwelwyr, heb unrhyw ystyriaeth i'r trigolion lleol na'r perchnogion tir*. *Rydw i, fy hun, yn teimlo dan straen meddwl aruthrol oherwydd bydd y parc yn cael ei orfodi arnom ni, ac yn aml yn cael nosweithiau pan nad ydw i'n gallu cysgu."*

## IECHYD CORFFOROL

Soniodd 35 o ymatebwyr (2.2% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) am 'iechyd corfforol'. Roedd 30 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, tri yn 'cytuno' a neb yn 'ansicr', ac roedd wyth yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr farn sy'n cefnogi hamdden awyr agored fel peth cadarnhaol. Er enghraifft, *"Mae'n lle gwych i bobl fwynhau'r awyr agored, a chael cyfle i fagu nerth newydd."* Yn yr un modd, *"Mae mannau i gerdded, rhedeg, beicio ac ati yn hynod o bwysig ar gyfer ffitrwydd ac iechyd meddwl da."* Roedd yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno' â'r casgliad bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored wedi codi pryderon, nid nad oedd unrhyw gyfleoedd, ond yn hytrach yr effaith y gallai mewnlifiad o ymwelwyr ei chael ar drigolion a chymunedau lleol. Er enghraifft, *"Bydd creu Parc Cenedlaethol newydd yn cynyddu twristiaeth, a'r traffig, ac felly'n cael effaith andwyol ar iechyd a llesiant trigolion sy'n dymuno mwynhau'r harddwch ar garreg eu drws."*

## DRINGO

Gwnaeth 21 o ymatebion (1.4%) sylwadau ar 'ddringo'. Roedd 17 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, un yn 'cytuno' a neb yn 'ansicr', ac roedd un yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Ychwanegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr ddringo neu chwaraeon creigiau / rhaffau at y rhestr o weithgareddau awyr agored eraill, tra esboniodd rhai eu barn ymhellach *"fod yr ardal yn cynnwys ardaloedd dringo pwysig fel Llangollen"*. Cyfeiriwyd at y *"cyfleoedd gwych ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden yn yr ardal arfaethedig – y rhai mwyaf nodedig yw chwaraeon padlo ar afon Dyfrdwy, pysgota yn Llyn Efyrnwy, dringo creigiau yn Nyffryn Eglwyseg, ochr yn ochr â beicio mynydd a heicio / cerdded mewn llawer o'r mannau agored"*.

## TREFTADAETH

Gwnaeth 16 o ymatebwyr (1% o gyfanswm yr ymatebion i Gwestiwn 4b) sylwadau ar 'dreftadaeth'. Roedd 12 o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, tri yn 'cytuno' a neb yn 'ansicr', ac roedd un yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn gyffredinol at y cyfoeth o ardaloedd hanesyddol ac ardaloedd treftadaeth o fewn ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol, yn amrywio o adeiladau hanesyddol i safleoedd treftadaeth ddiwydiannol. Gofynnodd ymatebwyr am i'r rhain gael eu hyrwyddo er mwyn hysbysu ymwelwyr a'r gymuned leol fel ei gilydd am gyfoeth treftadaeth yr ardal, gan ddweud, *"Gellir lluosi'r teithiau cerdded hyfryd presennol gan ddefnyddio arwyddion i helpu pobl i fwynhau'r ardal."*

## GWERSYLLA

Gwnaeth 12 o ymatebwyr (0.8%) sylwadau ar 'wersylla'. Roedd wyth o ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored, dau yn 'cytuno' a neb yn 'ansicr', ac roedd dau yn 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Teimlai'r ymatebwyr, er mai dim ond nifer fach ohonynt, y gellid defnyddio'r ardal ar gyfer gwersylla: *"Ie – oherwydd bod llawer o leoedd i wersylla, mynd ar deithiau cerdded neu ganŵio."* Roedd rhai'n teimlo efallai na fyddai hyn yn briodol o ystyried bod yr ardal yn cael ei ffermio'n bennaf ac, o'r herwydd, gallai gwersylla ymyrryd â gweithgareddau ffermio. Er enghraifft, *"Gall gwersylla gwyllt fod yn addas ar gyfer rhai ardaloedd mwy gwyllt yn yr Alban, ond lle mae tir yn cael ei ffermio, ei drin a'i bori, mae'n bosibl bod llawer o broblemau rheoli a diogelwch i'w hystyried."* Teimlai eraill y gallai hyn fod yn rhan o ymdrechion arallgyfeirio ffermydd, gan roi hwb i'r economi leol.

## Y CELFYDDYDAU / FFOTOGRAFFIAETH

Soniodd saith o ymatebwyr (0.5%) am 'y celfyddydau / ffotograffiaeth'. Mae'r holl ymatebion yn 'cytuno'n gryf' â'r casgliad bod gan yr ardal gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Er na roddwyd unrhyw reswm penodol, nodwyd gan yr holl ymatebwyr a grybwyllodd naill ai'r celfyddydau neu ffotograffiaeth y byddai'r ardal arfaethedig hon yn cynnig cyfleoedd. Gwnaed sylwadau bod yr ardal yn cynnwys *"adnodd gwerthfawr o grwpiau ac unigolion ym maes y celfyddydau creadigol ac addysg gymdeithasol / iechyd a llesiant"*.


## YMATEBION ERAILL

Roedd 642 o ymatebwyr (40.4%) yn nodi gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn. Mae enghreifftiau o'r math o ymateb sydd wedi'u categoreiddio yma yn cynnwys, *"Nid oes angen hamdden awyr agored arnom ni, mae angen inni gadw ein gwasanaethau cyhoeddus!"* a *"Dylid gadael y tir fel y mae ar hyn o bryd."* Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys, *"Mae'n ardal ffermio weithredol â chymunedau lleol cryf"* a *"Does dim angen y sŵn arnom ni"* ac *"Rydym ni'n poeni am golli ein hunaniaeth, a'r difrod a achosir i gefn gwlad."* Er bod yr ymatebion hyn yn cael eu nodi, nid ydynt yn ateb y cwestiwn mewn gwirionedd.

**<u>CWESTIWN 4C:</u>**


A YDYCH CHI'N MEDDWL Y DYLAI'R ARDAL ARFAETHEDIG FOD YN BARC CENEDLAETHOL?

- YDW
- YDW, OND GYDAG ADDASIADAU I'R FFINIAU ARFAETHEDIG
- NAC YDW
- DDIM YN GWYBOD




***Ffigur 7:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn meddwl y dylai'r ardal a gynigir fod yn Barc Cenedlaethol (1)*

Atebodd 1,894 o'r 1,911 o ymatebwyr yr holiadur y cwestiwn hwn. Atebodd 41.8% (792) 'ydw', 10.6% (201) 'ydw, ond gydag addasiadau i'r ffiniau arfaethedig', 43.7% (829) 'nac ydw' a 3.8% (72) 'ddim yn gwybod'.





***Ffigur 8:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn meddwl y dylai'r ardal a gynigir fod yn Barc Cenedlaethol (2)*

Pan gyfunir atebion 'ydw' ac 'nac ydw' i gael darlun cliriach ynghylch a yw ymatebwyr yn teimlo y dylai'r ardal a gynigir fod yn Barc Cenedlaethol, y canfyddiadau yw bod 54.5% (993) wedi dweud eu bod yn teimlo y dylai a 45.5% (829) wedi dweud eu bod yn teimlo na ddylai.

**CWESTIWN 5A:**


I BA RADDAU YDYCH CHI'N CYTUNO Â LLE MAE FFIN Y PARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG WEDI'I THYNNU?

- CYTUNO'N GRYF
- CYTUNO
- NIWTRAL
- ANGHYTUNO
- ANGHYTUNO'N GRYF
- ANSICR




***Ffigur 9:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi'i thynnu (1)*

Atebodd 1,877 o'r 1,911 o ymatebwyr yr holiadur y cwestiwn hwn. Atebodd 19% (339) 'cytuno'n gryf', atebodd 21% (376) 'cytuno', atebodd 16% (282) 'niwtral', atebodd 16% (291) 'anghytuno', ac atebodd 28% (516) 'anghytuno'n gryf'.




***Ffigur 10:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi'i thynnu (2)*

Pan gyfunir 'cytuno'n gryf' a 'chytuno', ac 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno', i gael darlun cliriach o'r graddau y mae ymatebwyr yn cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi'i thynnu, y canfyddiadau yw bod 47% (715) yn 'cytuno' a 53% (807) yn 'anghytuno'.

## CWESTIWN 5A, RHAN 2

Gofynnodd ail ran Cwestiwn 5a i ymatebwyr a oeddent yn dymuno ychwanegu unrhyw sylwadau pellach. Ychwanegodd 655 o ymatebwyr sylwadau pellach at eu dewis. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## ARDALOEDD NA DDYLID EU CYNNWYS YN Y PARC CENEDLAETHOL

Soniodd 32 o ymatebwyr (4.9%) am ardaloedd 'nad ydyn nhw eisiau eu cynnwys yn y Parc Cenedlaethol'. Roedd hyn yn cynnwys pan oedd ymatebwyr yn teimlo bod yr *"ardal gynlluniedig yn parhau i fod yn rhy fawr"*. Roedd eraill yn cynnwys ardaloedd cyffredinol na ddylid eu cynnwys gyda sylwadau megis *"ni ddylai'r ffiniau fynd mor bell i fyny â'r arfordir"* ac *"mae mynd mor bell i'r de yn ymddangos yn ddiangen"*. Yn ogystal â gwneud awgrymiadau cyffredinol, awgrymodd rhai ddileu ardaloedd penodol, gan nodi *"na ddylai Dyffryn Tanat fod yn rhan ohono"*.

## CYTUNO Â'R FFINIAU

Dywedodd 32 o ymatebwyr (4.9%) eu bod yn cytuno â'r ffiniau. Dywedodd rhai, *"Os oes rhaid iddo fod yn Barc Cenedlaethol, yna mae'r ffiniau'n gwneud synnwyr."* Roeddent yn meddwl hefyd *"eu bod yn ffiniau naturiol"*. Roedd mân bryderon yn cynnwys sylwadau fel "yr *unig her yw y bydd angen cysylltiadau mewnol a thrafnidiaeth gyhoeddus i wneud y ffiniau'n ystyrlon i ymwelwyr a phobl leol"*.

## ARDALOEDD ARFORDIROL

Gwnaeth 31 o ymatebwyr (4.7%) sylwadau ar 'ardaloedd arfordirol'. Gofynnodd y mwyafrif am i ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol gael eu hymestyn i'r gogledd i gynnwys ardaloedd o'r arfordir. Eglurodd ymatebwyr fod Twyni Gronant yn *"ardal fridio bwysig i'r môr-wennol fach"* ac yn *"gynefin i lyffant y twyni"*. Roedd yr ymatebion yn perthyn i'r holl ddetholiadau cychwynnol o 'gytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf', ond roeddent yn gofyn yn gyson i'r ardal arfordirol gael ei chynnwys o fewn y ffiniau arfaethedig ar gyfer unrhyw Barc Cenedlaethol newydd. Er enghraifft, *"Cytuno'n gryf, ond gyda chais i ailystyried cynnwys Talacre a Thwyni Gronant, safle o ddiddordeb gwyddonol triphlyg sy'n bwysig i fôr-wenoliaid a llyffantod y twyni, a hefyd cyfleoedd hamdden awyr agored eraill ar lan y môr."* Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr yn *"credu'n gryf y dylid cynnwys Twyni Tywod Gronant"*.

## MYNYDD MYNYLLOD

Soniodd 29 o ymatebwyr (4.4%) am 'Fynydd Mynyllod'. Pwysleisiodd y mwyafrif y dylid cynnwys Mynydd Mynyllod o fewn ffiniau arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Mynegwyd y farn hon gan rai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r ffiniau. Dywedodd rhai, *"Mae llawer o bobl yn fy nghymuned i wedi meddwl y dylid cynnwys Mynydd Mynyllod. Rwy'n cytuno gan ei fod yn ardal rwy'n rhedeg trwyddi, ac rwy'n mwynhau'r bywyd gwyllt ynddi."* Yn yr un modd, dywedwyd, *"NI ddylid eithrio'r mynyddoedd o'r enw Mynydd Mynyllod. Mae'r cyfleoedd hamdden yn eithriadol, ac mae'r harddwch naturiol yn eithriadol, er gwaethaf presenoldeb tyrbinau gwynt cymharol fach."* Dywedodd eraill y dylid cynnwys Mynydd Mynyllod i warchod bywyd gwyllt, gan ddweud bod *"Mynydd Mynyllod uwchben Llandrillo yn ardal fridio bwysig i'r gylfinir, ac y dylid ei gynnwys yn y cynigion"*.

## MYNYDD HELYGAIN

Soniodd 26 o ymatebwyr (4%) am 'Fynydd Helygain'. Roedd y mwyafrif yn teimlo y dylid cynnwys Mynydd Helygain o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd llawer eu bod wedi'u *"siomi braidd am y ffaith bod Mynydd Helygain a Dyffryn Chwiler wedi'u heithrio"* a'u bod yn credu *"y gellid rhoi ystyriaeth bellach i gynnwys Mynydd Helygain fel ardal â digonedd o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cerdded bryniau mwy cymedrol yn agos at ei gilydd"*. Ymatebodd eraill trwy bwysleisio cymaint *"y mae angen i Fynydd Helygain fod yn rhan o'r parc"*. Dywedodd eraill eu bod yn deall pam nad yw Mynydd Helygain wedi'i gynnwys o fewn ffiniau posibl y Parc Cenedlaethol, gan nodi yn yr ymgynghoriad cychwynnol eu bod yn *"cwestiynu eithrio Pentre Helygain"* ond "*bellach yn deall y rhesymau dros ei eithrio"*.

## DYFFRYN DYFRDWY

Soniodd 23 o ymatebwyr (3.5%) am 'Ddyffryn Dyfrdwy'. Teimlai'r mwyafrif y dylid cynnwys Dyffryn Dyfrdwy i gyd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd llawer yr hoffent gynnwys *"holl ardal Dyffryn Dyfrdwy, rhwng Cynwyd a Llandrillo, gan fod y dyffryn yn rhan o barhad gweledol yr ardal a hefyd yn cynnwys y mwyafrif o asedau hanesyddol yr ardal"* ac roeddent yn credu ei bod yn *"hanfodol bwysig i holl ardal Dyffryn Dyfrdwy, o Gorwen i Landerfel, HEFYD gael ei chynnwys yn y Parc Cenedlaethol!"*.

## ARDALOEDD HANESYDDOL

Gwnaeth 20 o ymatebwyr (3.1%) sylwadau ar 'ardaloedd hanesyddol'. Gofynnodd y mwyafrif am gynnwys ardaloedd eraill. Nid oedd y rhain yn gyfyngedig i ranbarth penodol, ond roedd ceisiadau i

gynnwys ardaloedd oherwydd eu harwyddocâd hanesyddol, megis o Ddyffryn Efyrnwy. Gofynnodd rai i'r ffin *“gynnwys lled cyfan y dyffryn, a mynd ar hyd ei ochr fwyaf deheuol. Byddai hyn yn diogelu lleoliad yr eglwys restredig Gradd 1 ym Meifod, a dylai hefyd warchod safle castell tywysogion Powys ym Mathrafal.”* Awgrymodd eraill y dylai *“Rhuthun gael ei chynnwys”* oherwydd *“mae'n llawn adeiladau hanesyddol, a heb ei gyffwrdd, felly dylai fod yn fan y mae ymwelwyr yn cael ei gyfeirio ato. Mae'n borth i dwristiaid o'r ardaloedd arfordirol gogleddol.”*

## DYFFRYN EFYRNWY

Soniodd 17 o ymatebwyr (2.6%) am ‘Ddyffryn Efyrnwy'. Teimlai'r ymatebwyr y dylid cynnwys Dyffryn Efyrnwy i gyd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Er enghraifft, *“Ni ddylid tynnu ffin yr ardal ar hyd ffordd. Dylid cynnwys Dyffryn Efyrnwy i gyd”* a *“Dylai Dyffryn Efyrnwy gynnwys lled cyfan y dyffryn, a mynd ar hyd ei ochr fwyaf deheuol.”* Fodd bynnag, nid oedd rhai'n teimlo ei bod yn bwysig cynnwys Llyn Efyrnwy o fewn y ffiniau arfaethedig, gan ddweud y dylid *“tynnu ardal Llyn Efyrnwy, a'i chynnwys yn lle ym Mharc Cenedlaethol Eryri”*. Dywedodd eraill, *“Mae rhai o'r ardaloedd, megis Llyn Efyrnwy, eisoes wedi'u dynodi'n ardaloedd o harddwch naturiol, felly nid oes angen eu cynnwys yn y cynnig.”*

## Y BERWYN

Soniodd 15 o ymatebwyr (2.3%) am ‘y Berwyn'. Gofynnodd llawer o ymatebwyr am gynnwys y Berwyn o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig, gan bwysleisio pwysigrwydd hyn. Amlygodd ymatebwyr fod *“angen diogelu'r Berwyn”*, yn benodol ar ffurf *“rhyw fath o warchodaeth cynllunio”*, gan nodi *“ac, am y rheswm hwnnw, mae'n dda ei gynnwys ar y cam hwn”*.

## DYFFRYN MEIFOD

Soniodd 15 o ymatebwyr (2.3%) am ‘Ddyffryn Meifod'. Teimlai pob ymateb y dylid cynnwys Dyffryn Meifod cyfan o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd llawer eu bod yn credu *“y dylid cynnwys holl led Dyffryn Efyrnwy, yn Nyffryn Meifod, yn y parc”* a gofynnodd eraill, *“Pam nad yw'n cynnwys ardal Meifod a Dyffryn Efyrnwy?”*

## ARDALOEDD ERAILL I'W CYNNWYS

Gofynnodd 99 o ymatebwyr (15.1%) i ardaloedd eraill gael eu cynnwys yn y parc. Fel yn y thema ddiwethaf, roedd rhai ymatebion yn eithaf cyffredinol – er enghraifft, sylwadau fel *“roedd angen cynnwys ardal fwy”*. Roedd eraill yn fwy penodol – er enghraifft, sylwadau fel *“dylai Mynydd Hiraethog gael ei gynnwys”*. Ardaloedd eraill y gofynnodd yr ymatebwyr am gael eu cynnwys oedd yr Hôb, Caergwrle, Rhuthun, Llyn Brenig, Rhuddlan, Mynydd Hiraethog, Corwen, tiriogaeth Owain Glyndŵr, Gwyddelwern, Efenechtyd, Twyni Tywod Talacre a Chlawdd Offa, i enwi ond ychydig.

## SYLWADAU CYFFREDINOL NAD YDYNT YN YMWNEUD AG ARDAL

Darparodd 174 o ymatebwyr (26.6%) ‘sylwadau cyffredinol had ydynt yn seiliedig ar ardal'. Holodd ymatebwyr pam fod yr ardal *“wedi ehangu o'r ardal a gynigiwyd yn wreiddiol”*. Ymhlith y sylwadau eraill nad oeddent yn seiliedig ar yr ardal oedd *“Pam y lleoliad hwnnw? Pwy benderfynodd cymeradwyo hynny?”* ac *“Mae Cymru'n prysur ddod yn wlad o ‘barciau thema', wedi'u cynllunio i annog gwacáu torfol o ardaloedd trefol.”* Ar yr un pryd, roedd eraill yn nodi *“y dylai'r Parc*

*Cenedlaethol warchod safle nythu'r gylfinir"* ac yn teimlo *"y byddai hyn yn gam enfawr ymlaen i economi'r ardal"*.

## Y BROSES

Gwnaeth 32 o ymatebwyr (4.9%) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi. Soniodd yr ymatebwyr am yr un pryderon a godwyd yn y cwestiynau cynharach, a oedd yn cynnwys herio sut mae'r cwestiynau wedi'u geirio, diffyg eglurder, a sut y dewiswyd y ffiniau. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod y broses yn *"gweithio'n dda"* ac yn tynnu sylw at y ffaith *"bod y crynodeb o'r dystiolaeth wedi'i ymchwilio'n dda"*. Roedd eraill yn teimlo i'r gwrthwyneb oherwydd eu bod yn meddwl bod *"diffyg eglurder a thryloywder ynghylch effaith Parc Cenedlaethol newydd"*.


## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Unwaith eto, pwysleisiodd 161 o ymatebwyr (24.6%) eu gwrthwynebiad i'r Parc Cenedlaethol. Yn hytrach nag ateb y cwestiwn hwn, roedd llawer o'r ymatebion yn defnyddio'r gofod i godi eu gwrthwynebiad i Barc Cenedlaethol newydd. Dywedodd rhai yn syml *"nad ydynt am gael Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru"*. Aeth eraill ymlaen i egluro eu bod yn teimlo *"y dylid ystyried ardaloedd nad ydynt yn yr AHNE ar hyn o bryd ar gyfer y statws hwnnw yn hytrach nag eu cynnwys mewn Parc Cenedlaethol"*. Dywedodd rhai eu bod yn *"cytuno â'r ffiniau"*, sy'n cynrychioli *"tirwedd ac amgylchedd diwylliannol deniadol"*, ond yn cwestiynu'r angen am Barc Cenedlaethol newydd, gan nodi eu bod yn *"methu â gweld sut mae hynny'n unrhyw gyfiawnhad dros sefydlu Parc Cenedlaethol*".

**CWESTIWN 5B:**


MAE'R ARDAL O AMGYLCH PWLL-GLAS A DYFFRYN DYFRDWY UCHAF BELLACH WEDI'I CHYNNWYS YN YR ARDAL YMGEISIOL. A YDYCH YN CYTUNO Â'I CHYNNWYS?

- CYTUNO'N GRYF
- CYTUNO
- NIWTRAL
- ANGHYTUNO
- ANGHYTUNO'N GRYF
- ANSICR




***Ffigur 11:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys yr ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf yn yr ardal ymgeisiol (1)*

Atebodd 1,856 o'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur y cwestiwn hwn. Roedd 22.5% (379) yn 'cytuno'n gryf', 21.7% (366) yn 'cytuno', 23.4% (394) yn teimlo'n 'niwtral', 14.4% (242) yn 'anghytuno' a 18% (304) yn 'anghytuno'n gryf', ac roedd hefyd 171 o ymatebwyr a ddewisodd 'ansicr' ar gyfer eu hateb.




***Ffigur 12:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys yr ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf yn yr ardal ymgeisiol (2)*

Pan gyfunir 'cytuno'n gryf' a 'chytuno', ac 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno', er mwyn rhoi darlun clir o'r graddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys yr ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf yn yr ardal ymgeisiol, mae 57.7% (745) yn 'cytuno' a 42.3% (546) yn 'anghytuno'.

## CWESTIWN 5B, RHAN 2

Roedd ail ran Cwestiwn 5b yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn dymuno ychwanegu unrhyw sylwadau pellach at y datganiad canlynol: *"Mae'r ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf bellach wedi'i chynnwys yn yr ardal ymgeisiol."* Ychwanegodd 297 o ymatebwyr sylwadau pellach at yr hyn a ddewiswyd ganddynt. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac wedi'u grwpio yn ôl themâu fel y dangosir isod.

## CYTUNO

Dywedodd wyth o ymatebwyr (2.7%) eu bod yn 'cytuno' y dylai'r ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy Uchaf gael ei chynnwys o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. O'r ymatebwyr sy'n 'cytuno'n gryf', nid oeddent wedi mynd ymhellach na dim ond cytuno ag ateb byr. Er enghraifft, *"Rwy'n cytuno â'u cynnwys gan fod yr ardaloedd hyn hefyd yn ardaloedd â golygfeydd hardd."* Aeth y rhai sy'n 'cytuno' ymlaen i ofyn am gynnwys mwy o dir. Dywedodd rhai eu bod yn 'cytuno', ond gwnaethant ofyn am *"gynnwys Llanfair Dyffryd Clwyd a Phwll-glas i gyd er mwyn sicrhau bod rheolaeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a'r nodweddion cysylltiedig, yn gydlynol"*. Tynnodd eraill sylw at y ffaith bod *"defnyddio'r ffordd fel ffin y parc yn torri'r gymuned leol yn ei hanner, ac yn eithrio hanner SoDdGA Craig Adwy-wynt a Thŷ Coed Eyarth a Chilygroeslwyd"*.

## ANGHYTUNO

Dywedodd 15 o ymatebwyr (5.1%) eu bod yn 'cytuno' y dylai'r ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy uchaf gael ei chynnwys o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd rhai fod y

ffin, fel y'i lluniwyd, yn *"rhannu'r pentref yn ei hanner"* a hefyd yn *"torri drwy'r SoDdGA yn yr ardal"*, a gofynnwyd iddi gael ei newid. Awgrymodd y mwyafrif na ddylid cynnwys yr ardal, yn benodol ar y sail nad ydynt am i'r ardal gael ei newid: *"Dylai'r ardal gyfan aros fel y mae ar hyn o bryd. Ac ni ddylid ei labelu yn Barc Cenedlaethol."* Roedd rhai'n gwrthwynebu oherwydd y mwynau yn yr ardal, a'r posibilrwydd o'u cloddio yn ddiweddarach.

## CYNNWYS RHAGOR O ARDALOEDD

Gofynnodd 18 o ymatebwyr (6.1%) am 'gynnwys rhagor o ardaloedd'. Gofynnodd llawer am gynnwys fwy o dir o fewn y parc, heb nodi'r ardaloedd yr hoffent eu cynnwys, ac roedd rhai'n dweud *"po fwyaf yw'r ardal, y mwyaf yr effaith"* a *"pho fwyaf o'n rhanbarth, o'n gwlad, ac o'n planed y gallwn ni ei hamddiffyn, y gorau y byddwn ni i gyd!"*. Nododd eraill yr ardal neu ardaloedd yr oeddent yn gofyn am gael eu cynnwys, megis *"dylid cynnwys Mynydd Mynyllod"*.

## SYLWADAU CYFFREDINOL GYDA SYLWADAU AR YR ARDAL

Darparodd 45 o ymatebwyr (15.2%) 'sylwadau cyffredinol gyda sylwadau ar yr ardal'. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau megis, *"Rwy'n teimlo y dylid cynnwys yr holl ardaloedd ymgeisiol sy'n cynnig cyfleoedd hamdden, cadwraeth bywyd gwyllt a hwb economaidd"* a *"Byddai angen imi weld y sail resymegol dros gynnwys Pwll-glas."* Ni nododd yr ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ychwanegu ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy uchaf a Phwll-glas.

## SYLWADAU CYFFREDINOL HEB SYLWADAU AR YR ARDAL

Darparodd 45 o ymatebwyr (15.2%) 'sylwadau cyffredinol heb wneud sylwadau cyffredinol ar yr ardal'. Er enghraifft, *"sicrhau bod ffiniau SoDdGA cyfan yn cael eu cynnwys yn yr ardal ymgeisiol"*, sy'n gofyn am gynnwys ardaloedd ond nad yw'n nodi pa ardaloedd penodol. Mynegodd eraill rwystredigaeth ynglŷn â'r gost, gan nodi, *"Mae'n ymddangos ei fod yn wastraff llwyr o arian y trethdalwyr, ar gynllun nad oes ei angen, neu sydd ag unrhyw fanteision o ystyried y costau!"* Eglurodd llawer nad oeddent yn adnabod yr ardal. Er enghraifft, *"Nid ydw i'n adnabod yr ardal hon yn ddigon da i wneud sylwadau."* Cododd eraill ymatebion tebyg i'r rhai a roddwyd i gwestiynau blaenorol: *"Mae Cymru'n lle prydferth, ond mae'r wlad i gyd yn bert am resymau gwahanol."*

## Y BROSES


Gwnaeth pedwar ymatebydd (1.4%) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi. Roedd y sylwadau hyn yn cwmpasu'r un pryderon a godwyd yn y cwestiynau cynharach, a oedd yn cynnwys cwestiynu lefel yr wybodaeth a ddarparwyd – *"Rwy'n ansicr nes bod y manylion cudd ar gael"* – a lefel yr ymgynghori *"Ni welodd CNC fod angen ymgynghori ym Mhwll-glas."* Roedd y sylwadau hefyd yn cwestiynu sut mae'r cwestiwn yn cael ei bortreadu: *"Mae'n gwestiwn sydd wedi'i eirio'n wael – dim ond rhan FACH IAWN o EA20 ydyw."*

## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Unwaith eto, dywedodd 84 o ymatebwyr (28.3%) nad oeddent o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol. Mae'r mwyafrif yn gwrthod y cysyniad o Barc Cenedlaethol, rhai â rhesymau ac eraill hebddynt. Yn syml, mae'r mwyafrif yn gwrthod y cysyniad yn llwyr, gan ddweud eu bod yn *"anghytuno â'r cysyniad o Barc Cenedlaethol"*.


**CWESTIWN 5C:**

NID YW'R ARDALOEDD CANLYNOL WEDI'U CYNNWYS YN YR ARDAL YMGEISIOL: TWYNI GRONANT, DYFFRYN CLWYD, MYNYDD HELYGAIN, MYNYDD YR HÔB A MYNYDD MYNYLLOD. I BA RADDAU YDYCH CHI'N CYTUNO Â'R RHAIN YN CAEL EU HEITHRIO?




**Ffigur 13:** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o'r ardal ymgeisiol (1)*

Atebodd 1,834 o'r 1,911 a ymatebodd i'r holiadur y cwestiwn hwn. Roedd 16.9% (271) yn 'cytuno'n gryf' a 15.9% (255) yn 'cytuno', roedd 35.7% yn teimlo'n (574) 'niwtral', ac roedd 15.4% (247) yn 'anghytuno' ac 16.1% (258) yn 'anghytuno'n gryf'. Roedd 229 yn teimlo'n 'ansicr'.




***Ffigur 14:*** *I ba raddau y mae ymatebwyr yn cytuno y dylid eithrio Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o'r ardal ymgeisiol (2)*

Pan gyfunir 'cytuno'n gryf' a 'chytuno', ac 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno', i gael darlun cliriach o'r graddau y mae ymatebwyr yn cytuno ag eithrio Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o'r ardal ymgeisiol, fe ganfuwyd bod 51% (526) yn 'cytuno' a 49% (505) yn 'anghytuno'.

## CWESTIWN 5C, RHAN 2

Roedd ail ran Cwestiwn 5c yn gofyn i'r ymatebydd a oedd am ychwanegu unrhyw sylwadau pellach. Ychwanegodd 485 o ymatebwyr sylwadau pellach at yr hyn a ddewiswyd ganddynt. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus ac wedi'u grwpio yn ôl themâu fel y dangosir isod.

## CYTUNO

Dywedodd 50 o ymatebwyr (10.3%) eu bod yn 'cytuno' ag eithrio'r ardal o amgylch Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Ychydig iawn a roddodd unrhyw fanylion neu resymau pam y teimlent y dylid eithrio'r ardaloedd. Dywedodd rhai yn syml, *"Ni ddylen nhw fod mewn Parc Cenedlaethol."* Rhoddodd rhai resymau i gefnogi eu barn, gan nodi eu bod yn meddwl, *"Mae'r gweithgarwch diwydiannol yn rheswm dros beidio â chynnwys yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd, ond gellid adolygu hynny yn y dyfodol."* Cyfeiriodd eraill at gynnwys mwynau'r ardaloedd y bwriedir eu heithrio, gan ddweud, *"Cefnogir eithrio Mynydd Helygain a'r chwareli presennol yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Helygain (gan gynnwys Chwarel Cefn Mawr, a Chwarel y Graig yn Sir Ddinbych)*."

## ANGHYTUNO

Dywedodd 177 o ymatebwyr (36.5%) eu bod yn anghytuno ag eithrio'r ardal o amgylch Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o ffin ddrafft

arfaethedig y Parc Cenedlaethol. O’r 177 o ymatebwyr yn y categori ‘anghytuno’, roedd tri ymatebydd yn ‘cytuno’n gryf’ y dylid eithrio’r ardaloedd, roedd pump yn ‘cytuno’, roedd 58 yn ‘anghytuno’ ac roedd 93 yn ‘anghytuno’n gryf’.

- **TWYNI GRONANT**

Teimlai llawer o ymatebwyr y dylid cynnwys Twyni Gronant, heb roi rhesymau heblaw am ei bod *“yn ardal unigryw ac y dylid ei chynnwys”*. Rhoddodd eraill resymau dros gynnwys Twyni Gronant fel *“maen nhw’n gartref i fflora a ffawna pwysig”*. Dywedodd un: *“Mae cytref y môr-wennol fach a llyffant y twyni yw’r rhywogaethau amlycaf, ond ceir madfallod y tywod a rhai rhywogaethau o’r urdd Lepidoptera sy’n benodol i’r cynefin hefyd.”*

- **DYFFRYN CLWYD**

Teimlai llawer o ymatebwyr y dylid cynnwys Dyffryn Clwyd, heb roi unrhyw resymau pam, gan ddweud nad ydynt *“yn deall pam fod Dyffryn Clwyd yn cael ei eithrio”*. Rhoddodd eraill resymau pam eu bod yn teimlo y dylid cynnwys Dyffryn Clwyd megis: *“Fel un o gyn-drigolion Llanelwy, ag atgofion melys o lawer o wibdeithiau gweithgareddau awyr agored yn ardal brydferth Dyffryn Clwyd, byddwn i’n argymell yn fawr ei gynnwys.”* Nodwyd hefyd: *“Er bod bryngaerau trawiadol Bryniau Clwyd wedi’u cynnwys, nid yw’r trefi canoloesol, ystadau, y parcdiroedd a’r systemau caeau islaw yn y dyffryn wedi’u cynnwys, ac mae hynny’n drueni mawr.”* Roedd rhai’n cytuno y dylid eithrio Dyffryn Clwyd, gan nodi *“nad yw’n addas”* ac *“mae’n well ei chadw fel ardal ar gyfer amaethyddiaeth”*, ond yn galw am gynnwys ardaloedd eraill: *“Roeddwn i’n gobeithio y byddai Helygain yn cael ei gynnwys gan ei bod yn ardal hynod ddiddorol o’n gorffennol diwydiannol.”* Cynigiodd eraill safbwyntiau yn ymwneud ag un neu ddwy o’r ardaloedd a eithriwyd. Er enghraifft, *“Rwy’n anghytuno’n gryf ag eithrio Mynydd Helygain a Thwyni Gronant. Rwy’n niwtral am y tair ardal arall.”*

- **MYNYDD HELYGAIN**

Gofynnodd ymatebwyr i Fynydd Helygain gael ei eithrio o’r Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd llawer, *“Mae mynydd a chomin Helygain yn ardal unigryw sydd â rhagor o fuddion i iechyd meddwl na llawer o’r ardaloedd eraill sy’n cael eu cynnwys yn y parc.”*

- **MYNYDD YR HÔB**

Gofynnodd ymatebwyr i Fynydd yr Hôb gael ei gynnwys o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd rhai, *“Rwy’n meddwl y dylid cynnwys Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain a Mynydd yr Hôb gan fod y rhain yn ardaloedd gwych i’w harchwilio, ac yn cael eu ffermio’n ddwys, felly mae angen eu gwarchod er mwyn achub y rhywogaethau prin a geir yno.”*

- **MYNYDD MYNYLLOD**

Gofynnodd ymatebwyr i Fynydd Mynyllod gael ei gynnwys o fewn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd rhai, *“Ni alla i ddeall y sail resymegol dros eithrio Mynydd Mynyllod, sy’n ardal hardd ac sydd â chyfoeth o hanes diwylliannol a bywyd gwyllt, gan gynnwys dwysedd uchel o gylfinirod sy’n bridio.”*

## CYNNWYS RHAGOR O ARDALOEDD

Gofynnodd 107 o ymatebwyr (22.1%) am gynnwys rhagor o ardaloedd. Roedd y mwyafrif o’r rhain yn cynnwys yr ardaloedd y soniwyd amdanynt yn y cwestiwn, sef o amgylch Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod, ond gofynnwyd am gynnwys ardaloedd eraill hefyd. Teimlai rhai ymatebwyr y dylid ehangu’r ardal, heb nodi’r ardaloedd newydd

y dylid eu cynnwys na pham. Dywedodd rhai, *“Po fwyaf yr ardal sy’n cael ei hychwanegu, gorau oll.”* Eglurodd eraill sut y dylai ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol gynyddu a pha ardaloedd dylai gael eu cynnwys. Dywedodd ambell i unigolyn, *“Mae’r ardal ymgeisiol yn rhy fach”* a *“Dylai gynnwys yr ardal sy’n ymestyn trwy Gaergwrle i Gaer Estyn. Mae hyn yn cyd-fynd yn glir ag amcan Parc Cenedlaethol.”* Yn yr un modd, dylid cynnwys *“iseldiroedd Caerwys”* oherwydd bod yr ardal hon yn *“bwysig ar gyfer pathewod, ystlumod a choetiroedd clychau’r gog llydanddail brodorol”*. Dywedodd eraill, *“Pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei sefydlu, dylid cynnwys yr ardaloedd hyn.”*

## EITHRIO RHAGOR O ARDALOEDD

Roedd wyth ymatebydd (1.7%) am ‘eithrio rhagor o ardaloedd’. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i awgrymu y dylid eithrio pob ardal, tra gofynnodd eraill am eithrio Mynydd Rhiwabon a Mynydd Helygain. Gofynnodd rhai hefyd i Bryniau Clwyd gael eu heithrio, ac egluron nhw fod y rhain yn wahanol iawn i Ddyffryn Clwyd: *“Mae Bryniau Clwyd yn wahanol iawn i Ddyffryn Clwyd. Rwy’n meddwl y dylai’r parc fod ar gyfer y mynyddoedd i lawr i Langollen yn unig.”* Gofynnon nhw hefyd am eithrio gogledd Powys, gan nodi *“Dylid eithrio gogledd Powys o’r ardal ymgeisiol; does dim angen Parc Cenedlaethol sy’n cael ei redeg gan y llywodraeth er mwyn cadw ein hardal yn gyfan ac yn hardd.”*

## SYLWADAU CYFFREDINOL GYDA SYLWADAU AR YR ARDAL

Darparodd 81 o ymatebwyr (16.7%) ‘sylwadau cyffredinol gyda sylwadau ar yr ardal’. Dywedodd rhai, *“Mae angen i’r parc arfaethedig gynnwys rhan o arfordir y Gogledd er mwyn cynnwys Twyni Gronant, a’r gytref o fôr-wenoliaid bach.  Hefyd mae hanes Talacre yn agwedd bwysig ar yr ardal hon.”* Mae hyn yn cyfeirio at yr ardaloedd a allai fod wedi’u heithrio, o ystyried barn yr ymatebydd. Dywedodd eraill, *“Mae ardal Mynydd Mynllod yn llawer rhy brydferth i beidio â chael ei chynnwys.”* Ni nododd yr ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r ardal sy’n cael ei heithrio, felly nid ydynt yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd yn yr holiadur.

## SYLWADAU CYFFREDINOL HEB SYLWADAU AR YR ARDAL

Darparodd 119 o ymatebwyr (24.5%) ‘sylwau cyffredinol heb wneud sylwadau ar yr ardal’. Dywedodd rhai ei bod yn *“ardal enfawr – does arni ddim angen yr amddiffyniad hwn”* ac *“nid oes ei angen ac ni all Cymru ei fforddio”*. Nid yw’r ymatebion yn nodi a yw’r ymatebydd yn cytuno neu’n anghytuno â’r ardal sy’n cael ei heithrio.

## Y BROSES

Gwnaeth naw ymatebydd (1.9%) sylwadau am y ‘broses’ sy’n mynd rhagddi. Roedd rhai o’r ymatebion hyn yn beirniadu’r cwestiwn – er enghraifft, *“Mae angen eglurhad ar y cwestiynau arweiniol”* – a’r broses ymgynghori, *“Rwy’n credu nad yw’r adroddiadau yn gwneud achos digonol dros eithrio’r ardaloedd hyn.”* Dywedodd eraill eu bod *“yn anghytuno â’r Parc Cenedlaethol, ac mae’r holiadur hwn yn unochrog o blaid cael Parc Cenedlaethol”*.

## NA I’R PARC CENEDLAETHOL

Unwaith eto, dywedodd 51 o ymatebwyr (10.5%) nad oeddent o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol. Roedd rhai sylwadau yn gwrthod y cysyniad o Barc Cenedlaethol yn gyfan gwbl. Roedd rhai yn nodi rhesymau dros wrthod y cysyniad, tra oedd eraill dim. Ymhlith y rhesymau a rannwyd oedd,

*“Rwy’n anghytuno â Pharc Cenedlaethol newydd gan fy mod i’n meddwl y gellid gwario arian yn well ar ddatrys problemau cyfredol.”* Hefyd: *“Does dim angen pedwerydd Parc Cenedlaethol ac mae’n syniad hollol wirion: mae’r tri pharc arall yn cael trafferthion ariannol.”* Gwrthododd y mwyafrif y cysyniad yn llwyr, gyda llawer yn dweud, *“Nid ydym ni am weld yr ardaloedd hyn yn dod yn Barc Cenedlaethol.”*

**CWESTIWN 5D:**

A OES GENNYCH UNRHYW SYLWADAU ERAILL AM FFINIAU’R ARDAL YMGEISIOL?

Cafwyd 497 o ymatebion i Gwestiwn 5d. Mae’r atebion wedi’u dadansoddi’n ofalus, ac mae’r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i’r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## ANGHYTUNO

Dywedodd 108 o ymatebwyr (21.7%) eu bod yn ‘anghytuno’ â ffiniau ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Manteisiodd llawer ar y cyfle i bwysleisio’u barn y dylid cynnwys yr ardaloedd o amgylch Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod o fewn y ffiniau. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai ardaloedd eraill gael eu cynnwys yn y ffin ddrafft arfaethedig, neu eu heithrio ohoni. Er enghraifft, dywedodd rhai, *“Ystyriwch gynnwys rhannau o Gamlas Trefaldwyn”* neu, i’r gwrthwyneb, dywedodd eraill, *“Ni ddylai’r parc gynnwys gogledd Sir Drefaldwyn.”* Gofynnodd ambell i ymatebydd am eithrio unrhyw ardaloedd ym Mhowys, megis *“does dim angen cynnwys gogledd Powys”*. Rhoddodd rhai rhesymau i gefnogi eu barn, tra oedd eraill yn gofyn am beidio â chynnwys ardal benodol yn unig.  Awgrymodd rhai y dylai’r ardal *“ymestyn mwy i’r de a’r dwyrain”*.

## CYNNWYS RHAGOR O ARDALOEDD

Roedd 66 o ymatebwyr (13.3%) am gynnwys rhagor o ardaloedd. Roedd y mwyafrif o’r rhain yn cynnwys yr ardaloedd a grybwyllwyd yng Nghwestiwn 5c, sef o amgylch Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod, ond soniwyd hefyd am ardaloedd eraill i’w cynnwys. Er enghraifft, *“Dylid cynnwys y calchbalmant yng Nghoed Cilygroeslwyd a Galchog (Efenechtyd), a Thwyni Talacre.”* Yn yr un modd, *“Hoffem pe bai’n cynnwys mwy o dir, gan gynnwys ein fferm”* ac *“Mae angen cynnwys bryngaerau Caer Drewyn a Moel Fodig.”* Teimlai rhai ymatebwyr y dylid ehangu’r ardal, heb nodi’r ardaloedd newydd y dylid eu cynnwys na pham. Teimlai rhai, *“Po fwyaf yr ardal sy’n cael ei hychwanegu, gorau oll.”* Eglurodd eraill sut y dylai ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol ehangu a pha ardaloedd y dylid eu cynnwys. Er enghraifft, *“Mae’r ardal ymgeisiol yn rhy fach a dylai gynnwys yr ardal sy’n ymestyn trwy Gaergwrle i Gaer Estyn. Mae hyn yn cyd-fynd yn glir ag amcan Parc Cenedlaethol.”*

## SEILWAITH

Soniodd 33 o ymatebwyr (6.6%) am ‘seilwaith’. Y prif feysydd y soniodd ymatebwyr amdanynt oedd lleoedd parcio, ffyrdd a thoiledau, ac roedd eu pryderon yn ymwneud ag absenoldeb y cyfleusterau hyn a’u hansawdd. Wrth wneud sylwadau ar feysydd parcio, teimlai ymatebwyr yn gyffredinol nad oedd digon o leoedd parcio o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Dywedodd rhai, *“Nid oes digon o leoedd parcio na chyfleusterau cyhoeddus i ddarparu ar gyfer mewnlifiad o dwristiaid i’r ardal.”* Roedd ffyrdd yn bryder i ymatebwyr, gyda llawer yn dweud,

*"Rydym ni'n byw ar y ffyrdd anghofiedig."* Roedd ymatebwyr yn pryderu am y diffyg toiledau cyhoeddus ar draws ardal ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol a'r ffaith *"bod modd dod o hyd i dystiolaeth yn hawdd bod twristiaid yn mynd i'r toiled ar lwybrau cyhoeddus, neu'n agos atynt, oherwydd diffyg cyfleusterau cyhoeddus"*. Nid oedd unrhyw ymatebion cadarnhaol yn ymwneud â chyflwr, neu argaeledd, ffyrdd, meysydd parcio neu doiledau cyhoeddus o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol.

## MAINT ARFAETHEDIG Y PARC

Cyfeiriodd 29 o ymatebwyr (5.8%) at 'faint arfaethedig' y Parc Cenedlaethol. Roedd y mwyafrif o'r farn bod ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol yn *"rhy fawr"* ac yn *"helaeth"*. Mynegodd eraill farn wrthgyferbyniol, gan ddweud, *"Gwnewch yr ardal yn fwy."* Roedd rhai (er eu bod yn lleiafrif) wedi rhoi rhesymau i gefnogi eu barn, gan nodi, er enghraifft, fod yr ardal *"yn llawer rhy fawr – mae gormod o broblemau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Mae mwy o drefi a phobl yn yr ardal yn y gogledd, ond yn y de mae poblogaeth lai ac mae angen mynediad oherwydd llai o ffyrdd da."*

## CYLLID A CHOSTAU

Cyfeiriodd 26 o ymatebwyr (5.2%) at 'gyllid a chost' y Parc Cenedlaethol. Mynegodd y mwyafrif bryder am gost sefydlu Parc Cenedlaethol a'r costau parhaus i'w redeg – er enghraifft, *"defnyddio arian y trethdalwyr i gynnal Parc Cenedlaethol mor fawr"*. Nodwyd y dylid *"meddwl o ddifrif am gost ychwanegol hyn. Ni all Cymru fforddio dynodiad arall."* Cododd eraill bryderon ynghylch cyllid ar gyfer y Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru: *"Mae gennym ni Barc Cenedlaethol eisoes sy'n cael ei danariannu."* Nodwyd hefyd: *"O ble mae'r arian yn dod o ystyried bod Parciau Cenedlaethol eraill yn wynebu toriadau cyllid?"*

## EITHRIO RHAGOR O ARDALOEDD

Roedd wyth ymatebydd (4.4%) am 'eithrio rhagor o ardaloedd'. Gofynnodd rhai i Ddyffryn Tanat gael ei eithrio, a'r ardaloedd yng ngogledd Powys. Ni roddodd y mwyafrif resymau pam y dylid eithrio'r ardaloedd hyn, ond un o'r rhesymau cyffredin a roddwyd oedd lefel y twristiaeth sydd eisoes yn cael ei phrofi yn yr ardal. Gofynnodd llawer am *"hepgor yr ardaloedd sydd eisoes yn orlawn o dwristiaid"*, gyda rhai'n dweud *"nad ydynt yn credu y dylai Dyffryn Ceiriog fod yn rhan o'r parc"* oherwydd bod ganddo *"seilwaith annigonol ar gyfer twristiaeth"* a "*thirwedd ddiwylliannol bregus a allai gael ei tharfu arni a'i dinistrio gan dwristiaeth"*.

## CYTUNO

Dywedodd 13 o ymatebwyr (2.6%) eu bod yn 'cytuno' â ffiniau drafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Mynegodd llawer gefnogaeth i'r broses sy'n mynd rhagddi, a'r dull o'i chyflawni, gyda rhai'n dweud, *"Mae'r ardal wedi'i phennu'n dda, ac mae'r adroddiad gwerthuso yn cyflwyno achos cryf dros ei chynnwys yn ei chyfanrwydd."* Hefyd, roeddent yn cytuno â'r asesiad oherwydd eu bod *"yn ymddiried yn eich arbenigedd, ac oherwydd y gellid dadlau am ardaloedd unigol am gyfnod amhenodol"*.

## CYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT

Gwnaeth 13 o ymatebwyr (2.6%) sylwadau ar 'gynefinoedd a bywyd gwyllt'. Roedd ymatebwyr yn pryderu na fyddai unrhyw Barc Cenedlaethol arfaethedig o reidrwydd yn helpu i warchod

bioamrywiaeth a bywyd gwyllt. Teimlai rhai na fyddai'n *"gwneud dim i gynyddu bioamrywiaeth neu ffermio sy'n fwy ystyriol o natur"*, tra dywedodd eraill *"y dylai fod mor gynhwysol ag sy'n bosibl o ardaloedd o gynefin naturiol arwyddocaol – er mwyn cadw a gwarchod cynefinoedd bridio pwysig ar gyfer bywyd gwyllt"*. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau hefyd am ardaloedd posibl a allai fod wedi'u hepgor. Wrth wneud sylwadau ar y twyni, dywedodd rhai eu bod wedi cael *"sioc a siom o glywed nad yw cynefinoedd bywyd gwyllt mwy unigryw (prin a dan fygythiad) yn cael eu cynnwys o fewn ffiniau arfaethedig yr ardal"*. Awgrymodd eraill ddewis arall, gan ddweud, *"Dylai'r ffiniau gydbwyso cyfanrwydd ecolegol gyda llywodraethu ymarferol. Dylai cysylltedd rhwng tirweddau fod yn flaenoriaeth er mwyn cefnogi coridorau o fioamrywiaeth."*

## DATBLYGIADAU MAWR

Gwnaeth 11 o ymatebwyr (2.2%) sylwadau ar 'ddatblygiadau mawr'. Roedd y rhain yn cynnwys ffermydd gwynt a ffermydd solar. Cafwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol gan yr ymatebwyr. Teimlai rhai y byddai ffermydd gwynt bach yn dderbyniol, gan ddweud, *"Ni ddylai fferm wynt fechan Braich Ddu ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad. Mae rhai tyrbinau bach weithiau'n dderbyniol mewn rhai ardaloedd."* Teimlai eraill fod *"rhai datblygiadau, megis tyrbinau gwynt, yn gallu cael effaith negyddol ar y dirwedd filltiroedd lawer o'r datblygiad ei hun, felly amddiffyn y dirwedd ehangach yw'r dull gorau"*. Roedd rhai'n pryderu am linellau peilonau mewn rhannau o Ddyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Meifod, gan ddweud, *"Mae'r olaf o dan fygythiad gan ddatblygiad llinell bŵer!"*

## YMATEBION ERAILL

Roedd 162 o ymatebwyr (32.6%) yn cynnwys gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion fel *"gormod o gyfyngiadau ar adeiladu tai i bobl leol"*, *"rhy amrywiol o ran tirwedd a maint"*, *"hurt"*, *"a fydd yn gwneud llywodraeth leol yn fwy cymhleth?"*, ac *"anghytuno'n gryf â'r syniad yn y lle cyntaf – bydd ffermwyr y tu allan i'r parc yn cael mwy o ryddid i arallgyfeirio eu ffermydd"*.

## Y BROSES

Gwnaeth 35 o ymatebwyr (7%) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â'r un pryderon a godwyd yn y cwestiynau cynharach, a oedd yn cynnwys ceisiadau am ragor o wybodaeth – *"angen y map!"* – sylwadau ar y broses benderfynu – *"pam mae ffyrdd yn cael eu defnyddio fel ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn hytrach na ffiniau naturiol?"* – a sylwadau eraill yn mynegi pryder efallai nad yw'r broses yn ddilys: *"Rwy'n teimlo'n drist bod y penderfyniad wedi'i wneud eisoes, ac nad oes gennym ni fawr o ddweud yn y mater."*


## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Dywedodd 78 o ymatebwyr (15.7%) nad oeddent o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol. Yn y categori hwn, ychwanegodd ymatebwyr sylwadau a oedd yn gwrthod y cysyniad o Barc Cenedlaethol yn llwyr, weithiau gyda rhesymau ond yn aml hebddynt. Ailadroddodd llawer yr hyn a ddywedwyd o'r blaen. Er enghraifft, *"Rwy'n anghytuno'n gryf ag unrhyw Barc Cenedlaethol sy'n cael ei sefydlu"* neu *"Nid oes angen Parc Cenedlaethol arnom ni, ac nid ydym ni ei eisiau."* Rhoddodd eraill resymau dros eu gwrthwynebiad. Er enghraifft, *"Mae creu Parc Cenedlaethol yma yn ddiangen, a bydd yn ychwanegu mwy o fiwrocratiaeth, ac yn cael effaith andwyol ar amserlenni a chanllawiau cynllunio."* Yn yr un modd, *"Mae'r llywodraeth yn brin o adnoddau ac nid yw hyn yn ddefnydd da o'r adnoddau hynny."*

**CWESTIWN 5E:**

OS SEFYDLIR PARC CENEDLAETHOL, YNA BYDDAI ANGEN ENW NEWYDD ARNO. GAN WEITHIO GYDA PHARTNERIAID, RYDYM WEDI NODI DAU OPSIWN.

- PARC CENEDLAETHOL – BRYNIAU CLWYD A'R BERWYN
- PARC CENEDLAETHOL – GLYNDŴR




***Ffigur 15:*** *Archwilio opsiynau enwau posibl ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis un o'r ddau opsiwn, neu nodi eu bod am ddewis opsiwn arall. Atebodd 1,528 o'r 1,911 o ymatebion i'r holiadur y cwestiwn hwn, fel a ganlyn: 49.5% (757) Parc Cenedlaethol – Glyndŵr; 27.8% (424) Parc Cenedlaethol – Bryniau Clwyd a'r Berwyn; 22.7% (347) enw arall.

Roedd ail ran y cwestiwn yn caniatáu i'r ymatebwyr awgrymu enw arall a/neu roi cyfiawnhad byr dros eu hateb. Yn adran 'arall' y cwestiwn, rhoddwyd y dewis i ymatebwyr awgrymu enw arall, ac ysgrifennu cyfiawnhad dros eu dewis. Roedd yr opsiwn hwn ar gael i unrhyw ymatebydd, p'un a oeddent wedi dewis un o'r ddau enw arfaethedig neu wedi dewis eu henw eu hunain. Cafwyd 562 o ymatebion i'r opsiwn hwn. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## ENW ARALL

Awgrymodd 88 o ymatebwyr (15.7%) 'enwau eraill', a oedd yn cynnwys *"Parc Cenedlaethol Clwyd"* a *"Bryniau Clwyd"*. Nid oedd unrhyw enw amgen wedi dod i'r amlwg o'r doreth o wahanol awgrymiadau a ddaeth i law.

## RHESWM ARALL

Darparodd 71 o ymatebwyr (12.6%) resymau eraill. Awgrymodd y mwyafrif nad oeddent wedi awgrymu enw na ddylai fod enw o gwbl, gan awgrymu, felly, nad oeddent am gael Parc Cenedlaethol newydd. Er enghraifft, *"Nid oes angen enw; gadewch yr ardal fel y mae"* a *"Dydw i ddim am i'm cartref fod mewn Parc Cenedlaethol."* Teimlai rhai na hoffent ddewis enw. Er enghraifft, *"Dim enw! Mae'n tynnu sylw oddi ar y mannau o fewn yr ardal"* ac *"Byddai'n well gen i beidio â dewis enw, gan y byddai gwneud hynny yn awgrymu fy mod i o blaid Parc Cenedlaethol."* Tynnodd eraill sylw at bryderon hanesyddol posibl. Er enghraifft, *"Mae gan Glwyd a Glyndŵr gysylltiad ag awdurdodau llywodraeth leol sydd wedi'u diddymu / eu disodli."* Roedd rhai'n poeni am newid enwau, gan ddweud fod *"newid enw Snowdonia, ac enwau eraill, wedi codi cywilydd ar Gymru"*.

## PWYSIGRWYDD HANESYDDOL / DIWYLLIANNOL

Soniodd 50 o ymatebwyr (8.9%) am 'bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol'. Amlinellodd pob un o'r ymatebwyr a awgrymodd Glyndŵr arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr enw a'i dreftadaeth. Er enghraifft, *"Mae gan Glyndŵr ogwydd hanesyddol."* Teimlai eraill y gallai galw Parc Cenedlaethol ar ôl Glyndŵr *"wanhau chwedl Glyndŵr"* ac roeddent yn ofni *"bod gan yr enw ormod o gynodiadau cenedlaetholgar"*, tra oedd eraill yn teimlo nad oedd yr enw *"yn adnabyddus y tu allan i Gymru"*. Teimlai llawer a ddewisodd 'Bryniau Clwyd a'r Berwyn', er gwaethaf arwyddocâd hanesyddol Glyndŵr, y dylai enw Parc Cenedlaethol newydd adlewyrchu ardal y Parc Cenedlaethol ac nid cymeriad hanesyddol.

## ENW HAWDD EI YNGANU

Roedd 30 o ymatebwyr (5.3%) am gael 'enw hawdd ei ynganu'. Yn bennaf, teimlai ymatebwyr, gan y byddai mwyafrif yr ymwelwyr yn ôl pob tebyg yn siarad Saesneg, y byddai'n synhwyrol defnyddio enw y gallai siaradwyr Saesneg eu hiaith ei ynganu. Dywedodd rhai, *"Mae Glyndŵr yn fyr, yn gofiadwy, yn hawdd i'r di-Gymraeg ei ynganu, a hefyd yn enw llwybr cerdded sy'n bodoli eisoes yng Nghymru."*

## HAWDD EI GOFIO

Roedd 22 o ymatebwyr (3.9%) am i'r enw fod yn 'hawdd ei gofio'. Teimlai'r mwyafrif y dylai unrhyw enw newydd fod yn *"fachog"*. Dywedodd rhai eu bod yn *"hoffi'r cyfeiriad at naill ai Clwyd neu Glyndŵr"* ond yn teimlo mai *"symlrwydd piau hi"*.

## HYD YR ENW

Gwnaeth 20 o ymatebwyr (3.6%) sylwadau ar 'hyd yr enw'. Teimlai'r holl ymatebwyr y dylai'r enw ar gyfer Parc Cenedlaethol fod yn *"fyr"* ac yn *"gofiadwy"*. Nododd rhai fod angen *"enw byr a fydd yn taro tant â chynulleidfa eang"*. Dywedodd y rhai a ddewisodd 'arall', *"Mae angen enw clir a byr. Mae Glyndŵr yn rhy annelwig, Bryniau Clwyd a'r Berwyn yn rhy amwys."* Awgrymodd rhai fod *"Parc Cenedlaethol Clwyd yn ddigon da"*.

## DAEARYDDOL

Gwnaeth 20 o ymatebwyr (3.6%) sylwadau yn ymwneud â daearyddiaeth. O'r ymatebwyr a ddewisodd Bryniau Clwyd a'r Berwyn, eglurodd pob un mai hwn oedd yn disgrifio'r ardal orau, gan ddarparu cyd-destun daearyddol. Er enghraifft, mae'n *"disgrifio'r ddaearyddiaeth"* ac: *"Mae'r enw daearyddol yn llawer gwell, ac yn dwyn atgofion o fynyddoedd a dyffrynnoedd i gof. Hyfryd!"* Eglurodd yr ymatebwyr na ddewisodd un o'r ddau opsiwn nad oedd yr enwau'n cwmpasu digon o ardal y Parc Cenedlaethol arfaethedig, gyda rhai yn nodi, *"Nid yw Clwyd/Berwyn yn cwmpasu'r holl ardaloedd. Ni ddylid parhau â Chlwyd. Mae Glyndŵr yn well ond yn cael ei gysylltu, yn bennaf, ag ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy / Llansilin."*

## YMATEBION ERAILL

Roedd 39 o ymatebion (6.9%) yn cynnwys gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn. Roedd y mwyafrif yn pryderu am sefydlu Parc Cenedlaethol newydd. Er enghraifft, *"Does dim angen enw gan nad oes angen iddo ddigwydd"* a *"Gadewch lonydd i'r ardal a chanolbwyntio ar y Parciau Cenedlaethol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo"*, gan adleisio'r hyn a geir mewn cwestiynau eraill.

## Y BROSES

Gwnaeth 36 o ymatebwyr (6.4%) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi. Roedd yr ymatebion yn pryderu bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud, gyda nifer yn dweud, *"Mae'n ymddangos bod y penderfyniad i gael Parc Cenedlaethol eisoes wedi'i wneud os yw'r enwau eisoes wedi cael eu hystyried."* Roedd rhai'n cwestiynu pam fod enw'n cael ei ystyried pan oedd y cynnig am Barc Cenedlaethol newydd ond yn destun ymgynghoriad: *"Pam ystyried enw ar y cam cynnig!"* Roedd eraill, fel yn achos cwestiynau blaenorol, wedi gwneud sylwadau ar y cwestiynau: *"Pwy sydd wedi ysgrifennu'r holiadur â thuedd hwn?"*

## NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Mynegodd 196 o ymatebwyr (34.9%) nad oeddent o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol. Roedd yr ymatebion hyn yn yr un cywair â'r hyn a gafwyd yn yr adran flaenorol. Er enghraifft, *"A oes rhaid i Gymru gael Parc Cenedlaethol arall mewn gwirionedd?"* ac *"Ni ddylai fod unrhyw Barc Cenedlaethol newydd."* Gwrthododd eraill wneud sylw ar enw, gan nodi, *"Dydw i ddim yn awgrymu enw gan nad ydw i eisiau parc*" ac *"Nid oes ei eisiau, nac ei angen, felly nid oes angen enw arno."*

**<u>CWESTIWN 6:</u>**

A OES UNRHYW SYLWADAU ERAILL YR HOFFECH EU HYCHWANEGU AT Y CYNNIG AM BARC CENEDLAETHOL NEWYDD?

Cafwyd 870 o ymatebion i Gwestiwn 6. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## CYLLID / COSTAU

Soniodd 264 o ymatebwyr (30.3%) am gyllid a chostau. Roedd llawer yn cwestiynu faint mae'r prosiect wedi'i gostio hyd yn hyn, a faint y gallai ei gostio yn y dyfodol. Mynegodd yr ymatebwyr hefyd a oeddent yn gefnogol o'r costau, neu'n bryderus amdanynt, gyda rhai'n dweud, *"Dydyn ni ddim o blaid yr holl gostau sydd ynghlwm wrth y cynlluniau hyn."* Roedd rhai eisiau gwybod faint y

gallai'r Parc Cenedlaethol ei gostio i'w gynnal yn y dyfodol, ac o ble y gallai'r arian ddod. Roedd eraill yn cwestiynu a oedd hyn yn ddefnydd priodol o arian, gan nodi *"gwastraff arall o arian y trethdalwyr"* a hefyd: *"Byddai'n faich ariannol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a chynghorau sir lleol, sydd eisoes yn cwtogi ar eu gwariant yn y dyfodol, ac yn cael gwared ar wasanaethau i gymunedau gwledig."* Roedd rhai yn pryderu bod y Parciau Cenedlaethol ac atyniadau i ymwelwyr eraill yng Nghymru eisoes yn wynebu toriadau i'w cyllidau: *"Mae'r tri Pharc Cenedlaethol presennol yn wynebu methdaliad. Darparwch ddigon o arian iddyn nhw yn gyntaf cyn ystyried y cynnig hwn."* Gwnaed awgrymiadau ynghylch ar beth y gellid defnyddio'r cronfeydd hyn fel arall: *"A fyddech cystal ag ailfeddwl y syniad hurt hwn a gwario'r arian ar ysbytai, ffyrdd, ysgolion. Wedyn, os bydd unrhyw arian ar ôl, defnyddiwch hwnnw ar eich parciau presennol."* Gwnaed sylwadau am lefel yr wybodaeth ynghylch cyllid a ddarparwyd yn ystod y broses: *"Mae yna fwlch gwybodaeth, yn gyffredinol, am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Barc Cenedlaethol."* Dywedodd eraill y byddai'r cyllid o fudd i unrhyw Barc Cenedlaethol newydd: *"Mae'r dystiolaeth yn glir bod y tri Pharc Cenedlaethol presennol yng Nghymru yn rhoi gwerth mawr i Gymru, a hefyd bod yr ardal a werthuswyd yn ardal nodedig a diwylliannol arwyddocaol a all gysylltu mwy o gymunedau â'r dirwedd, gwella'r economi wledig, a hyrwyddo uchelgeisiau llesiant a hinsawdd Llywodraeth Cymru."*

## SEILWAITH

Soniodd 172 o ymatebwyr (19.8%) am 'seilwaith'. Roedd ymatebwyr yn pryderu am gyflwr y seilwaith presennol o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Gwnaed sylwadau tebyg yn flaenorol yng nghwestiynau 3b, 4a a 5d. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â ffyrdd, parcio, toiledau, gwasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gwnaeth yr ymatebwyr awgrymiadau ar sail eu profiad o'r seilwaith mewn Parciau Cenedlaethol eraill yn y DU, ynghylch sut y gellid dysgu ohonynt a gwella agweddau ar y parc. Awgrymodd rhai, *"Mae'n rhaid i ni ddysgu oddi wrth Barciau Cenedlaethol eraill fel Ardal y Copaon, sydd â llwybrau beicio gwirioneddol dda a rheolaeth well o lawer ar lwybrau troed nag sydd gennym ni ar hyn o bryd yn y Gogledd. Dydw i ddim yn dod ar draws llwybr troed sydd wedi'i rwystro yn yr ardal honno yn aml iawn."* Gwnaeth eraill sylwadau ynghylch lle y dylai hyn fod ar restr o flaenoriaethau cenedlaethol neu ranbarthol. Nododd rhai eu bod yn *"bryderus iawn am gyllid"* a hefyd: *"Mae gwir angen yr arian ar addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd – cyn ei wario ar hamdden."*

## CEFNOGAETH

Pwysleisiodd 126 o ymatebwyr (14.5%) eu cefnogaeth, gyda phob ymateb yn dweud eu bod o blaid y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Roedd yr ymatebion yn amrywio o sylwadau syml o blaid y parc, megis *"rwy'n cefnogi'r cynnig yn llwyr"*, i sylwadau mwy manwl o gefnogaeth: *"Ar y cyfan, rwy'n gefnogol, ac yn meddwl y bydd yn gwella, ac yn amddiffyn, yr ardal ar gyfer mwynhad a chynaliadwyedd yn y dyfodol."* Dywed eraill, *"Byddai'n wych cael yr ardal hon fel Parc Cenedlaethol newydd"* a *"Byddai'n ddiwrnod balch i Gymru a'r DU gyfan."* Dywedodd eraill, wrth fynegi eu cefnogaeth, fod ganddynt rai pryderon o hyd. Er enghraifft, *"Rwy'n meddwl ei fod yn syniad da mewn egwyddor, ond mae gen i bryderon o hyd ynghylch seilwaith ffyrdd yr ardal, yn enwedig yn ne'r ardal."*

## TWRISTIAETH

Gwnaeth 106 o ymatebwyr (12.2%) sylwadau ar 'dwristiaeth'. Roedd y mwyafrif yn pryderu am Barc Cenedlaethol yn cynyddu twristiaeth yn yr ardal, gan nodi: *"Mae gan yr ardal ddigon o*

*dwristiaeth yn barod"*, *"Mae'r dirwedd eisoes yn cael ei gwarchod gan ffermwyr"* ac *"Ni fydd y ffyrdd o amgylch yr ardal yn gallu ymdopi â thraffig ychwanegol."* Teimlai rhai hefyd *"na fydd cyfiawnhad o gynnydd mewn twristiaeth yn darparu'r math o swyddi a chyfleoedd y mae eu hangen mewn gwirionedd ar draws yr ardal"*, gan fynd ymlaen i ddweud, *"Mae swyddi twristiaeth yn dymhorol, yn talu'n isel, ac nid ydynt yn darparu'r sefydlogrwydd ariannol i alluogi pobl leol i gwrdd â chostau byw yn yr ardal."* Teimlai eraill yn hapus i annog twristiaeth, ond pwysleisiodd y mwyafrif, er eu bod *"o'i phlaid"*, *"y dylid annog twristiaeth mewn ffordd ystyriol iawn, gan barchu'r amgylchedd llonydd"*. Cynigiodd ymatebwyr safbwyntiau cefnogol a chalonogol, megis, *"Bydd yn dod â buddion amgylcheddol ac economaidd sylweddol i'r Gogledd-ddwyrain, ar yr amod ei fod yn cael ei ariannu'n ddigonol."* Pwysleisiwyd hefyd *"y llu o ymwelwyr"* sydd *"eisoes yn ymweld â'r ardal hon ac y mae angen eu rheoli'n briodol, ac y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn gallu eu rheoli'n well na'r system bresennol"*.

## Y GYMUNED / ECONOMI LEOL

Gwnaeth 87 o ymatebwyr (10%) sylwadau ar 'y gymuned / economi leol'. Rhannodd ymatebwyr eu barn ar yr effaith y gallai Parc Cenedlaethol newydd ei chael ar y gymuned leol a'r economi leol yn yr ardal. Cyflwynwyd sylwadau tebyg i Gwestiwn 3b. Roedd y rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, yr effaith ar brisiau tai, argaeledd eiddo, mynediad i wasanaethau, mathau o gyflogaeth, cadw pobl ifanc yn yr ardal, yr effaith ar gymunedau Cymraeg, a'r effaith ar y ffordd o fyw wledig. Yn yr un modd â sylwadau blaenorol am y gymuned leol, cafwyd gwahaniaeth barn, gyda rhai yn codi pryderon am yr effaith ar y gymuned leol. Roedd teimladau negyddol yn ymwneud â'r effaith bosibl ar ffermio a'r cymunedau lleol y tu mewn i ardal y parc. Dywed rhai, *"Mae ffermio yn ei chael hi'n anodd, bydd hyn yn dinistrio cymunedau"* a *"Bydd yn cyfyngu'n annerbyniol ar ddefnydd yr ardal yn y dyfodol, gan gynnwys defnydd yn ymwneud â datblygu economaidd."* Teimlai eraill fod y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn *"syniad gwych"* a *"pho fwyaf yw'r rôl y mae'r llywodraeth yn ei chwarae wrth warchod tirweddau a bywyd gwyllt a diogelu buddiannau economaidd cymunedau lleol, gorau oll"*. Roeddent yn meddwl *"y gallai wella gwerthfawrogiad o'r ardal a'i ffyniant"*.

## BIWROCRATIAETH

Gwnaeth 68 o ymatebwyr (8%) sylwadau ar 'fiwrocratiaeth'. Cododd yr ymatebwyr sylwadau ynghylch sut y gall unrhyw newid mewn llywodraethu effeithio arnynt hwy a'r ardal. Roedd cynllunio yn is-thema bwysig, gyda bron i hanner yr ymatebion yn codi cwestiynau yn ei gylch. Awgrymodd rhai, *"Rhaid i'r corff cynllunio newydd gydnabod yr argyfyngau bioamrywiaeth a hinsawdd yn llawn o'r cychwyn cyntaf a chael polisïau i'w lleihau, eu lliniaru a'u haddasu."* Mynegodd eraill bryderon ynghylch yr effaith y gallai unrhyw gyfreithiau / cyfyngiadau cynllunio newydd ei chael ar drigolion y Parc Cenedlaethol, *"Mae'n ddigon anodd gwneud bywoliaeth heb fwy o fiwrocratiaeth."* Teimlai rhai y gallai cyflwyno awdurdod arall fod yn *"haen ddiangen o lywodraethu"*, gan bwysleisio, *"Mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol presennol ddigon o bwerau i reoli'r materion sy'n peri pryder."* Dywedodd y mwyafrif yr hoffent weld rheolaeth leol, yn arbennig *"rhagor o bobl leol ar y bwrdd – dim penodiadau gwleidyddol o dde'r wlad"*.

## TREFTADAETH / DIWYLLIANT

Soniodd 47 o ymatebwyr (5.4%) am 'dreftadaeth a diwylliant'. Roedd y mwyafrif yn gefnogol, gyda llawer yn dweud, *"Dylid croesawu'r Parc Cenedlaethol fel cyfle i warchod tirwedd a threftadaeth yr ardal, a rhoi cyfle i gyfoethogi'r economi leol."* Dywedodd rhai, *"Gwnewch yn siŵr ei fod yn digwydd. Mae'n dda i hunaniaeth genedlaethol, o arwyddocâd diwylliannol, ac yn gwarchod bywyd*

*gwyllt Cymru, ac mae'n darparu gwell mynediad a chyfleoedd hamdden i'r ardal honno."* Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau ar ardal ac iaith y rhanbarth, gan ddweud, *"Mae'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn ymgorffori'r rhan fwyaf o famwlad hanesyddol Glyndŵr ac felly mae'n sylfaenol i hanes Cymru fel cenedl."* Awgrymodd hefyd y gallai Parc Cenedlaethol newydd helpu *"cadw'r Gymraeg yn gryf, a chadw tai am brisiau rhesymol ar gyfer pobl leol … ac y dylid sicrhau hynny'n statudol"*. Pwysleisiodd eraill mai treftadaeth yr ardal oedd y prif reswm dros symud yno: *"Symudais i i Langollen o Loegr, am y cefn gwlad bendigedig, yr hanes a'r teithiau cerdded."*

## GADAEL YR ARDAL FEL Y MAE

Gofynnodd 30 o ymatebwyr (3.5%) am 'adael yr ardal fel y mae', gan nodi *"os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio"* a phwysleisio *"dydyn ni ddim am iddo newid"*.

## CYNNWYS ARDALOEDD ERAILL

Gofynnodd 19 o ymatebwyr (2.2%) i 'gynnwys ardaloedd eraill' yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Roedd yr ardaloedd a grybwyllwyd yr un fath â'r ymatebion a ystyriwyd yng nghwestiynau 5b, 5c a 5d, gan gynnwys Mynydd Mynyllod, Mynydd yr Hôb, Mynydd Helygain, Dyffryn Dyfrdwy uchaf a Thwyni Gronant, ymhlith eraill. Rhybuddiodd rhai, *"Os yw hyn yn mynd yn ei flaen, yna mae'n rhaid ichi ystyried ychwanegu ardaloedd eraill i'r parc. Bydd yn anodd ychwanegu rhagor o ardaloedd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud."*

## HYGYRCHEDD

Gwnaeth deg o ymatebwyr (1.1%) sylwadau ar 'hygyrchedd'. Cyfeiriwyd at sylwadau tebyg yng nghwestiynau 3b, 4a a 4b. Nododd ymatebwyr fod *"rhaid cael lleoedd parcio a hygyrchedd i bob defnyddiwr"*, yn ogystal ag *"ailagor a diogelu hawliau tramwy cyhoeddus"*. Roedd rhai'n cwestiynu, *"Sut y gall fod yn iawn mai ble rydych chi'n byw, y tu mewn i Barc Cenedlaethol neu y tu allan iddo, sy'n pennu ansawdd llwybrau troed, ac os ydynt yn cael eu cynnal a chadw ai peidio?"* Teimlai eraill y *"bydd sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yn helpu i wella mynediad i'r ardal"*.

## YMATEBION ERAILL

Roedd 157 o ymatebion (18%) yn cynnwys gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn. Mae'r mwyafrif o'r ymatebion hyn yn cael eu hadleisio mewn cwestiynau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys barn yr ymatebwyr yn ymwneud ag effeithiau ar bobl leol – *"Mae'r effeithiau ar bobl leol yn negyddol yn unig"* – sylwadau am enw'r parc – *"Mae angen iddo fod yn hawdd ei ynganu yn Saesneg os hoffech chi gael ymwelwyr"* – a hefyd ceisiadau i atal datblygiadau – *"Rhowch y gorau i'r fferm wynt arfaethedig"* – a phwyslais ar *"fathau eraill o ynni cynaliadwy nad ydynt yn difetha ein hadnoddau naturiol"*.

## Y BROSES

Unwaith eto, gwnaeth 69 o ymatebwyr (7.9%) sylwadau ar y 'broses' sy'n mynd rhagddi. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys yr un pryderon a godwyd mewn cwestiynau cynharach. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ragor o wybodaeth – *"Byddai mwy o wybodaeth am gostau yn ddefnyddiol, e.e. dadansoddiad o'r manteision ac anfanteision o wybodaeth am y Parciau Cenedlaethol presennol"* – a phryderon am y broses yn y dyfodol: *"Gwrandewch ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb iddyn nhw o ddifrif."* Roedd hefyd pryderon am yr holiadur: *"Mae'r holiadur hwn yn ystrywgar iawn, ac wedi'i ysgrifennu'n wael."*

## NA I'R PARC CENEDLAETHOL


Unwaith eto, manteisiodd 255 o ymatebwyr (29.3%) ar y cyfle hwn i fynegi eu gwrthwynebiad i Barc Cenedlaethol. Gwrthododd llawer y cysyniad, rhai â rhesymau ond yn aml heb. Dywedodd rhai nad oeddent yn *"cytuno"* nac yn *"cydsynio i Barc Cenedlaethol newydd"*. Fe wnaethant gyfeirio hefyd at ardaloedd penodol megis gogledd Sir Drefaldwyn a Dyffryn Ceiriog. Darparodd eraill resymau megis, *"Byddai'r ardal gyfan wedi'i difrodi gan ymchwydd o dwristiaid, a byddai pobl leol yn dioddef yn sgil hyn."* Yn ogystal â hyn, dywedodd rhai, *"Mae gan Lanrhaeadr broblemau aruthrol o ran traffig a diffyg mynediad i'r pentref."* Roedd pobl ifanc yr ardal yn poeni y byddai hyn yn *"fy ngwthio i ffwrdd o'r ardal"*. Roedd eraill, yn enwedig ym Mhowys, yn pryderu bod *"Cyngor Sir Powys yn wynebu problemau ariannu difrifol"*, gan nodi bod *"canolfannau hamdden dan fygythiad oherwydd diffyg arian"*.

# 4. RHAN 4 YR HOLIADUR – YSTYRIAETHAU O RAN Y GYMRAEG

**CWESTIWN 8:**

BETH YW EICH GALLU YN Y GYMRAEG?

- GALLU SIARAD CYMRAEG YN RHUGL
- GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT O GYMRAEG
- DIM DEALLTWRIAETH O'R GYMRAEG
- YN DYSGU CYMRAEG




***Ffigur 16:*** *Gallu Cymraeg yr ymatebwyr*

Atebodd 1,834 o'r 1,911 a ymatebodd i'r holiadur Gwestiwn 8. Dywedodd 19% (356) eu bod yn 'gallu siarad Cymraeg yn rhugl', 31% (564) eu bod yn 'gallu deall a siarad rhywfaint o Gymraeg' ac 19% (344) eu bod 'yn dysgu Cymraeg'. Roedd 'dim dealltwriaeth o'r Gymraeg gan 31% (570) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

**CWESTIWN 9:**

HOFFEM WYBOD EICH BARN AR EFFEITHIAU POSIBL Y CYNNIG HWN AR Y GYMRAEG, FEL A GANLYN:

• CYFLEOEDD I BOBL DDEFNYDDIO'R GYMRAEG

• PEIDIO Â THRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG

BETH FYDDAI'R EFFEITHIAU YN EICH BARN CHI? SUT Y GELLID CYNYDDU EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEU LINIARU EFFEITHIAU NEGYDDOL?

Atebodd 1,126 o'r 1,911 o'r rheini a ymatebodd i'r holiadur Gwestiwn 9. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## HYRWYDDO'R GYMRAEG A THREFTADAETH / DIWYLLIANT CYMRU

Teimlai 278 o ymatebwyr (24.7%) y byddai effaith ar y Gymraeg yn sgil 'hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth / diwylliant Cymru'. Teimlai bron pob un o'r ymatebwyr y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i effeithiau hyrwyddo'r iaith a threftadaeth a diwylliant o fewn ffin ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol. Teimlai llawer y byddai'n *"cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn annog ymwelwyr i'r ardal"* ac yn *"darparu cyfleoedd i'w cyflwyno i'r iaith, yn ogystal ag elfennau eraill o ddiwylliant Cymru"*. Awgrymodd rhai *"y gellid gwella effeithiau cadarnhaol trwy ddatblygu atyniadau ymwelwyr sy'n arddangos hanes a diwylliant yr ardal ac, wrth gwrs, ei hiaith"*. Roedd teimlad cryf y *"dylai ymwelwyr gael gwybod am hanes lleol Cymru, a chael cyfle i ddysgu rhai geiriau Cymraeg sylfaenol"*, ac *"y gall y cynnydd yn nifer y bobl ddi-Gymraeg sy'n dod ar draws y Gymraeg oherwydd y Parc Cenedlaethol newydd ond fod yn gadarnhaol"*. Teimlai eraill nad oes angen Parc Cenedlaethol ar y Gymraeg i'w hyrwyddo, gan ddweud, *"Mae gan bobl ddigonedd o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn barod. Mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed yn aml iawn, a'i hyrwyddo'n dda. Nid oes angen Parc Cenedlaethol arni i'w helpu."*

## EFFAITH NEGYDDOL GYFFREDINOL AR Y GYMRAEG

Teimlai 201 o ymatebwyr (17.9%) y byddai Parc Cenedlaethol yn cael 'effaith negyddol gyffredinol ar y Gymraeg'. Darparodd llawer atebion byr fel *"effaith negyddol yn unig"*, *"nid yw'n debygol o helpu'r defnydd o'r Gymraeg"*, *"effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl"*, *"ddim yn debygol o helpu'r defnydd o'r Gymraeg"*, *"gall y cynnig dim ond cael effeithiau negyddol"*, a *"chaiff dim ond effaith negyddol ar y diwylliant a'r gymuned leol"*. Roedd rhai'n bryderus iawn y byddai Parc Cenedlaethol yn *"dinistrio'r Gymraeg yn yr ardal"*: *"Yn aml, nid yw'r rheini sy'n ymweld yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw iaith a threftadaeth Cymru."* Roeddent hefyd yn bryderus *"y gallai'r parc gael effeithiau negyddol pe bai gormod o bwyslais yn cael ei roi ar hwyluso twristiaeth"*.

## TAI

Teimlai 172 o ymatebwyr (15.3%) y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd newidiadau mewn argaeledd tai, eu cost, a sut y caiff eu defnyddio.

- **CARTREFI GWYLIAU / AIL GARTREFI**

Teimlai'r ymatebwyr y gallai fod cynnydd yn y stoc dai a brynir i'w defnyddio fel cartrefi gwyliau neu ail gartrefi ar gyfer pobl o'r tu allan i'r ardal. Yn ei dro, gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y tai sydd ar gael, gan gynyddu prisiau tai yn yr ardal. Oherwydd hyn, gallai pobl o'r ardal leol ei chael

yn anodd dod o hyd i dai yn yr ardaloedd y cawsant eu magu ynddynt. Byddai agosrwydd i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn debygol o olygu *"y gallai rhagor o bobl ddi-Gymraeg ddod i'r ardal"* a *"phrynu ail gartrefi"*, gan arwain at *"gynnydd ym mhrisiau tai"* ac, o bosibl: *"Bydd plant sy'n rhugl yn y Gymraeg yn symud i rywle arall i gael eu teulu eu hunain."* Gallai hyn oll *"ddinistrio cymunedau ac ysgolion Cymraeg eu hiaith"*.

- **COSTAU TAI**

Teimlai'r ymatebwyr y gallai prisiau tai godi pe bai'r ardal yn dod yn Barc Cenedlaethol. Dywedodd ymatebwyr dro ar ôl tro y gallai prisiau tai godi cymaint â 25% mewn Parc Cenedlaethol nag y tu allan iddo. Er enghraifft, *"Mae prisiau tai ym Mharciau Cenedlaethol 25% yn uwch, felly bydd y bobl ifanc yn cael eu gyrru allan a bydd y Gymraeg yn cael ei cholli!"* Dywedodd eraill, *"Disgwylir effeithiau negyddol ar y Gymraeg oherwydd bydd siaradwyr Cymraeg lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai leol ac y bydd bobl hŷn ddi-Gymraeg sydd wedi ymddeol yn cymryd eu lle."*

- **MATERION YN YMWNEUD Â THAI**

Teimlai ymatebwyr y gallai fod cynnydd yn yr eiddo a ddefnyddir fel eiddo Airbnb a allai, yn ei dro, weld gostyngiad yn nifer y tai lleol sydd ar gael, gan ddweud, *"Bydd yr eiddo'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau ac eiddo Airbnb."* Teimlai eraill y gallai fod angen rheolaethau ar y defnydd o eiddo, gan awgrymu, er enghraifft, fod *"angen inni roi rheolaethau ar ail gartrefi a llety gwyliau rhent"*. Awgrymodd rhai y dylid lliniaru'r problemau hyn: *"Os am liniaru'r effeithiau hyn, yna rhaid ystyried cymorth tai ar gyfer pobl leol a gosod cyfyngiadau llym ar sefydlu llety gwyliau, eiddo Airbnb a thai haf yn ogystal â cheisiadau i newid cartrefi presennol yn fusnesau."*

## ARWYDDION / GWYBODAETH DDWYIEITHOG

Teimlai 151 o ymatebwyr (13.4%) y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd y defnydd o 'arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog'. Dro ar ôl tro, teimlai'r ymatebwyr y byddai *"arwyddion dwyieithog a byrddau dehongli ar draws y parc yn hybu balchder y bobl frodorol am eu cartref naturiol ac yn rhoi'r iaith iddynt i'w dathlu"*. Dywedodd llawer hefyd fod enwau lleoedd Cymraeg yn *"ffordd hynod ddiddorol o ennyn diddordeb pobl"* ac o *"annog pobl i ddysgu Cymraeg"*. Dywedodd rhai fod rhai ymwelwyr am *"wybod beth mae'r enwau lleoedd yn ei olygu"*, gan awgrymu *"y byddai cyfieithiad Saesneg ochr yn ochr â'r Gymraeg yn ffordd dda o gael pobl i ymgysylltu â'r iaith"*. Teimlai'r mwyafrif fod Parc Cenedlaethol yn *"gyfle i gryfhau'r Gymraeg ymhellach"*, gan ddweud, *"Mae'n rhoi cyfle inni roi cyhoeddusrwydd i'n hiaith unigryw."* Awgrymwyd hefyd *"y gallem ni hyd yn oed ddatblygu canolfan Gymraeg arall fel yr un ym Mhen Llŷn"*. Teimlai'r mwyafrif hefyd *"y bydd yn bwysig parhau i annog y rheini sy'n gweithio i'r Parc Cenedlaethol i fod yn ddwyieithog, a dangos ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg"*.

## EFFAITH GADARNHAOL GYFFREDINOL AR Y GYMRAEG

Teimlai 144 o ymatebwyr (12.8%) y byddai Parc Cenedlaethol yn cael *"effaith gadarnhaol ar y Gymraeg"*. Cafwyd atebion byr gan lawer o ymatebwyr, megis *"cadarnhaol"*, *"gallai annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg"*, *"effeithiau cadarnhaol ar hunaniaeth genedlaethol Gymreig"*, *"gobeithio annog mwy o siaradwyr Cymraeg"*, a *"bydd yn ei diogelu"*. Rhoddodd eraill ragor o fanylion am yr effeithiau cadarnhaol, megis y byddai Parc Cenedlaethol yn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy *"gyflwyno rhagor o bobl"* i'r iaith, a'r diwylliant Cymraeg, a *"chodi ymwybyddiaeth"* o'r Gymraeg, a fyddai'n helpu i'w *"diogelu"*. Awgrymodd rhai y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol drwy *"annog pob busnes lletygarwch a thwristiaeth i hyrwyddo eu cynhyrchion yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg"* a chyflogi *"staff sy'n wynebu cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg lle bo modd"*.

## ADDYSG GYMRAEG

Teimlai 121 o ymatebwyr (10.8%) y byddai ‘addysg Gymraeg’ yn effeithio ar y Gymraeg. Teimlai llawer yn gryf y dylai’r Gymraeg gael ei *“haddysgu”*, *“bod yn orfodol”*, ac yn cael *“ei defnyddio”* a’i “*dathlu*” ym mhob ysgol ar draws Cymru, tra oedd eraill yn mynegi pryder *“nad yw pawb sydd wedi’u geni yng Nghymru yn siarad Cymraeg”* ac, felly, y gallai *“canolbwyntio gormod ar ‘Gymreictod’ fod yn wahaniaethol ac yn rhy wleidyddol”*. Tynnodd rhai sylw at yr anawsterau o ran hybu addysg Gymraeg, gan ddweud, *“Dydyn ni ddim yn dychmygu y byddai ymchwydd sydyn yn nifer y bobl leol ddi-Gymraeg i ddysgu Cymraeg”* oherwydd *“agosrwydd rhai rhannau o’r parc arfaethedig i’r ffin.*” Felly, *“Byddai ardal lle mae pobl wedi gwrthwynebu dysgu Cymraeg yn parhau i fod yn ardal uniaith Saesneg ei hiaith.”*

## TWRISTIAETH

Teimlai 118 o ymatebwyr (10.5%) y byddai ‘twristiaeth’ yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Awgrymodd y rhai oedd yn teimlo’n negyddol *“y byddai mewnlifiad o ymwelwyr yn debygol o fod yn niweidiol”* ac y byddai’r *“mwyafrif o’r ymchwydd mawr o ymwelwyr yn Saesneg eu hiaith”*, gan gynyddu’r galw am wasanaethau Saesneg a’r ddarpariaeth ohonynt. Roedd pryderon y bydd yr *“arwyddion yn cael eu darparu yn Saesneg, pan ddylid canolbwyntio ar arwyddion uniaith Gymraeg, ac enwau lleoedd Cymraeg yn unig”*. Eglurodd ymatebwyr oedd yn teimlo’n gadarnhaol y gallai hyn fod yn *“gyfle i gyflwyno’r Gymraeg i fwy o ymwelwyr”* ac yn gyfle i *“egluro tarddiad enwau Cymraeg ar arwyddion, sy’n aml yn cael eu hystyried yn ddiddorol iawn i bobl ddi-Gymraeg”*. Teimlai’r rhai a ystyriodd ddwy ochr y ddadl, er bod *“perygl”* y gallai’r mewnlifiad o ymwelwyr gael *“effaith andwyol ar y Gymraeg”* a *“chydlyniad cymunedau”*, bod *“cyfleoedd mawr”* i hybu defnydd o’r Gymraeg a’i phwysigrwydd i’r diwylliant a’r dirwedd.

## Y GYMUNED / ECONOMI LEOL

Teimlai 118 o ymatebwyr (10.5%) y byddai effaith ar y Gymraeg oherwydd y ‘gymuned / economi leol’, neu newidiadau ynddi. Ystyriodd yr ymatebwyr y gallai fod effeithiau cadarnhaol a negyddol. Dywed rhai, *“Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, oherwydd bydd mwy o falchder yn yr ardal am fod yn Barc Cenedlaethol newydd am genedlaethau i ddod.”* Teimlai eraill fod *“annog twristiaeth o Loegr a thu hwnt ond yn mynd i gael effaith negyddol ar gyfleoedd i siarad Cymraeg. Gallai o bosibl yrru rhai siaradwyr Cymraeg brodorol allan o’r ardal.”* Wrth siarad ynghylch y pwynt hwn, credai rhai *“y gallai atal pobl rhag symud allan o’r ardal, a hefyd darparu swyddi i bobl iau fel eu bod yn aros yng Nghymru”*.

## EFFAITH FWY O SAESNEG LLAFAR

Teimlai 89 o ymatebwyr (7.9%) y byddai effaith ar y Gymraeg oherwydd ‘effaith fwy o Saesneg llafar’ yn yr ardal. Roedd y mwyafrif yn gweld effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Dywedodd y rhai a oedd yn meddwl y byddai effeithiau negyddol, *“Effeithiau negyddol. Saeson yn bennaf fydd yr ymwelwyr, a bydd trwch yr ymwelwyr yn dod o ddinasoedd mawr Lloegr, sydd dim ond awr i ffwrdd o’r ffiniau arfaethedig. Felly, Saesneg fydd yr iaith a fydd yn cael ei defnyddio’n bennaf. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at ddefnyddio llai o Gymraeg.”* Ar y llaw arall, dywedodd y rhai oedd yn teimlo’n fwy cadarnhaol, *“Gallai statws Parc Cenedlaethol helpu i ddarparu cyfleoedd newydd i warchod y Gymraeg.”* Teimlai eraill na fyddai *“unrhyw effaith”* ar y Gymraeg o gwbl, gan ddweud, *“Bydd mewnlifiad o ymwelwyr Saesneg eu hiaith, a dylid eu croesawu. Ond does dim rheswm pam y dylai hyn effeithio ar y Gymraeg.”* Dywedodd ymatebydd arall: *“Dim. Fyddai’r parc*

*ddim yn cael unrhyw effaith ar y defnydd o'r Gymraeg neu ei lledaeniad y tu mewn i'r ffiniau arfaethedig."*

### SEILWAITH

Teimlai 60 o ymatebwyr (5.3%) y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd seilwaith yr ardal. Roedd y pryderon a godwyd ynghylch seilwaith yn debyg i'r rhai a godwyd o'r blaen, gan gynnwys pryderon ynghylch traffig, parcio, ysgolion, gwasanaethau brys a gwasanaethau lleol – er enghraifft, *"gormod o gerbydau ar y ffyrdd, pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau brys"* ac *"mae'r effeithiau negyddol ar fannau twristiaeth, fel y rhain, bob amser yn gysylltiedig â pharcio"*. Er nad oes cydberthynas uniongyrchol wedi bod rhwng safon y seilwaith yn yr ardal a'r effaith y gallai hyn ei chael ar siaradwyr Cymraeg, mae'n werth ystyried un ymatebydd, a ddywedodd: *"Rwy'n edrych ymlaen at felltithio cerddwyr yn Gymraeg am barcio'n anystyriol, am adael eu cŵn oddi ar dennyn, a'u hanallu/amharodrwydd i facio eu cerbydau yn ôl ar ffyrdd cul."*

### YMATEBION ERAILL

Roedd 270 o ymatebion (24%) yn cynnwys gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn ategu'r hyn a ddywedwyd mewn atebion i gwestiynau eraill, megis *"mae Parciau Cenedlaethol yn darparu mannau awyr agored ardderchog ar gyfer hamdden"* ac *"mae'r effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar iechyd pobl, yn gorfforol ac yn feddyliol fel ei gilydd, yn enfawr"*. Ymhlith yr ymatebion eraill oedd *"sicrhau bod ffermwyr yn deall sut i weithio gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy"* ac *"rydyn ni wedi gweld sut mae'r cynllun wedi methu'r ardaloedd hynny sy'n Barciau Cenedlaethol yn barod"*. Nid oedd gan lawer farn y naill ffordd na'r llall – er enghraifft, *"dydw i ddim yn poeni am hyn"* a *"niwtral"*.

### NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Unwaith eto, dywedodd 24 o ymatebwyr (2.1%) nad oeddent o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol. Mae llawer yn gwrthod y cysyniad o Barc Cenedlaethol yn llwyr, rhai â rhesymau ac eraill heb. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys *"ni ddylid creu Parc Cenedlaethol"* a *"does dim angen Parc Cenedlaethol mewn unrhyw iaith, ac nid ydym eisiau un"*. Ni ellir ystyried bod yr ymatebion hyn yn ateb y cwestiwn a ofynnwyd yng Nghwestiwn 9. Ymatebodd eraill i'r cwestiwn yn eu sylwadau am beidio â bod eisiau Parc Cenedlaethol newydd – er enghraifft, *"Na i Barc Cenedlaethol. Mae angen tai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd Cymraeg lleol."* Hefyd: *"Fydd hyn ddim yn cael unrhyw effaith gan mai Saeson fydd yn dod yma beth bynnag i ymweld â'r Parc Cenedlaethol newydd. Rhowch y gorau i'r syniad hwn cyn ei bod hi'n rhy hwyr."*

### Y BROSES

Cododd 22 o ymatebwyr (2%) bryderon, unwaith eto, am y 'broses' sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys gofyn am ragor o wybodaeth – *"Bydda i'n aros nes bod asesiad o'r effaith amgylcheddol ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi cyn mynegi barn"* – y broses ymgynghori – *"Heb ymgynghoriad go iawn, fyddwn ni ddim yn ymwybodol o'r cynlluniau"* – a chwestiynu'r cwestiynau eu hunain: *"Dydy'r cwestiwn hwn ddim yn gwneud synnwyr. Sut y gall Parciau Cenedlaethol wella sefyllfa unrhyw iaith?"* Mynegwyd pryderon hefyd y gallai'r penderfyniad fod wedi'i wneud eisoes: *"Mae'n amlwg eich bod yn meddwl y gallai effeithio ar y Gymraeg."*

**CWESTIWN 10:**

EGLURWCH HEFYD SUT RYDYCH CHI'N CREDU Y GALLAI'R CYNNIG HWN GAEL EI LUNIO NEU EI NEWID I GAEL Y CANLYNOL:

• EFFEITHIAU CADARNHAOL NEU FWY O EFFEITHIAU CADARNHAOL AR GYFLEOEDD I BOBL DDEFNYDDIO'R GYMRAEG AC AR BEIDIO Â THRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG

• DIM EFFEITHIAU ANDWYOL AR GYFLEOEDD I BOBL DDEFNYDDIO'R GYMRAEG AC AR BEIDIO Â THRIN Y GYMRAEG YN LLAI FFAFRIOL NA'R SAESNEG

Atebodd 755 o ymatebwyr Gwestiwn 10, ond mae'n amlwg nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn deall bwriad y cwestiwn. Dywedodd rhai *"effeithiau cadarnhaol"* neu *"dim effeithiau niweidiol"* yn unig, tra rhoddodd eraill atebion mwy trylwyr, megis *"Ni fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, mewn gwirionedd – byddai'n hollol i'r gwrthwyneb"* a *"Byddai Parc Cenedlaethol newydd yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg"* ac *"effeithiau cadarnhaol, gan ein bod yn dechrau gwerthfawrogi'r hyn sydd gennyn ni. Mae twristiaeth yn enfawr, felly ni fydd hyn ond yn ei helpu ymhellach. Da iawn."* Roedd y mwyafrif yn ailadrodd atebion tebyg i rai Cwestiwn 9, yn hytrach nag awgrymu sut y gellid newid y cynnig i gael effeithiau cadarnhaol, neu ddim effeithiau niweidiol, ar y Gymraeg. Mae'r atebion wedi'u dadansoddi'n ofalus, ac mae'r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i'r rhai a grybwyllwyd leiaf.

## HYRWYDDO'R GYMRAEG A THREFTADAETH / DIWYLLIANT CYMRU

Teimlai 134 o ymatebwyr (17.8%) y byddai 'hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth / diwylliant Cymru' yn effeithio ar y Gymraeg. Teimlai bron pob un o'r ymatebwyr hyn y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, o ganlyniad i effeithiau hyrwyddo'r iaith a threftadaeth a diwylliant Cymru o fewn yr ardal arfaethedig. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at ba mor werthfawr yw'r Gymraeg a'i diwylliant. Er enghraifft, *"Mae ymwelwyr wrth eu bodd â'r ffaith y ceir llawer o Gymraeg yn ein lleoliad gwledig"* ac *"Mae ymwelwyr wir yn mwynhau clywed y Gymraeg yn cael ei siarad."* Nododd rhai y byddai *"amlygrwydd y Gymraeg yn rhoi mwy o hyder i'r sawl sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg yn ein plith i'w defnyddio"* ac, yn ei dro, *"yn annog ymwelwyr i ofyn cwestiynau am yr iaith (a'r hanes, gobeithio)"*. Teimlai eraill y byddai'n fanteisiol cyflogi siaradwyr Cymraeg: *"Dylai'r staff allu siarad Cymraeg er mwyn trin yr iaith yn gyfartal"* a *"Dylid sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio mewn caffis, bwytai a siopau o leiaf rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg."*

## ARWYDDION / GWYBODAETH DDWYIEITHOG

Teimlai 119 o ymatebwyr (15.8%) y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd y defnydd o 'arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog'. Yr unig beth a fynegodd rhai ymatebwyr oedd yr hoffent i'r arwyddion fod yn ddwyieithog. Er enghraifft, *"Defnyddiwch arwyddion dwyieithog"* ac *"Yr ateb amlwg, sef cael pob arwydd yn y ddwy iaith."* Teimlai eraill y dylai hyn fynd ymhellach trwy gael "*staff, arwyddion, byrddau gwybodaeth ac ati sy'n ddwyieithog. Mentrau i hybu'r Gymraeg sydd gennym ni yma eisoes"* ac *"arwyddion ffyrdd a byrddau gwybodaeth dwyieithog gyda siopau lleol hefyd".* Teimlai rhai'n gryf y dylai staff yn y Parc Cenedlaethol fod yn ddwyieithog – er enghraifft, *"polisi dwyieithog ar gyfer yr holl adnoddau ffisegol, o staff i arwyddion"*. Teimlai eraill y dylai fod cyfleoedd i ddysgu: *"Dylai ceidwaid allu siarad Cymraeg neu gael hyfforddiant Cymraeg."*

## EFFAITH NEGYDDOL GYFFREDINOL AR Y GYMRAEG

Teimlai 86 o ymatebwyr (11.4%) y byddai Parc Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Cafwyd llawer o ymatebion byr, heb esboniadau, yn pryderu *"nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol"* ac y *"bydd llai a llai o Gymraeg yn cael ei siarad"*. Eglurodd eraill eu teimladau: *"Bydd yr ardal hon yn orlawn o ymwelwyr – gan wanhau'r Gymraeg"* ac *"Mae'n anochel y bydd llai o siaradwyr Cymraeg gan na fydd Parc Cenedlaethol newydd yn denu siaradwyr Cymraeg i'n hardal."* Un o'r prif bethau a oedd yn peri pryder oedd y posibilrwydd o wanhau'r iaith, gyda llawer yn credu *"y byddai ond yn gwanhau'r defnydd o'r Gymraeg hyd yn oed yn fwy"* ac *"yn negyddol i'r Gymraeg, oherwydd y byddai'n dod â rhagor o siaradwyr Saesneg i fyw yn yr ardal"*.

## ADDYSG GYMRAEG

Teimlai 53 o ymatebwyr (7%) y byddai addysg Gymraeg yn effeithio ar y Gymraeg. Teimlai'r ymatebwyr y *"bydd angen addysgu ymwelwyr a phobl ddi-Gymraeg!"*. Teimlai eraill y byddai'n darparu *"cyfle i ddysgwyr Cymraeg ymarfer, a chyfle i ymwelwyr rhyngwladol ddod ar draws gwahanol ieithoedd ochr yn ochr"*. Teimlai rhai hefyd y gallai arwyddion dwyieithog *"annog pobl i ddysgu'r Gymraeg trwy enwau a lleoedd Cymraeg o fewn ffiniau'r parc"*. Teimlai eraill y *"gallai defnydd eang o'r Gymraeg godi ei phroffil, ac annog dysgwyr newydd"*. Roedd rhai'n pryderu *"bod angen buddsoddi yn yr ysgolion sy'n cau ac sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol er mwyn gwella ieithoedd"*. Roedd eraill yn teimlo *"bod ysgolion ar gyfer dysgu, ac mae'r awyr agored yn rhywbeth i'w ymweld"*.

## EFFAITH GADARNHAOL GYFFREDINOL AR Y GYMRAEG

Teimlai 52 o ymatebwyr (6.9%) y byddai Parc Cenedlaethol newydd yn cael 'effaith gadarnhaol ar y Gymraeg'. Rhoddodd llawer o ymatebwyr atebion byr megis *"effeithiau cadarnhaol"* a *"dim effeithiau niweidiol"*. Rhoddodd ymatebwyr eraill fwy o fewnwelediad i'r hyn oedd ar eu meddwl. Er enghraifft, *"Parc Cenedlaethol = Ased Cenedlaethol. Ateb cadarnhaol i lawer o broblemau'r genedl"* a *"Gallai, o bosib, annog rhagor o bobl i fod yn ymwybodol o ddiwylliant ac iaith Cymru."* Roedd rhai'n annog i *"gynllun"* gael ei lunio oherwydd y byddai'n *"sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg, ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol"*.

## TAI

Teimlai 48 o ymatebwyr (6.4%) y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg oherwydd newidiadau mewn argaeledd tai, eu cost, a sut y caiff eu defnyddio. Mae'r ymatebion yn dilyn yr un is-themâu ag adrannau blaenorol: cost tai – *"Byddai'r Gymraeg yn diflannu oherwydd y mewnlifiad o dramorwyr cyfoethog a allai fforddio'r eiddo"* – tai haf ac eiddo Airbnb – *"Mae risg uchel y bydd dynodiad Parc Cenedlaethol yn gwthio prisiau tai i fyny drwy ddenu ail gartrefi / pobl yn prynu tai i'w rhentu ar Airbnb"* – a'r posibilrwydd o golli siaradwyr Cymraeg ifanc o'r ardal: *"Bydd hyn yn gyrru'r Cymry Cymraeg lleol ifanc allan o'r ardal."*

## EFFAITH FWY O SAESNEG LLAFAR

Teimlai 42 o ymatebwyr (5.6%) y byddai effaith ar y Gymraeg oherwydd 'effaith fwy o Saesneg llafar' yn yr ardal. Yn dilyn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, ystyriodd yr ymatebwyr y byddai effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg. Roedd y rhai a deimlai na fyddai unrhyw effaith yn gweld cyfleoedd – er enghraifft, *"mae cyfathrebu cyfeillgar yn bwysig"* ac y byddai ymwelwyr *"yn*

*fodlon gwneud ymdrech i ddeall a dysgu ychydig o eiriau Cymraeg"*. Teimlai rhai fod *"Saesneg yw'r iaith gyffredinol sy'n cael ei siarad gan y mwyafrif o'r ymwelwyr"* ac mae ymwelwyr yn rhan ganolog o Barciau Cenedlaethol. Teimlai eraill yn negyddol: *"Sut y bydd rhagor o bobl sy'n dod o'r tu allan i Gymru byth yn mynd i gryfhau ein cyfleoedd iaith?"*

## Y GYMUNED / ECONOMI LEOL

Teimlai 31 o ymatebwyr (4.1%) y byddai effaith ar y Gymraeg oherwydd y 'gymuned / economi leol' neu newidiadau ynddi. Yn unol ag ymatebion i gwestiynau blaenorol, ystyriodd yr ymatebwyr y byddai effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y cymunedau ac economi leol. Er enghraifft, *"Dylid annog integreiddio diwylliannau pawb. Mae byw mewn cymunedau anghysbell yn niweidiol"* a *"Byddai'r Gymraeg yn cymryd ergyd arall gan y byddai'r mwyafrif o dwristiaid yn dod o dros y ffin."* Ni allai eraill weld pam y dylai fod unrhyw effaith: *"Ni ddylai Parc Cenedlaethol effeithio ar y cynnydd a wnaed o ran cynnal y Gymraeg fel y mae'n cael ei siarad yn fy mhentref i."*

## TWRISTIAETH

Teimlai 22 o ymatebwyr (2.9%), yn unol â chwestiynau blaenorol, y byddai effaith gadarnhaol a negyddol ar yr iaith Gymraeg oherwydd twristiaeth. Awgrymodd y rheini a oedd yn teimlo'n negyddol *"y byddai'r ardal gyfan yn cael ei difrodi gan ymchwydd o dwristiaid, a byddai pobl leol yn dioddef yn sgil hyn"*. Ar y llaw arall, nododd y rheini a deimlai'n gadarnhaol bod *"cynnydd mewn twristiaeth yn arwain at gyfle i hyrwyddo diwylliant ac iaith"*. Teimlai eraill fod *"ymwelwyr yn mwynhau clywed Cymraeg yn cael ei siarad yn fawr"*, er eu bod yn cydnabod, mewn gwirionedd, *"nad yw ymwelwyr â'r ardal yn mynd i ddysgu Cymraeg am ddiwrnod"*.

## SEILWAITH

Mynegodd 12 o ymatebwyr (1.6%) bryderon am seilwaith yr ardal, gan ganolbwyntio unwaith eto ar bryderon yn ymwneud â pharcio a thraffig. Er enghraifft, *"Mae gan Lanrhaeadr broblemau enfawr o ran traffig"* ac *"Nid yw ein ffyrdd yn addas ar gyfer y nifer gynyddol o dwristiaid."* Anogodd eraill CNC i *"drafod parcio gyda'r pentrefwyr a oedd yn pryderu amdano"*. Gwnaed sylw ar faes parcio a theithio, gyda'i broblemau cynhenid: *"Awgrymodd CNC efallai y dylid gosod maes parcio a theithio – mae'n amhosibl cael bws i fyny i Bistyll Rhaeadr, a does dim unman i droi*."

## ARALL / NEWID YN Y DEFNYDD O'R GYMRAEG

Roedd 171 o ymatebion (22.7%) yn cynnwys gwybodaeth neu deimladau nad oeddent yn berthnasol i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn sylwadau byr – er enghraifft, *"ei hanghofio"* – ac ymatebwyr eraill nad oeddent *"yn teimlo'n gymwys i wneud sylw"*. Dywedodd rhai am yr effaith bosibl y gallai Parc Cenedlaethol ei chael: *"Dydw i ddim yn meddwl y byddai cael rhagor o dwristiaid yn cael effaith ar y Gymraeg."* Tra dywedodd eraill, i'r gwrthwyneb, *"Rwy'n methu'n lân â gweld sut y gall dod â mwy o bobl ddi-Gymraeg i'n hardal ddarparu cyfleoedd i'r Gymraeg."* Roedd yr ymatebion hyn yn debyg i'r ymatebion i gwestiynau blaenorol.

## Y BROSES

Unwaith eto, mynegodd 20 o ymatebwyr (2.7%) bryderon tebyg am y broses sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd ag a wnaed wrth ateb cwestiynau blaenorol. Galwodd rhai am ragor o bolisïau – er enghraifft, *"llunio polisi iaith maes o law"*. Roedd eraill yn pryderu am gwestiynau'r holiadur a'r

ymgynghoriad cyhoeddus, gan nodi, *“Rydw i braidd yn gallu deall y cwestiwn!”* a bod *“llawer o drigolion yn teimlo nad yw eu barn yn cael ei hystyried a/neu’n cael ei hanwybyddu”*.

### NA I’R PARC CENEDLAETHOL

Unwaith eto, fel y pwysleisiwyd yn drwm drwy’r holl atebion i’r holiadur, dywedodd 24 o ymatebwyr (2.1%) eu bod yn gwrthwynebu’r Parc Cenedlaethol ac y dylid *“atal y Parc Cenedlaethol newydd”*. Mae llawer yn gwrthod y cysyniad o Barc Cenedlaethol yn llwyr, rhai â rhesymau ac eraill heb. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys: *“dim ond cefnogi ffermwyr i barhau i wneud eu gwaith da gyda’r tir”*, y rheini sy’n *“ei hoffi fel y mae” a “llai o dai haf a mwy o bobl yn byw yng nghartrefi’r ardal drwy gydol y flwyddyn”*. Mae’r mwyafrif o’r ymatebion a gaiff eu categoreiddio yma yn dilyn yr un patrwm â’r safbwyntiau sy’n gwrthwynebu Parc Cenedlaethol a fynegwyd mewn cwestiynau blaenorol.

**Er bod rhai o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn awgrymu mathau o liniaru neu ddulliau hyrwyddo, nid ydynt yn ateb y cwestiwn, sy’n gofyn sut y gellid newid y cynnig i gael effeithiau cadarnhaol, neu ddim effeithiau niweidiol, ar y Gymraeg.**

## 4.2 Ymatebion ar ffurf negeseuon e-bost a dderbyniodd CNC yn uniongyrchol

Yn ogystal â’r 1,911 o ymatebion i’r holiadur a ddaeth i law, cafodd CNC 58 o ymatebion pellach yn uniongyrchol gan yr ymatebwyr. Daeth yr ymatebion hyn gan gymysgedd o ymatebwyr, gan gynnwys unigolion preifat, sefydliadau masnachol mawr ac awdurdodau lleol. Ni ddilynodd yr ymatebion yr un broses na dilyniant o gwestiynau â’r holiadur, felly ni ellir dadansoddi’r ymatebion yn union yr un ffordd â’r adrannau blaenorol, ond mae’r ymatebion yn cynnwys yr un themâu cyffredinol. Roedd rhai o’r ymatebion yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o themâu ym mhob ymateb. Pan fo’r themâu hyn yn wahanol, er eu bod yn yr un thema, maent wedi’u categoreiddio fel ymatebion gwahanol er mwyn caniatáu dadansoddiad llawn o bob ymateb. Mae’r ymatebion a anfonwyd drwy e-bost wedi’u dadansoddi’n ofalus, ac mae’r themâu wedi cael eu rhoi yn nhrefn y rhai a grybwyllwyd fwyaf, i’r rhai a grybwyllwyd leiaf.

### DATBLYGU

Roedd 48 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys pynciau a oedd yn ymwneud â ‘datblygu’. Y prif bwnc a ystyriwyd yn y categori hwn oedd materion yn ymwneud â chynllunio. Mae’n debyg nad yw hyn yn syndod o ystyried bod yr ymatebion hyn wedi’u hanfon gan awdurdodau lleol a chynghorau, ymhlith eraill, yn ogystal â busnesau mawr yn y sector ‘gwyrdd’. Esboniodd yr ymatebion fod trigolion yn bryderus bod *“angen rheolaethau cynllunio llymach i warchod y dirwedd”*. Roedd yr ymatebion yn nodi bod llywodraethau eraill wedi ymrwymo i *“greu polisi cynllunio pwrpasol ar gyfer prosiectau ynni gwynt ar y tir”*. Nododd eraill fod adroddiadau eisoes *“o’i chael yn anodd cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy bach ar ffermydd”*. Cyfeiriodd rhai at yr angen i ddatblygu cynlluniau ynni gwyrdd neu ddatblygiadau ffermio, sut y gellid cynnwys y rhain mewn Parc Cenedlaethol, a pha effaith y gallai hyn ei chael. Er

enghraifft, *“Gallai unrhyw ddynodiad Parc Cenedlaethol newydd fygwth y twf economaidd a’r bywiogrwydd cymdeithasol y byddai prosiect ynni gwynt ar y tir yn eu cynnig.”*

## Y GYMUNED / YR ECONOMI LEOL

Roedd 42 o adrannau yn yr ymatebion a gafwyd drwy e-bost yn cynnwys pynciau a oedd yn ymwneud â’r ‘gymuned / yr economi leol’. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol a negyddol yn ymwneud â’r effaith y gallai Parc Cenedlaethol ei chael ar y gymuned a’r economi leol. Sylwadau cadarnhaol oedd *“mae twristiaeth yn cynnig cyfleoedd economaidd”* a *“byddai Parc Cenedlaethol yn cyfrannu’n sylweddol at yr economi leol”*. Nodwyd sylwadau negyddol gan eraill fel *“bydd cyfleoedd cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol yn lleihau ar wahân i swyddi tymhorol sy’n talu’n isel”* ac *“mae iechyd meddwl a llesiant llawer o deuluoedd ffermio yn fregus, ac mae’r cynigion yn sicr wedi creu mwy o bryder yn y gymuned amaethyddol”*. O ran yr economi leol, roedd yr ymatebion yn cynnwys: *“byddai’n creu swyddi newydd, ac yn cefnogi swyddi newydd a phresennol o hyd at 120 o swyddi”* ac mae gan Barciau Cenedlaethol *“gyfraniadau posibl o tua £500 miliwn”*.

## CYLLID / COSTAU

Roedd 39 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys pynciau a oedd yn ymwneud â ‘chyllid / costau’. Roedd y mwyafrif o’r sylwadau, boed gan awdurdodau lleol, cynghorau, busnesau neu unigolion, yn cwestiynu *“cyllid Llywodraeth Cymru i wneud hyn”*. Tynnodd nifer hefyd sylw at y ffaith bod *“angen mwy o wybodaeth am sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu”* oherwydd *“nad yw’n gwbl glir o’r dogfennau ymgynghori sut y byddai’r Parc Cenedlaethol arfaethedig yn cael ei ariannu”*. Pwysleisiodd eraill y pwysau sydd eisoes ar gyllidebau awdurdodau lleol, gan egluro, *“Mae awdurdodau lleol o fewn yr ardal arfaethedig i gyd yn wynebu diffygion sylweddol yn y gyllideb, a bod angen dod o hyd i arbedion sylweddol yn y cyfnod sydd i ddod.”*

## SEILWAITH

Roedd 34 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘seilwaith’. Mae’r rhain yn dilyn yr un themâu â chwestiynau blaenorol, gan godi pryderon am ffyrdd, lefelau traffig, gwasanaethau’r cyngor, parcio a chyfleusterau i ymwelwyr, i enwi dim ond rhai. Er enghraifft, y rhai sydd *“wedi gweld gostyngiad yn nifer y toiledau cyhoeddus, a chau canolfannau ymwelwyr”*, a *“phroblemau parcio, tagfeydd ar y ffyrdd lleol, sbwriel a llygredd yn arwain at wrthdaro â’r gymuned leol”*. Mynegodd rhai bryder am drefn y cynnig, gan esbonio, *“Dylid buddsoddi mewn seilwaith yn gyntaf, ac yna cynigion fel hwn.”* Teimlai eraill yn wahanol: *“Mae cynlluniau cadarn ar waith ar gyfer gwelliannau i’r seilwaith, diogelu’r amgylchedd, a chynaliadwyedd economaidd.”*

## AMAETHYDDIAETH A RHEOLI TIR

Roedd 30 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘amaethyddiaeth a rheoli tir’. Mynegwyd safbwyntiau a oedd yn gadarnhaol – er enghraifft, *“gallai Parc Cenedlaethol ddarparu cymorth gwell a mwy pwrpasol i’r gymuned ffermio”* ac *“awgrymiadau y byddai dynodiad Parc Cenedlaethol yn cyfyngu ar ffermio, ac y byddai ymwelwyr yn rhoi mwy o bwysau arno”*. Aeth yr ymatebydd olaf ymlaen i ddweud *“bod ychydig iawn o’r ofnau hynny wedi’u gwireddu i raddau sylweddol”*. Fodd bynnag, mae’r lleiafrif o’r ymatebwyr o’r farn hon, gyda’r mwyafrif yn negyddol – er enghraifft, *“gallai Parciau Cenedlaethol gyflwyno rheolau sy’n cymhlethu*

*cymhwysedd ar gyfer cymorthdaliadau amaethyddol"* a *"gallai dynodiad osod cyfyngiadau ychwanegol ar y defnydd o'r tir, a'r datblygiad ohono, gan beryglu eu bywoliaeth"*. Soniodd eraill am eu profiadau o ffermio mewn Parciau Cenedlaethol eraill, gan egluro *"pa mor dda y mae eu staff yno wedi meithrin perthynas waith dda gyda ffermwyr, neu'n ffermwyr eu hunain ac yn deall materion ymarferol, yn siarad Cymraeg, ac yn gefnogol o'r economi wledig"*.

## BIWROCRATIAETH

Roedd 25 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am 'fiwrocratiaeth'. Roedd y sylwadau'n ymwneud yn bennaf â sefydlu unrhyw awdurdod newydd, pa bwerau fyddai ganddo, a pha lefel o ddemocratiaeth y byddai'n destun iddi – er enghraifft, *"trosglwyddo pwerau o'r awdurdodau lleol, a gafodd eu hethol yn ddemocrataidd, i gorff anllywodraethol lled-ymreolaethol"*. Yn yr un modd, nodwyd, *"Gallai sefydlu awdurdod Parc Cenedlaethol ganoli'r broses o wneud penderfyniadau a lleihau cyfraniad lleol."* Crybwyllwyd materion yn ymwneud ag awdurdod cynllunio hefyd mewn llawer o'r ymatebion – er enghraifft, *"mae Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio"* ac *"mae pryderon bod diffyg swyddogion medrus ar gael i gynnal awdurdod cynllunio lleol newydd"*. Sylw cyffredinol ymhlith yr ymatebion oedd y byddai *"Parc Cenedlaethol newydd yn ychwanegu lefel arall o fiwrocratiaeth i'r rhanbarth"* ac *"rydym yn dal heb ein hargyhoeddi o gost a budd yr haen ychwanegol o fiwrocratiaeth"*.

## TAI

Roedd 22 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys pynciau a oedd yn ymwneud â 'thai'. Roedd yr ymatebion yn dilyn yr un themâu â chwestiynau blaenorol, gan gynnwys y cynnydd posibl ym mhrisiau tai – *"gallai dynodiad arwain at gynnydd ym mhrisiau tai oherwydd y byddai'r ardal yn fwy poblogaidd ac y byddai galw mawr amdani"* – yn ogystal â phrinder tai fforddiadwy posibl – *"gallai'r effaith ar dai fforddiadwy lleol hefyd gael effaith andwyol ar iaith a diwylliant yr ardal"* – a mwy o ail gartrefi ac eiddo Airbnb: *"Gallai dynodiad Parc Cenedlaethol gynyddu nifer yr ail gartrefi a'r tai haf."*

## DIWYLLIANT A THREFTADAETH

Roedd 22 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am 'ddiwylliant a threftadaeth'. Roedd yr ymatebion yn cyfeirio at ardal ddrafft arfaethedig y Parc Cenedlaethol fel *"lle gyda chymunedau cydlynol a phatrymau anheddu nodedig"* yn ogystal â *"stori am ryngweithio dynol â'r dirwedd dros filoedd o flynyddoedd"*. Dywedodd eraill am dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal: *"Mae'r dreftadaeth ddiwydiannol yn y rhanbarth, a'r diwydiant chwarela, wedi llunio'r dirwedd yr ydym yn ei gweld heddiw."* Cyfeiriodd eraill at dreftadaeth y diwydiant mwynau: *"Mae pryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â dynodiad o'r fath a'i effaith ar yr un diwydiant sydd wedi cyfrannu at lunio tirwedd y rhanbarth."* Teimlai rhai *"na fyddai Parc Cenedlaethol newydd yn gwneud fawr ddim i gefnogi neu warchod ein cymunedau gwledig gwasgaredig"*.

## TWRISTIAETH

Roedd 21 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am 'dwristiaeth'. Roedd yr ymatebion yn dilyn yr un themâu ag a welwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol. Er enghraifft, ymhlith yr atebion cadarnhaol oedd *"mae twristiaeth yn cynnig cyfleoedd economaidd"* a *"phentrefi ac ardaloedd a all elwa ar ymwelwyr iddynt".* Ymhlith yr atebion negyddol

oedd *“mae gor-dwristiaeth yn destun pryder mewn rhannau o Wynedd”* ac *“mae effaith rheoli ymwelwyr yn wael yn creu teimlad negyddol i ymwelwyr”*. Ystyriodd rhai ddwy ochr y ddadl: *“Gall ymwelwyr â chefn gwlad Cymru ddod â refeniw y mae mawr ei angen ar yr economïau lleol; gall y rhai sy’n anwybyddu’r Cod Cefn Gwlad hefyd greu costau sylweddol i ffermydd a busnesau gwledig.”*

## ECOLEG A CHYNEFIN

Roedd 20 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘ecoleg a chynefin’. Roedd yr ymatebion yn dilyn yr un themâu ag a welwyd yn yr ymatebion blaenorol i’r holiadur. Er enghraifft, wrth edrych ar ffermio, *“mae gweithgarwch ffermio yn cefnogi amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd”*, ac am effaith twristiaeth gynyddol: *“Gallai gor-dwristiaeth niweidio ecosystemau bregus, gan wrthdaro â stiwardiaeth ecolegol draddodiadol ffermwyr.”* Mynegodd eraill bryderon am y difrod posibl i’r amgylchedd o ganlyniad i gynnydd mewn twristiaeth: *“Gallai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr arwain at ddifrod amgylcheddol a phroblemau anuniongyrchol megis tarfu ar rywogaethau a chynefinoedd sensitif.”*

## TIRWEDD

Roedd 18 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘dirwedd’. Siaradodd llawer am ffermio a’r dirwedd, sef sut *“mae ffermio wedi llunio ein tirweddau gwarchodedig”*, yn ogystal â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd â’r *“potensial i gefnogi ffermwyr yn yr ardal leol i warchod, amddiffyn a gwella’r dirwedd”*. Disgrifiodd eraill y dirwedd fel *“tirwedd nodedig, gytbwys a chyferbyniol”* a *“thirwedd sy’n darparu buddion y tu hwnt i’w ffiniau”*. Roedd rhai’n cwestiynu’r angen am Barc Cenedlaethol: *“Nid yw pobl yn mynd i’r bryniau oherwydd bod ganddynt ddynodiad cenedlaethol: maent yn gwneud hynny oherwydd eu hansawdd cynhenid a’u hamgylchedd naturiol.”* Yn yr un modd, nodwyd, *“Os yw’r rhan fwyaf o gefn gwlad â dynodiad, byddai’n gwanhau natur arbennig ardaloedd dynodedig.”*

## HAMDDEN

Roedd 18 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘dwristiaeth’. Roedd llawer yn gefnogol o hamdden – er enghraifft, *“byddai’r potensial ar gyfer ehangu hamdden yn yr ardal yn cynyddu’n fawr”* a hefyd “*mae’n rhaid bod posibiliadau hamdden diddiwedd yn haeddu eich cefnogaeth*”. Cododd eraill y cwestiwn o gerbydau 4x4 yn gyrru oddi ar y ffordd, gyda safbwyntiau o ddwy ochr y ddadl yn cael eu mynegi. Ymhlith yr atebion cefnogol oedd *“pan fydd gen i amser, rwy’n mynd ar deithiau bach gyda’r plant yn fy Land Rover ar y penwythnos, ac yn mynd ar hyd rhai o’r lonydd gwyrdd”*. I’r gwrthwyneb, dywedodd eraill fod ganddynt *“bryderon am yrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd”*. Soniodd ymatebwyr hefyd am y posibilrwydd o gynnwys Twyni Gronant yn y parc, sef rhan o Lwybr Arfordir Cymru, gan nodi, *“Mae Twyni Gronant a Thalacre yn rhoi cyfle i gynnwys rhan nodedig o Lwybr Arfordir Cymru.”*

## BYWYD GWYLLT

Roedd 17 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am ‘fywyd gwyllt’. Cyfeiriwyd at yr amrywiaeth o rywogaethau gwahanol, gan gynnwys y môr-wenoliaid bach a llyffant y twyni, y nodwyd eu bod yn byw yn Nhwyni Gronant: *“cynefin i’r unig gytref o fôr-wenoliaid bach sy’n bridio yng Nghymru”*, yn ogystal â *“llyffantod y twyni (credir mai dyma eu hunig safle yng Nghymru)”*. Nodwyd bod y gylfinir i’w gael ar Fynydd Mynyllod: *“parth cadwraeth hanfodol*

*ar gyfer yr adar hyn sydd dan fygythiad mawr*". Dywedodd ymatebwyr fod *"diogelu'r dirwedd leol syfrdanol, a'r bywyd gwyllt, yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol"*.

## CEFNOGAETH

Roedd 16 o sylwadau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn mynegi 'cefnogaeth' i'r Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd nifer eu bod yn *"hollol gefnogol o'r cynnig mewn egwyddor"* a'u bod *"yn ei groesawu'n fawr"* ac *"yn dymuno cefnogi'r cynnig hwn"*. Roedd rhai am i'r cynnig symud ymlaen yn gyflym, gan bwysleisio eu hawydd *"bod modd cyflawni'r dynodiad cyn etholiad nesaf y Senedd"*.

## ARDALOEDD ERAILL

Gofynnodd 13 o sylwadau yn yr ymatebion a anfonwyd trwy e-bost am gynnwys 'ardaloedd eraill' yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Y prif gais oedd i gynnwys Twyni Gronant, gydag wyth cais o'r 13 ymateb yn pwysleisio'r *"gwerth ecolegol, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd o gynnwys Twyni Gronant a Thalacre"*. Ardaloedd eraill y gofynnwyd i'w cynnwys oedd Dyffryn Dyfrdwy uchaf, Mynydd Mynyllod, Mynydd yr Hôb, Dyffryn Clywedog a Mynydd Helygain.

## HYGYRCHEDD

Roedd 16 o sylwadau yn yr ymatebion a anfonwyd trwy e-bost yn cyfeirio at 'hygyrchedd'. Roedd yr ymatebion yn dilyn yr un themâu ag a welwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol. Gofynnodd yr ymatebion am hygyrchedd ar gyfer amrywiaeth eang o ymwelwyr: *"Mae angen ymdrechion i wneud y mannau hyn yn fwy croesawgar a hygyrch i amrywiaeth eang o ymwelwyr."* Rhybuddiodd eraill am y gwrthdaro rhwng hygyrchedd a thresmasu, gyda *"mwy o ddigwyddiadau o dresmasu yn cael eu harsylwi"*.

## ARALL

Roedd 16 o sylwadau yn yr ymatebion a anfonwyd trwy e-bost yn cyfeirio at bynciau 'eraill' ar wahân i'r rhai a grybwyllwyd uchod. Roedd rhai o'r rhain yn egluro'r angen am ynni adnewyddadwy, a sut y gallai hyn weithio mewn Parc Cenedlaethol: *"Nid yw integreiddio ynni adnewyddadwy i Barciau Cenedlaethol yn ddigynsail."* Gofynnodd eraill am *"statws seilwaith arbennig"* i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, a seilwaith grid sy'n cyfrannu at sero net. Gofynnodd rhai am *"sefydlu Cymru 'iachach' a 'mwy cyfartal'"*. Gwnaeth yr ymatebion sylwadau ar yr argyfwng hinsawdd, wrth sôn am y *"Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol (NPF4), sy'n pwysleisio'r argyfwng hinsawdd a chymorth i ddatblygu ynni adnewyddadwy"*. Teimlai eraill ei bod yn bwysig sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig: *"Rhaid cymryd camau i helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ymhlith y tlotaf mewn cymdeithas."*

## Y BROSES

Roedd 63 o adrannau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn cynnwys sylwadau am 'y broses' sy'n mynd rhagddi. Roedd yr ymatebion yn debyg i'r rhai a roddwyd am y broses mewn cwestiynau eraill. Er enghraifft, roedd rhai yn cwestiynu'r wybodaeth oedd ar gael, gan nodi eu bod yn *"pryderu ynghylch pa mor ddigonol yw'r adroddiad ar nodweddion arbennig a gomisiynwyd gan*

*CNC"*, pan nodwyd yn yr adroddiad *"nad oeddem yn gallu cynnal ein hasesiad gweledol ein hunain"*. Roedd eraill yn cwestiynu *"a fydd gan y parc gynlluniau rheoli clir y gellir eu gorfodi"*. Hefyd, gofynnwyd am, neu roedd angen, rhagor o adroddiadau: *"Nid yw'n glir a gynhaliwyd arfarniad o gynaliadwyedd neu asesiad o'r effaith economaidd."* Roedd pryderon eraill yn ymwneud â'r digwyddiadau ymgynghori, gan nodi, *"yn anffodus, tynnwyd y sesiwn ar-lein i berchnogion tir a dargedwyd yn ôl oherwydd diffyg diddordeb"* ac *"roedd hi'n siomedig clywed rhywfaint o rethreg yn erbyn datblygiadau ynni adnewyddadwy gan gynrychiolwyr yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn Llangollen"*. Galwodd ymatebwyr ar y broses i wneud yn siŵr ei bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar bob cam – er enghraifft, *"Rydym ni'n argymell bod CNC yn cynnwys nodau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn ei gyngor i Ysgrifennydd y Cabinet."* Dywedodd eraill eu bod *"yn credu bod deddfwriaeth sy'n sail i ddynodi Parciau Cenedlaethol yn anghyson â fframwaith deddfwriaethol Cymru"*.

### NA I'R PARC CENEDLAETHOL

Roedd 21 o sylwadau yn yr ymatebion a anfonwyd drwy e-bost yn mynegi gwrthwynebiad i'r Parc Cenedlaethol arfaethedig. Roedd yr ymatebion yn dilyn yr un themâu ag a welwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol. Roedd rhai yn ddatganiadau byr, megis *"na i'r Parc Cenedlaethol"* a *"hoffwn ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r parc newydd hwn"*, tra oedd eraill yn hwy, gan bwysleisio, *"Mae gormod o anfanteision, a dim manteision amlwg i'r cynnig hwn, a dylid ei wrthod felly."* Roedd eraill yn gwrthwynebu'n fawr i rai ardaloedd gael eu cynnwys yn y Parc Cenedlaethol arfaethedig – er enghraifft, *"Anghytuno'n gryf. Dylid eithrio Powys o ardal y Parc Cenedlaethol arfaethedig."* Roedd yr ymatebion hyn yn yr un cywair â'r ymatebion a welwyd mewn cwestiynau blaenorol.

# 5. Casgliad

Hoffai CNC ddiolch i bob ymatebydd, gan gydnabod yr holl sylwadau, a'r holl amser a gafodd ei dreulio, a'r ymdrech sylweddol a wnaed, wrth baratoi cyfraniadau. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal dadansoddiad i archwilio'r holl themâu a godwyd. Mae'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad hwn wedi'i ddefnyddio i lywio asesiadau a dadansoddiadau sy'n mynd rhagddynt, gan gynnwys:

- Adroddiad buddion i natur
- Asesiad economaidd
- Adolygiad o gynllunio
- Asesiad o'r effaith ar iechyd
- Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Rydym hefyd wedi cynnal trafodaeth gyda chynrychiolwyr y sector ynni adnewyddadwy, buddiannau mwyngloddio, grwpiau Natur a chadwraeth, undebau ffermwyr, Llywodraeth Cymru a mwy. Mae hyn wedi cynnwys tynnu sylw at faterion i eraill eu hystyried lle bo'n briodol a thu hwnt i gwmpas asesiad CNC i'w datrys.

Elfen bwysig o ymgynghoriad cyhoeddus 2024 oedd y map o'r ardal ymgeisiol, a chawsom 655 o sylwadau mewn perthynas â ffiniau'r ardal ymgeisiol. O ganlyniad, rydym wedi

cynnal adolygiad o ffiniau'r ardal ymgeisiol mewn perthynas â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan ddadansoddiad Gillespie o'r dirwedd, yr wybodaeth newydd, a'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses ymgynghori, ynghyd â chynnal ymweliadau safle ychwanegol yn ystod y gwanwyn.

Er bod yn rhaid i'r meini prawf craidd ar gyfer dynodi barhau i fod yn ganolog, rydym hefyd yn ystyried adborth a thystiolaeth er mwyn cyfleu'r barnau amrywiol ynghylch pa mor ddymunol yw dynodi mewn lleoliadau gwahanol ar draws yr ardal ymgeisiol.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw ddynodiad yn y dyfodol yn gweddu cymaint â phosibl i anghenion yr ardal, gan ganiatáu'r budd mwyaf posibl wrth leihau'r anfanteision posibl i bob ardal gymaint â phosibl. O ganlyniad i'r broses hon, rydym yn disgwyl y bydd y ffiniau drafft a rannwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu mireinio eto i raddau. O ganlyniad i'r broses hon, rydym yn disgwyl gweld rhywfaint o fireinio pellach i'r ffin ddrafft a rennir yn ystod yr ymgynghoriad, unwaith y bydd wedi'i chwblhau, ac os caiff ei chymeradwyo, caiff ei rhannu yn ddiweddarach yn 2025.


# 6. Y camau nesaf

Mae CNC wrthi'n cwblhau'r holl adroddiadau, dadansoddiadau ac asesiadau o effaith. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'w fwrdd yn haf 2025. Bydd y bwrdd yn gwneud penderfyniad, a dim ond os caiff dynodiad ei gymeradwyo y byddwn yn bwrw ati i baratoi map manwl o'r ffiniau a chynnal **ymgynghoriad statudol**. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y map manwl o'r ffiniau, a'r holl dystiolaeth ategol, ar gael i'r cyhoedd a'r holl randdeiliaid yn ystod tymor yr hydref neu dymor y gaeaf 2025.


Byddai CNC wedyn yn paratoi, ac yn cyflwyno, gorchymyn dynodi i Lywodraeth Cymru ei ystyried. Yn 2026, byddai gweinidogion yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn dynodi, neu gynnal ymchwiliad cyhoeddus.

# 7. Atodiadau

## 7.1 Atodiad A: Map o'r Ardal Ymgeisiol



## 7.2 Atodiad B: Holidaur



## Cyflwyniad

Cafodd ardal astudiaeth, y cyfeirir ati fel yr Ardal Chwilio, yn seiliedig ar 'Dirwedd Genedlaethol' Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), ei nodi a'i rhannu yn ystod cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddiwedd 2023.

Yn dilyn ymlaen o hyn, rydym nawr yn ymgynghori ar Ardal Ymgeisiol y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich barn chi ar sut y gallai Parc Cenedlaethol reoli rhai o'r materion sy'n effeithio ar yr ardal er budd pobl, natur a chymunedau.

Rydym yn eich annog i ddarllen ein crynodeb byr o'r dystiolaeth neu'r adroddiadau llawn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn y manylion cyn llenwi'r holiadur. Gellir dod o hyd i'r ddwy ddogfen ar wefan ein prosiect neu yn y digwyddiadau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig yn y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd i Gymru. Mae adborth eich ymgynghoriad yn bwysig i ni. Mae'n rhan sylfaenol o'r broses asesu a bydd yn ein helpu i lunio ein cynigion wrth symud ymlaen.

Gallwch anfon eich barn atom drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon i Rhadbost a Mwy RTJJ-AAKE-HKKU, Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW
- Cwblhau a chyflwyno'r holiadur trwy wefan ein prosiect.
  Sganiwch y cod QR

## Ynglŷn â'ch adborth

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn ein helpu i ddeall pwy sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**C1 A ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel:** Dewiswch un yn unig

- ☐ Unigolyn?
- ☐ Ar ran sefydliad?
  Nodwch: ______
- ☐ Ar ran grŵp neu gymuned?
  Nodwch: ______

**C2 Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?**
Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Preswylydd lleol
- ☐ Ffermwr / tirfeddiannwr
- ☐ Ymwelydd / twrist
- ☐ Perchennog busnes
- ☐ Arall Nodwch: ______
- ☐ Cynrychiolydd sefydliad / grŵp
  Nodwch eich rôl: ______

Unrhyw sylwadau pellach? ______

**C3 Beth yw eich cod post?** Hoffem nodi faint o ymatebwyr sy'n byw o fewn yr Ardal Ymgeisiol neu'r tu allan

Cod post ______

## Cyfnod Ymgysylltu 2023

Cynhaliom gyfnod ymgysylltu ar Ardal Chwilio gychwynnol ar gyfer Parc Cenedlaethol ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Gwnaethom ystyried yr holl ymatebion yn ofalus cyn cyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad ymgysylltu a gyhoeddwyd ar wefan ein prosiect.

**C3a Yn ystod ein cyfnod ymgysylltu yn 2023, nodwyd nifer o themâu allweddol. Yn eich barn chi, beth yw'r themâu pwysicaf?**
Dewiswch dri yn unig

- ☐ Cadwraeth tirwedd, cydnabyddiaeth i'r ardal, llonyddwch
- ☐ Bywyd gwyllt, amaethyddiaeth a rheoli tir, yr amgylchedd a chynaliadwyedd
- ☐ Rheoli twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a seilwaith
- ☐ Trafod yr angen am newid, rheolaeth a rheolaethau, costau, cyllid, biwrocratiaeth
- ☐ Pobl a chymunedau lleol, yr economi leol
- ☐ Materion yn ymwneud â mynediad a hamdden awyr agored
- ☐ Goblygiadau tai
- ☐ Diwylliant a threftadaeth
- ☐ Goblygiadau cynllunio
- ☐ Lleoliad y ffiniau

**C3b Hoffech chi awgrymu unrhyw themâu eraill neu ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol?** Eglurwch eich ateb yn gryno

Gellir cyflwyno tystiolaeth ychwanegol trwy ein mewnflwch ar gyfer y prosiect yn **rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

## Ardal Ymgeisiol y Parc Cenedlaethol Arfaethedig

Ar ôl gwerthusiad manwl gan ymgynghorydd tirwedd annibynnol a phrofiadol, mae'r Map Ardal Ymgeisiol yn nodi'r ardaloedd hynny y canfuwyd eu bod yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer Parc Cenedlaethol. Cyfeiriwch at Map yr Ardal Ymgeisiol a'r adroddiad tystiolaeth cryno, y gellir eu gweld ar ein gwefan ac yn y digwyddiadau. Mae'r Map Ardal Ymgeisiol yr ydym yn ymgynghori arno yn ymwneud â mireinio Ardal Chwilio 2023. Roedd y mireinio hwn yn ystyried yr holl sylwadau a godwyd yng nghyfnod ymgysylltu 2023 a'r gwaith asesu technegol yn 2024. Mae rhai ardaloedd oedd yn wreiddiol yn yr Ardal Chwilio wedi'u heithrio a dwy ardal ychwanegol wedi'u cynnwys. Mae'r adroddiad tystiolaeth cryno yn rhoi gwybodaeth am y penderfyniadau a wnaed.

**C4a Ydych chi'n cytuno bod gan yr ardal hon harddwch naturiol?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn siŵr
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Rhowch reswm dros eich ateb

A oes unrhyw wybodaeth bwysig arall y dylem ei chynnwys yn ein hasesiad am harddwch naturiol yr ardal hon?
Os oes, rhowch ragor o fanylion

**C4b Ydych chi'n cytuno bod gan yr ardal hon gyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored?**
Dewiswch un yn unig

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn siŵr
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Rhowch reswm dros eich barn

A oes unrhyw wybodaeth bwysig arall y dylem ei chynnwys yn ein hasesiad am gyfleoedd yn yr ardal hon ar gyfer hamdden yn yr awyr agored?
Os oes, rhowch ragor o fanylion

**C4c Ydych chi'n meddwl y dylai'r ardal arfaethedig fod yn Barc Cenedlaethol?**
Dewiswch un yn unig
- ☐ Ydw
- ☐ Ydw, ond gydag addasiadau i'r ffin arfaethedig
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

**Cwblhewch yr adrannau canlynol os ydych naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion cyffredinol**

**C5a I ba raddau ydych chi'n cytuno â lle mae ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig wedi'i thynnu?**
Dewiswch un yn unig
- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Niwtral
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

Unrhyw sylwadau pellach?

**C5b Mae'r ardal o amgylch Pwll-glas a Dyffryn Dyfrdwy Uchaf bellach wedi'i chynnwys yn yr Ardal Ymgeisiol. A ydych yn cytuno â'i chynnwys?**
Dewiswch un yn unig
- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Niwtral
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

Unrhyw sylwadau pellach?

**C5c Nid yw'r ardaloedd canlynol wedi'u cynnwys yn yr Ardal Ymgeisiol: Twyni Gronant, Dyffryn Clwyd, Mynydd Helygain, Iseldiroedd yr Wyddgrug, Mynydd yr Hôb a Mynydd Mynyllod. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r rhain yn cael eu heithrio?**
Dewiswch un yn unig
- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Niwtral
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn siŵr

Unrhyw sylwadau pellach?

**C5d A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig?**
Nodwch

**C5e Os sefydlir Parc Cenedlaethol, yna byddai angen enw newydd arno. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym wedi nodi dau opsiwn.**
Dewiswch yr un sydd orau gennych neu awgrymwch eich un eich hun

| | |
|---|---|
| Bryniau Clwyd a'r Berwyn | Mae Clwyd yn cofio enw'r ardal llywodraeth leol rhwng 1974 ac 1996. Bryniau Clwyd yw'r gadwyn o fynyddoedd o Brestatyn i Ddyffryn Dyfrdwy ac mae'n dwyn i gof gantref canoloesol Dyffryn Clwyd. Mae Berwyn yn enw hanesyddol ar y gadwyn o fynyddoedd sy'n ymestyn i'r de o Ddyffryn Dyfrdwy. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio maint daearyddol yr Ardal Ymgeisiol yn dda. |
| Glyndŵr | Roedd Owain Glyndŵr yn byw o fewn yr Ardal Ymgeisiol yn Sycharth. Yn amrywiad ar ei enw, mae Glyndyfrdwy yn un o ranbarthau cyfansoddol y parc. Ef oedd Tywysog Olaf Cymru a arweiniodd wrthryfel yn 1400, gan sefydlu rheolaeth dros y wlad gyfan erbyn 1404. Pan adenillwyd ei gadarnleoedd, diflannodd Glyndŵr a chafodd statws chwedlonol fel y Mab Darogan, a fydd yn dychwelyd ryw ddydd. Mae Glyndŵr hefyd yn cofio enw'r ardal llywodraeth leol rhwng 1974 ac 1996 |

- ☐ Parc Cenedlaethol – **Bryniau Clwyd a'r Berwyn** – National Park
- ☐ Parc Cenedlaethol – **Glyndŵr** – National Park
- ☐ Arall (nodwch gyda chyfiawnhad byr is yn bosib)

**C6 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu ar y cynnig am Barc Cenedlaethol newydd?**

**C7 Os hoffech gael yr wybodaeth ddiweddaraf, rhowch eich cyfeiriad e-bost i ni**

## Ystyriaethau o ran y Gymraeg

**C8 Beth yw eich gallu yn y Gymraeg?**
Dewiswch un yn unig
- ☐ Gallu siarad Cymraeg yn rhugl
- ☐ Gallu deall a siarad peth Cymraeg
- ☐ Yn dysgu Cymraeg
- ☐ Dim dealltwriaeth o'r Gymraeg

Hoffem wybod eich barn ar effeithiau posibl y cynnig hwn ar y Gymraeg, fel a ganlyn:
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**C9 Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

**C10 Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei newid i gael y canlynol:**
- Effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Sylwadau ategol

## Amdanoch chi

Rydym wedi cynnwys y cwestiynau canlynol er mwyn sicrhau datblygiad parhaus ein harferion amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Nid oes rheidrwydd arnoch i ateb unrhyw un o'r cwestiynau, ond byddem yn gwerthfawrogi eich adborth er mwyn sicrhau bod pob rhan o gymdeithas yn cael ei chynrychioli. Os byddwch yn dewis peidio ag ateb cwestiynau, ni fydd yn effeithio ar ein hystyriaeth o'ch sylwadau. Mae'r wybodaeth a roddwch isod yn gyfrinachol a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro yn unig. Bydd y data'n cael ei gadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn ein datganiad preifatrwydd, sydd ar gael yn ein digwyddiadau neu ar wefan ein prosiect.

Rhowch eich cydsyniad drwy ddewis y blwch priodol isod.
- ☐ Ydw, rwy'n cydsynio i'm data gael ei gasglu
- ☐ Na, nid wyf yn cydsynio i'm data gael ei gasglu

**C11 Beth yw eich oedran?** Dewiswch un yn unig
- ☐ Dan 18
- ☐ 18-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65+
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**C12 Beth yw eich rhywedd?** Dewiswch un yn unig
- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall, rhowch fanylion

**Q13 Beth yw eich ethnigrwydd?**

Dewiswch un yn unig

**Gwyn**

- ☐ Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Roma
- ☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch);

**Grwpiau ethnig cymysg neu luosog**

- ☐ Gwyn a Du Caribîaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg neu luosog arall (nodwch);

**Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig**

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch);

**Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribîaidd neu Affricanaidd**

- ☐ Caribîaidd
- ☐ Cefndir Affricanaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibîaidd arall (nodwch);

**Grŵp ethnig arall**

- ☐ Arabaidd
- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch);

**Q14 Ydych chi'n ystyried bod gennych chi unrhyw un o'r canlynol?**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- ☐ Amhariad ar y clyw
- ☐ Amhariad corfforol
- ☐ Amhariad ar y golwg
- ☐ Anabledd dysgu
- ☐ Anabledd gwybyddol
- ☐ Anabledd synhwyraidd
- ☐ Cyflwr iechyd meddwl
- ☐ Cyflwr iechyd (sy'n para am 12 mis neu fwy)
- ☐ Arall (nodwch);

**C15 Ydych chi'n gyfrifol ar hyn o bryd am ofalu am oedolyn sy'n berthynas / partner, plentyn anabl neu rywun arall?**

Dewiswch un yn unig

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn**

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl atom gan ddefnyddio ein cyfeiriad Rhadbost – y cyfan sydd ei angen arnoch yw amlen.

Rhadbost a Mwy RTJJ-AAKE-HKKU, Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW